

Adolygiad o'r ddarpariaeth conservatoire a'r celfyddydau perfformio yng Nghymru

Yr Arglwydd Murphy o Dorfaen

Cyflwynwyd i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llywodraeth Cymru

Tachwedd 2017

## RHAGAIR

### I Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Mae'n dda gennyf gyflwyno fy adolygiad o'r ddarpariaeth conservatoire a'r celfyddydau perfformio yng Nghymru.

#### Gorchwyl

Ar 11 Rhagfyr 2015, cyhoeddodd eich rhagflaenydd ei fod wedi gofyn i mi gynnal adolygiad annibynnol. Nododd ei Ddatganiad Ysgrifenedig, sy'n cynnwys y Cylch Gorchwyl:

"Nod yr adolygiad yw sicrhau bod Cymru yn parhau i elwa ar gyrsiau perfformio dwys, o safon sy'n canolbwyntio ar berfformiadau ymarferol a galwedigaethol. Mae darpariaeth o'r fath yn hanfodol i feithrin y sgiliau sydd eu hangen ar y diwydiannau creadigol a bywyd diwylliannol Cymru."

Mae'r cylch gorchwyl llawn wedi'i nodi yn Atodiad 1. Gofynnwyd i mi archwilio'r trefniadau ar gyfer cefnogi darpariaeth conservatoire a darpariaeth gysylltiedig yn y sector addysg uwch yng Nghymru, ac archwilio rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn cefnogi'r ddarpariaeth hon. Hefyd, gofynnwyd yn benodol i mi lunio argymhellion ynglŷn ag ariannu darpariaeth conservatoire a darpariaeth gysylltiedig yn y dyfodol yng Nghymru, ac i nodi sut y gellid datblygu'r cwricwlwm.

#### Dull

Cyhoeddwyd galwad cyffredinol ar wefan y Llywodraeth am gyflwyniadau mewn ymateb i'r cylch gorchwyl. Yn ogystal, ysgrifennais at y sefydliadau sy'n cael eu heffeithio'n fwy na neb arall gan yr Adolygiad, gan ofyn iddynt am gyflwyniadau. Y sefydliadau hynny oedd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (RWCMD neu'r Coleg), Prifysgol De Cymru (USWf), a CCAUC. Hefyd, ysgrifennais at y prifysgolion eraill yng Nghymru ac at sefydliadau gwahanol yn y sector diwylliannol a chreadigol, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru a'r cwmnïau perfformio cenedlaethol.

Daeth tua 22 o gyflwyniadau i law. Rwy'n ddiolchgar am y wybodaeth a'r safbwyntiau sydd wedi'u cynnwys yn y cyfraniadau hyn. Fe ddaeth tri ohonynt o'r Coleg, un o USW, un o CCAUC, a naw o'r sector diwylliannol a'r diwydiannau creadigol, gan gynnwys dau gan sefydliadau celfyddydau ieuentid. Cyflwynwyd pedwar papur gan y sector addysg uwch, gan gynnwys dau bapur gan adrannau cerdd prifysgolion, a daeth tri llythyr i law gan unigolion sydd â diddordeb arbennig yn y pwnc.

Cynhaliais 16 o gyfarfodydd yn ystod yr Adolygiad, ac roedd 13 ohonynt gyda sefydliadau ac unigolion a oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Hefyd, cynhaliwyd tri chyfarfod ag unigolion sydd â chysylltiad agos ag esblygiad y sefyllfa yng Nghymru, gan gynnwys Syr Ian Diamond, a gytunodd yn garedig i rannu ei safbwyntiau cyn cyhoeddi ei adroddiad ar gyllido addysg uwch yng Nghymru. Fe wnes i ymweld â'r Coleg a USW (ei chyfleuster ATRiuM yng Nghaerdydd), gan dderbyn croeso cynnes yn y ddau le. Roedd natur agored y trafodaethau â'r staff yn fuddiol iawn. Er mwyn sicrhau safbwynt ehangach, penderfynais ymweld â'r Academi Frenhinol Celf Ddramatig yn Llundain hefyd. Mae rhestr lawn o'r cyflwyniadau a dderbyniwyd a'r sefydliadau yr ymgynghorais â nhw wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

Fe ges i gymorth ar gyfer yr Adolygiad hwn gan swyddogion yn yr Adran Addysg - Neil Surman, Clare Jones a Carol Weighell, a gan gynghorydd annibynnol, John Myerscough, sy'n awdurdod uchel ei barch ym maes conservatoires a'r system ddiwylliannol. Yr Adran Addysg a Sgiliau a ddarparodd y data ar fyfyrwyr sy'n mynychu rhaglenni'r celfyddydau perfformio. Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a ddarparodd wybodaeth am y diwydiannau creadigol a diwylliannol yng Nghymru, gan gynnwys ystadegau ar gyflwr ac esblygiad y sector.

Fe ges i wybodaeth ddefnyddiol am ddatblygiad y sector dawns yng Nghymru gan yr Athro Veronica Lewis. Rwy'n ddiolchgar i sefydliadau amrywiol am ymateb i geisiadau am wybodaeth ychwanegol, ac i CCAUC yn benodol am ddarparu gwybodaeth am bremiwm cyllid HEFCE ar gyfer conservatoires yn Lloegr, ac am y cefndir i'r broses wreiddiol o greu'r premiwm pwnc drud.

#### Argymhellion

Dyma argymhellion fy Adolygiad:

- dylid cynyddu cyllid refeniw y Coleg tua £2.36 miliwn dros gyfnod o dair blynedd o 2017/18 ymlaen, a dylai CCAUC ystyried dileu dyled ei fenthyciad di-log i'r Coleg;

- dylid adfer ymreolaeth y Coleg, newid ei enw i "Conservatoire Brenhinol Cymru", a datblygu ei rôl genedlaethol;
- dylai'r Coleg, yn amodol ar weithredu'r argymhellion yn ymwneud â chyllido a llywodraethu, gynllunio i gyflwyno hyfforddiant dawnn gyfoes ar gyfer israddedigion dros y tair blynedd nesaf, a pharhau i adolygu unrhyw angen sylweddol am ddarpariaeth theatr gerddorol estynedig;
- maes o law, gallai CCAUC ystyried a oes angen premiwm pwnc drud i dalu costau llawn unrhyw nodweddion pwysig o'r ddarpariaeth addysgu yn y diwydiannau creadigol, yn debyg i'r hyn a geir ar gyfer pynciau STEM.

Roedd y cylch gorchwyl yn nodi'r newidiadau sylweddol sy'n cael eu hystyried ym meysydd cyllido addysg uwch yng Nghymru, llywodraethu cenedlaethol, a rheoleiddio'r sector AU yn dilyn adroddiadau Hazelkorn a Diamond. Credaf fod argymhellion yr Adolygiad hwn yn gydnaws â safbwyntiau'r ddau adroddiad arall. Rwy'n cefnogi'r egwyddor o gorff hyd braich, fel CCAUC, ac rwy'n cytuno â dadl yr Athro Hazelkorn bod angen gwella cyfansoddiad corff o'r fath yn y dyfodol er mwyn helpu i weithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ym maes addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan gynnwys darpariaeth conservatoire.

### Adroddiad

Mae'r wybodaeth a'r dadleuon sy'n sylfaen i'r argymhellion hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad:

Mae Pennod 1 yn ystyried natur hyfforddiant conservatoire yng Nghymru, sydd, ar wahân i un eithriad bach, yn cael ei ddarparu mewn un sefydliad arbenigol, sef Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Wedyn, mae'n gosod y sefyllfa mewn cyd-destun y DU a rhyngwladol, gan nodi nodweddion allweddol y math hwn o hyfforddiant.

Mae Pennod 2 yn archwilio cynnydd diweddar y Coleg o safbwynt enw da, rôl y Coleg fel sefydliad cenedlaethol, canlyniadau budd cyhoeddus ei weithgareddau helaeth nad ydynt yn gysylltiedig ag AU, a'r posibilrwydd o ymestyn cyrhaeddiad daearyddol ei raglenni mynediad cymdeithasol a llwybrau hyfforddiant cyn-18 oed.

Mae Pennod 3 yn archwilio cost uchel hyfforddiant conservatoire a'r rhesymau am y gostyngiad mewn adnoddau yng Nghymru a arweiniodd at argyfwng cyllido'r Coleg; mae'r Pennod hon yn cynnwys argymhellion yr Adolygiad yn ymwneud â chyllido.

Mae Pennod 4 yn egluro pam y mae hyfforddiant conservatoire yn cael ei ddarparu mewn sefydliadau arbenigol, annibynnol fel arfer. Ar ôl asesu sefyllfa sefydliadol y Coleg ar hyn o bryd fel is-gorff USW, daw i'r casgliad bod adsefydlu ymreolaeth y Coleg yn gam hanfodol.

Mae Pennod 5 yn ystyried syniadau ar gyfer datblygu'r cwricwlwm yn unol â chais cylch gorchwyl yr Adolygiad. Daw i'r casgliad y dylai'r Coleg gyflwyno hyfforddiant dawnn gyfoes ar gyfer israddedigion, ac y dylai rhaglen theatr gerddorol y Coleg barhau dros dro fel ar hyn o bryd.

Mae Pennod 6 yn disgrifio'r ddarpariaeth yng Nghymru ar gyfer y celfyddydau perfformio, wedi'i hymestyn i'r diwydiannau creadigol, sy'n niferus iawn yng Nghymru, gan nodi rôl arweiniol USW; yn amodol ar gydnabyddiaeth gynyddol o'r angen i ddiwygio'r system sgiliau, gellid ystyried adolygu'r costau darpariaeth yn y diwydiannau creadigol, gan ystyried ymestyn y premiwm pwnc drud i feysydd critigol.

Wrth ystyried rôl CCAUC yn cefnogi darpariaeth conservatoire a darpariaeth gysylltiedig, daw Pennod 7 i'r casgliad canlynol: yn dilyn perfformiad cryf yn y lle cyntaf wrth gyflwyno'r system ariannu premiwm i ddarpariaeth conservatoire, dros amser mae newidiadau i'r drefn o gyllido addysg uwch yng Nghymru wedi'i gwneud yn anodd i'r Cyngor Cyllido gynnal ei ymrwymiad i'r Coleg.

### Ffordd ymlaen

Rwy'n ddiolchgar am waith caled a chyfraniad yr unigolion sydd wedi cynorthwyo gyda'r Adolygiad hwn, am y cyflwyniadau ysgrifenedig a dderbyniwyd, ac am y trafodaethau niferus a gynhaliwyd yn ystod y gwaith. Pwysleisaf fy mod yn derbyn cyfrifoldeb llawn am gynnwys a chasgliadau'r Adolygiad. Gobeithio y byddwch yn cytuno bod yr argymhellion yn ffordd ymarferol a synhwyrol ymlaen.

Yr Arglwydd Murphy o Dorfaen  
Medi 2017

## CYNNWYS

Tudalen

<b>RHAGAIR</b>	2
<b>1. DARPARIAETH CONSERVATOIRE</b>	5
i. Yng Nghymru	5
ii. Cymaryddion, gan gynnwys gwledydd eraill	6
iii. Nodweddion	7
<b>2. CONSERVATOIRE CENEDLAETHOL CYMRU</b>	9
i. Gwireddu'r weledigaeth	9
ii. Rôl genedlaethol	10
iii. Llinellau datblygiad	13
<b>3. CYLLIDO</b>	14
i. Cyd-destun	14
ii. Trefniadau arbennig	14
iii. Newid trefniadau cyllido	15
iv. Datblygiadau yn Lloegr	17
v. Cyllid y Coleg	18
vi. Adnodd gofynnol	20
vii. Casgliadau	22
<b>4 CYSYLLTIADAU</b>	23
i. Cyd-destun	23
ii. Sefyllfa bresennol	24
iii. Adsefydlu ymreolaeth	25
iv. Camau ymarferol	26
v. Casgliadau	26
<b>5. DATBLYGIADAU CWRICWLWM</b>	28
i. Theatr gerdd	28
ii. Dawns gyfoes	28
iii. Casgliadau	30
<b>6. DARPARIAETH AU GYSYLLTIEDIG</b>	31
i. Darpariaeth gysylltiedig	31
ii. Ymarfer	31
iii. Adrannau academiaidd a conservatoires	32
iv. Y Diwydiannau Creadigol	32
v. Casgliadau	33
<b>7. CCAUC</b>	35
i. Rôl	35
ii. Polisi	35
iii. Casgliadau	36
<b>ATODIAD 1:</b> Cylch Gorchwyl	38
<b>ATODIAD 2:</b> Rhestr o bartion yr ymgynghorwyd â nhw, y dystiolaeth a gyflwynwyd a'r llythyrau a dderbyniwyd	39
<b>ATODIAD 3:</b> Tablau	40
<b>ATODIAD 4:</b> Llywodraethu corfforol Ysgol Cerdd a Drama'r Guildhall	50

## 1. DARPARIAETH CONSERVATOIRE

### i. YNG NGHYMRU

#### Sefydliad arbenigol Cymru

Prif orchwyl yr adolygiad hwn yw archwilio'r trefniadau yng Nghymru ar gyfer cefnogi "cyrsiau perfformio dwys, o safon sy'n canolbwyntio ar berfformiadau ymarferol a galwedigaethol". Mae'r cyfryw ddarpariaeth conservatoire wedi'i chyfyngu yng Nghymru i waith un sefydliad lefel drydyddol, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (y Coleg),<sup>1</sup> sef sefydliad arbenigol sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddarparu hyfforddiant galwedigaethol ac addysg seiliedig ar ymarfer ar gyfer myfyrwyr talentog sydd am ddilyn gyrfaoedd perfformio ym meysydd cerddoriaeth a'r theatr. Yn nes ymlaen, mae'r Adolygiad yn trafod y gwahaniaeth pwysig rhwng darpariaeth conservatoire a'r mathau eraill o gyrsiau'r celfyddydau perfformio sydd ar gael yn adrannau cerdd a drama prifysgolion.<sup>2</sup>

#### Rhaglenni

Mae rhaglenni'r Coleg yn cynnwys prif ddisgyblaethau cerdd a drama. Mae 727 o fyfyrwyr yn y Coleg (665 cyfwerth ag amser llawn), ac mae 484 ohonynt yn astudio cerdd, 226 yn astudio drama, ac 17 yn dilyn cwrs byr ym maes rheoli'r celfyddydau (2015/16) [Tabl 1]. Mae'r cyrsiau cerdd yn cwmpasu'r holl arbenigeddau clasurol, gan gynnwys offerynnau llinynnol, chwythbren, pres, ynghyd ag offerynnau taro, allweddellau, canu, opera a jazz. Mae'r hyfforddiant drama yn cynnwys actio a theatr gerddorol ynghyd â rheoli llwyfan (gan gynnwys disgyblaethau theatr dechnegol a hyfforddiant digwyddiadau), cynhyrchu, a dylunio llwyfan (set, gwisgoedd a phypedwaith). Trwy dderbyn hyfforddiant perfformio a chynhyrchu ochr yn ochr â'i gilydd, mae myfyrwyr yn y ddwy rôl greadigol hyn yn gallu rhannu'r profiad o gyflwyno perfformiadau cyhoeddus. Wrth gael ei arfer mewn sefydliadau bach, arbenigol, credir yn gyffredinol bod y trefniant hwn yn arwain at y canlyniadau gorau.

#### Cymru

Mae naws Gymreig i gwricwlwm y Coleg, sy'n cynnwys hyfforddiant canu (sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg), y delyn, arwain corau, a rhaglenni pres, ac mae'n darparu hyfforddiant actio trwy gyfrwng y Gymraeg. Os yw'r cohortau o actorion Gymraeg yn ddigon mawr, mae dramâu newydd yn cael eu llwyfannu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Coleg yn cyflawni rôl hyfforddiant hanfodol ar gyfer y clwstwr cynhyrchu ffilmiau a dramâu teledu sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru.

#### Lefelau

Mae tua 538 o'r 729 o fyfyrwyr (2015/16) wedi'u hymrestru ar raglenni i israddedigion, ac mae'r 191 arall yn astudio ar lefel ôl-radd [Tabl 3]. Mae'r holl raglenni i israddedigion (tair blynedd ym maes drama a phedair blynedd ym maes cerdd), a'r holl raglenni drama ar lefel ôl-radd yn gyrsiau llawn amser. Mae'r rhaglen gerdd i raddedigion yn ymestyn yr addysgu dros fwy na blwyddyn gan amlaf. Mae darpariaeth o'r fath ar gyfer astudio'n rhan-amser yn briodol iawn pan fydd y broses o aeddfedu corfforol yn hanfodol i lwyddiant yr hyfforddiant. Mae hyn yn amlwg iawn ym maes canu. Mae'r rhaglenni i raddedigion wedi'u rhannu rhwng arbenigeddau uwch (e.e. arwain corau) a rhaglenni i astudio offeryn neu sgil benodol ar lefel uwch.

#### Rôl a chyflogaeth

Mae'r hyfforddiant dwys sy'n cael ei ddarparu gan y Coleg yn paratoi myfyrwyr ar gyfer gyrfaoedd cynaliadwy mewn swyddi penodol ym maes perfformio. O safbwynt cerddoriaeth, mae hyn yn datblygu'r hyfforddiant helaeth y mae myfyrwyr wedi'i gael fel arfer, o blentynod cynnar gan amlaf. Erbyn hyn, mae disgwyl i fyfyrwyr actio gael profiad blaenorol tebyg, a dechrau'n ifanc hefyd. Amcan y Coleg yw darparu graddedigion "parod i'r diwydiant", fel sy'n briodol, ar ôl cwblhau astudiaethau israddedig neu ôl-radd. Mae llawer o fyfyrwyr cerdd sy'n cwblhau eu gradd yn mynd ymlaen i astudio ymhellach yn y Coleg neu mewn conservatoires eraill. Mae gan y Coleg ddisgwyliadau uchel iawn ar gyfer ei ganlyniadau cyflogaeth, ac mae'n mesur llwyddiant trwy ystyried y canlyniadau mwy hirdymor (gweler Pennod 2). O ystyried cost uchel hyfforddiant conservatoire, mae'n bwysig o safbwynt gwerth cyhoeddus bod y rhan fwyaf o raddedigion yn mynd ymlaen i weithio yn y proffesiynau y maent wedi'u paratoi ar eu cyfer, a'u bod yn aros yno.

---

<sup>1</sup> Mae'n rhaid crybwyll cwrs conservatoire annibynnol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, sef MA mewn Astudiaethau Lleisiol Uwch, sy'n cael ei arwain gan Denis O'Neill, y tenor operatig enwog. Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar addysgu lleisiol ac addysgu arddull lleisiol, ac mae'n addas ar gyfer myfyrwyr sy'n ystyried dilyn gyrfa ym maes canu proffesiynol.

<sup>2</sup> Gweler Pennod 6.



## ii. CYMARYDDION, GAN GYNNWYS GWLEDYDD ERAILL

### Cymaryddion

Y sefydliadau y gellir cymharu'r Coleg â nhw yn fwyaf priodol yw'r wyth conservatoire arall yn y DU – un yn yr Alban a saith yn Lloegr. Mae statws y sefydliadau hyn yn debyg i'r Coleg yng Nghymru, a nhw yw ei gystadleuwyr uniongyrchol. Conservatoire Brenhinol yr Alban (RCS) yn Glasgow yw'r agosaf at y Coleg o safbwynt ei rôl genedlaethol a'i gyfuniad o ddarpariaeth cerdd a drama. Yn wahanol i'r Coleg, mae gan RCS raglen ddawns (bale modern) hefyd [Tabl 4].

### Lloegr

Mae'r saith conservatoire yn Lloegr yn cael eu cyllido gan HEFCE fel sefydliadau arbenigol ar gyfer eu "haddysgu gyda'r gorau yn y byd". Yn yr un modd â'r Coleg, mae'r Guildhall School yn addysgu cerdd a drama. Mae Trinity Laban yn addysgu cerdd aawns. Mae'r pedwar sefydliad arall yn arbenigo mewn un ddisgyblaeth. Mae tri ohonynt yn conservatoires cerdd – y Royal Academy of Music, y Royal College of Music, a'r Royal Northern College of Music (RNCM). Mae'r Ysgol Ganolog Frenhinol yn arbenigo mewn drama. Dim ond un o'r chwe sefydliad yn Lloegr y cyfeiriwyd atynt uchod sydd wedi'i leoli y tu allan i Fanceinion, sef RNCM. Mae gan y seithfed ysgol, y Conservatoire for Dance and Drama (CDD), fformat anarferol. Mae'n grŵp o wyth ysgol annibynnol sydd wedi dod at ei gilydd i greu un sefydliad addysg uwch. Mae tair o'r ysgolion cyswllt yn arbenigo mewn drama, mae pedair yn arbenigo mewn awns, y London Contemporary Dance School, y Central School of Ballet, y Rambert School of Ballet a Contemporary Dance, ac mae un yn arbenigo ym maes syrcau, y National Centre for Circus Arts. Mae tair ysgol ddrama'r CDD, sef y Royal Academy of Dramatic Art, y London Academy of Music and Dramatic Art, a'r Bristol Old Vic Theatre School (BOVTS), yn cystadlu'n uniongyrchol â'r Coleg. Yn ogystal â BOVTS, mae un Ysgol CDD arall wedi'i lleoli'r tu allan i Lundain, sef y Northern School of Contemporary Dance yn Leeds.<sup>3</sup>

### Arfer cyffredin

Mae darparu hyfforddiant ym maes perfformio ar lefel uwch mewn sefydliadau arbenigol annibynnol yn arfer cyffredin ledled y byd. Yn Ewrop, mae hyn yn digwydd mewn gwladwriaethau mawr ac mewn gwledydd bach, lle mae sefydliadau cenedlaethol yn gyfrifol am y gwaith gan amlaf. Mae'r gwledydd Llychlynnaidd yn enghreifftiau da o hyn. Sefydlwyd y Coleg Cerdd Brenhinol yn Stockholm ym 1771 ac fe gafodd ei annibyniaeth ym 1971; sefydlwyd Academi Cerdd Frenhinol Denmarc yn fwy diweddar ym 1975. Sefydlwyd Academi Sibelius yn y Ffindir o dan reolaeth Rwsia ym 1882, ac fe'i hailenwyd yn 'Sibelius' ym 1939. Unwyd yr Academi yn ddiweddar â'r ysgol theatr genedlaethol a'r ysgol gelf a dylunio. Yn Norwy, sefydlwyd Ysgol Organyddion Lindeman yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cyn troi'n Academi Gerdd Norwy mor ddiweddar â 1973. Mae'n rhannu'r gwaith o ddarparu uwch hyfforddiant ag Athrofa Gerdd Barratt Due, ysgol breifat a sefydlwyd ym 1927, sy'n derbyn cyllid gan y wladwriaeth i'w helpu i ddarparu hyfforddiant ar gyfer 90 o fyfyrwr addysg uwch.

### Ffrainc a'r Almaen

Ymysg y gwladwriaethau mwy o ran maint, mae gan Ffrainc ddau conservatoire cenedlaethol, y naill ym Mharis a sefydlwyd ym 1795, a'r llall yn Lyon a sefydlwyd ym 1980. Mae'r ddau'n addysgu cerdd aawns. Er nad ydynt yn rhan ffurfiol o'r system 'Grandes Écoles', mae'r conservatoires cenedlaethol yn cydymffurfio'n llawn â thraddodiad Ffrainc o ddarparu'r rhan fwyaf o hyfforddiant galwedigaethol uwch mewn 'Grandes Écoles' arbenigol, ac mae dros 260 ohonynt ar hyn o bryd yn Ffrainc. Mae'r 16 o wladwriaethau'r Almaen yn gyfrifol am addysg a hyfforddiant – nid y llywodraeth ffederal. Yn unol â hynny, mae gwladwriaethau'r Almaen yn cyllido tua 24 o hochschulen cerdd, sef sefydliadau arbenigol sydd â'r un statws â phrifysgolion.<sup>4</sup> Sefydliadau "gwladwriaethol" nid "cenedlaethol" yw'r rhain mewn gwirionedd. Mae'r ffaith fod cynifer ohonynt yn adlewyrchu ymrwymiad cadarn yr Almaen i ddarpariaeth alwedigaethol ac i'w thraddodiad hir o conservatoires cerddoriaeth. Sefydlwyd y cyntaf ohonynt yn Leipzig ym 1842. Mewn nifer fach o achosion, addysgir drama ochr yn ochr â cherddoriaeth, ond yn y rhan fwyaf o achosion, mae

<sup>3</sup> Yn ogystal â'r naw sefydliad sy'n derbyn cyllid premiwm gan gynghorau cyllido Cymru, Lloegr a'r Alban (neu 16 os ydym yn cynnwys yr wyth ysgol CDD ar wahân), dylid nodi bod Conservatoire Birmingham yn aelod o Conservatoires UK hefyd. Mae Conservatoire Birmingham yn un o ddeg ysgol Cyfadran y Celfyddydau, Dylunio a'r Cyfryngau Prifysgol Dinas Birmingham, ac mae Coleg Cerdd Leeds yn rhan o Goleg Dinas Leeds, sy'n un o'r colegau AB mwyaf yn y DU. Nid yw'r naill na'r llall yn derbyn cyllid premiwm gan HEFCE. Mae cyd-destun ehangach y system hyfforddi yn Lloegr yn cynnwys llawer o sefydliadau bach, arbenigol eraill sy'n derbyn cymorth gan y llywodraeth i ddarparu cyrsiau galwedigaethol sy'n paratoi myfyrwr ar gyfer mynediad uniongyrchol i'r proffesiynau perfformio. Maent yn cynnwys y pedair ysgol ddawns breswyl, e.e. yr Ysgol Fale Frenhinol ar gyfer myfyrwr hyd at 18 oed (sy'n rhan o'r cynllun Cerdd a Dawns), a'r 19 o ysgolion Dyfarniadau Dawns a Drama (DaDA), e.e. Academi Celfyddydau'r Theatr Mountview a Chelfyddydau'r Theatr Laine, sy'n addysgu dyfarniadau lefel pump a chwech yn bennaf. Mae'r nifer cynyddol o ddarparwr addysg uwch amgen yn cynnwys sawl arbenigwr ym maes cerddoriaeth gyfoes a phoblogaidd fel yr Academi o Gerdd Gyfoes ac Athrofa Perfformio Cerdd Gyfoes.

<sup>4</sup> Deutsches Musikinformationszentrum.

hyfforddiant drama a dawns yn cael ei ddarparu mewn hochschules ar wahân, ac mae'r un peth yn wir am hyfforddiant celf a dylunio.

### Yr Alban

Mae'n werth nodi bod Conservatoire Brenhinol yr Alban yn perthyn i'r patrwm hwn. Fe'i sefydlwyd ym 1845 fel Academi Addysg Glasgow. Ar ôl newid enw sawl gwaith, daeth yn Scottish National Academy of Music 1929. Ar yr adeg hon, fel un o "sefydliadau canolog" yr Alban, roedd eisoes yn derbyn cyllid cyhoeddus trwy Swyddfa'r Alban. Ym 1994, disodlodd Brifysgol Glasgow fel y sefydliad sy'n gyfrifol am ddilysu ei raddau a addysgir. Mae ei Memorandwm a'i Herthyglau wedi'u pennu gan Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor Academi Gerdd a Drama Frenhinol yr Alban 1995.

### iii. NODWEDDION

#### Nifer y myfyrwyr

Anaml iawn y mae mwy na 1,000 o fyfyrwyr AU yn mynychu conservatoires, ac mae llawer llai na hynny yn mynychu nifer ohonynt. Maen nhw'n fach iawn o'i gymharu â darparwyr addysg uwch cyffredinol. Yn 2014/15, roedd 856 o fyfyrwyr addysg uwch wedi ymrestru mewn conservatoires sy'n derbyn cyllid premiwm yn y DU (ac eithrio CDD) ar gyfartaledd (gweler Tabl 4), o'i gymharu â chyfartaledd o tua 14,000 yn y 162 o brifysgolion<sup>5</sup> yn y DU. Y conservatoire mwyaf o safbwynt niferoedd myfyrwyr yw'r Royal Central School, sydd â 995 o fyfyrwyr. Roedd 729 o fyfyrwyr AU yn y Coleg yn 2015/16 (gweler Tabl 1)<sup>6</sup>, ac roedd nifer myfyrwyr yr Academi Gerdd Frenhinol yn debyg iawn (775). Mae nifer y myfyrwyr sy'n mynychu wyth sefydliad annibynnol y CDD yn llawer llai, gyda'r niferoedd AU yn amrywio o 67 yn y National Centre for Circus Arts i tua 200 yn y London Contemporary Dance School.

#### Arbenigeddau

Mae'n berthnasol nodi sefyllfa gymharol niferoedd myfyrwyr mewn arbenigeddau unigol yn y sefydliadau hyn. Mae 235 o fyfyrwyr wedi ymrestru ar gyfer cyrsiau drama yn y Coleg, sy'n cymharu'n dda â'i gystadleuwyr; mae'n llai na nifer y myfyrwyr yn y Royal Central School a'r Conservatoire Brenhinol yr Alban, ond yn fwy na nifer y myfyrwyr yn y Guildhall ac mewn ysgolion drama CDD, fel RADA, sydd â thua 170 o fyfyrwyr AU. Mae 480 o fyfyrwyr yn astudio cerddoriaeth yn y Coleg, sy'n debyg iawn i RCS, sydd â 485 o fyfyrwyr. Ar gyfartaledd, mae 666 o fyfyrwyr AU yn ymrestru ar gyrsiau cerddoriaeth mewn conservatoires yn y DU, sy'n uwch o lawer na nifer y myfyrwyr sy'n ymrestru ar gyfartaledd i astudio cerddoriaeth mewn hochschules yn yr Almaen. Ond mae capasiti cyffredinol y system yn yr Almaen, sydd â 24 o hochschules cerddoriaeth, dair gwaith yn fwy nag yn y DU.

#### Sail resymegol y niferoedd sy'n astudio cerddoriaeth

Mae union nifer y myfyrwyr mewn sefydliadau arbenigol yn cael ei benderfynu gan ffactorau amrywiol, gan gynnwys nodweddion yr hyfforddiant, gofynion celfyddydol penodol y disgyblaethau gwahanol, ac anghenion y proffesiynau, yn enwedig eu gallu i dderbyn perfformwyr newydd. Un o'r prif ffactorau wrth gyfrifo niferoedd ym maes cerddoriaeth yw maint ac offeryniaeth cerddorfa symffoni, sy'n rhan ganolog o hyfforddiant ensemble yn y rhan fwyaf o conservatoires. Mae ystod a maint rhaglenni mewn disgyblaethau eraill, fel canu, hyfforddiant opera, allweddellau, jazz, gwerin, a theatr gerddorol, yn gallu bod yn fwy amrywiol, a gall y niferoedd godi yn unol â hynny.

#### Niferoedd ym meysydd drama a dawns

Mae llawer llai o fyfyrwyr yn astudio actio na cherddoriaeth fel arfer. Mae'r niferoedd yn seiliedig ar drefnu'r hyfforddiant ar sail cwmnïau, sydd, am resymau repertoire, angen eu cydbwysu a'u rheoleiddio yn ofalus. Gall ysgolion recriwtio dau gwmni o 12 – 17 o fyfyrwyr bob blwyddyn. Yn ogystal â darparu hyfforddiant actio, mae ysgolion drama yn y DU yn darparu hyfforddiant technegol, rheoli llwyfan, y crefftau technegol, a dylunio. Mae hyfforddiant dawns yn fwy cymunol, ac mae'n cael ei strwythuro ar sail maint y dosbarth y medrir ymdopi ag ef, sef rhwng 15 a 20+ o fyfyrwyr fel arfer. Mae hyn yn llywio bywydau dawnsywyr proffesiynol, ac mae'r broses yn cychwyn yn yr ysgol. O'r tair disgyblaeth hyn, cerddoriaeth sy'n denu'r nifer fwyaf o fyfyrwyr fel arfer. Un eithriad yw'r Royal Central School of Speech and Drama. Hon yw'r ysgol ddrama fwyaf yn y DU a'r conservatoire mwyaf hefyd.

<sup>5</sup> Yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

<sup>6</sup> Yn 2016/17 roedd 786 o fyfyrwyr (717 cyfwerth ag amser llawn) yn y Coleg.



### Templed safonol

Mae natur unigryw hyfforddiant conservatoire yn seiliedig yn bennaf ar dempled sy'n cael ei ddilyn ledled y byd.<sup>7</sup> Mae hyn yn gyfrifol am fanylion yr hyfforddiant, ei leoliad sefydliadol, a'i gost uchel. Dyma nodweddion hanfodol yr hyfforddiant:

- amgylchedd gwaith a dysgu sy'n efelychu'r byd perfformio proffesiynol o safbwynt cyfleusterau'r sefydliad a phatrwm bywyd myfyrwyr;
- hyfforddiant dwys, cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar feithrin yr artist ifanc unigol;
- niferoedd bach o fyfyrwyr hynod ddethol sy'n cael eu dewis am eu dawn a'u gallu rhagorol;
- cysylltiad agos â'r sectorau y mae'n eu gwasanaethu, gan gynnwys lleoliadau myfyrwyr;
- staff sy'n perthyn i'r proffesiynau ac sy'n cadw eu rôl fel ymarferwyr;
- llawer o gysylltiad ag ymarferwyr gwadd, gweithwyr proffesiynol y sector, ac asiantau;
- astudiaeth fanwl o ystyr gelfyddydol a mynegiant dilys yn y repertoire penodol;
- gweithgareddau labordy seiliedig ar ymarfer sy'n datblygu'r gelfyddyd;
- datblygu dull beirniadol o feddwl creadigol ac ymrwymiad cadarn i ymarfer cynaliadwy;
- amgylchedd cefnogol â mynediad llawn i wasanaethau meddygol a chyflyru hanfodol, fel Techneg Alexander, a mathau eraill o gymorth.

### Ethos a phatrwm bywyd unigryw

Mae ethos penodol bywyd conservatoire yn deillio o natur unigryw yr hyfforddiant a lle canolog perfformio yn y sefydliadau hyn. Dyma'r brif agwedd ar asesu hefyd. Mae'r patrymau sy'n hanfodol i baratoi a chyflwyno perfformiadau (ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn bennaf) yn llywio bywyd cyfan y sefydliad. Adlewyrchir disgwyliadau ac uchelgeisiau uchel y myfyrwyr gan y ffaith eu bod yn ymarfer ac yn astudio am oriau hir.<sup>8</sup> Mae'r sefydliadau yn edrych tuag allan ac yn ymgysylltu'n agos â'r proffesiynau. Mae'r myfyrwyr yn gobeithio gweithio yn y proffesiynau hyn maes o law, ac mae'r rhan fwyaf o staff addysgu yn perthyn iddynt. O ganlyniad, mae ganddynt gysylltiadau allanol â'r byd cerddoriaeth a theatr yn bennaf, yn hytrach nag â sefydliadau addysg uwch eraill.

---

<sup>7</sup> Grŵp Cynghori ar Conservatoires, o dan gadeiryddiaeth Syr John Tooley, *Review of Music Conservatoires*, HEFCE (1998).

<sup>8</sup> RWCMD Students' Attitudes and Opinions: report on focus group research and online survey, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (2016).

## 2. CONSERVATOIRE CENEDLAETHOL CYMRU

### i. GWIREDDU'R WELEDIGAETH

#### Hanes

Mae'r Coleg wedi sicrhau ei enw da presennol ym maes conservatoire yn dilyn taith hir o'i wreiddiau ym 1949 fel Coleg Cerdd a Drama Caerdydd, coleg addysg bellach o dan reolaeth yr awdurdod lleol a oedd yn addysgu perfformwyr ac athrawon. Erbyn y 1970au, roedd yn canolbwyntio mwy ar berfformwyr, ac ymunodd â'r Gynhadledd Ysgolion Drama ym 1975. Lluniwyd gweledigaeth yn y 1990au i greu conservatoire gyda'r gorau yn y byd. Derbyniwyd y cysyniad hwn yn frwdfrydig yng Nghymru, gwlad sy'n ymwybodol iawn o'i diwylliant ei hun. Cyflwynwyd cyllid premiwm yn 2001 fel yr adnodd i wireddu'r weledigaeth.

#### Cynnydd pwysig

Erbyn hyn, mae'r Coleg yn cael ei gydnabod yn aelod o'r gymuned ryngwladol o conservatoires. Byddai honni bod y Coleg "bron yn anweladwy yng Nghymru" cyn y dynodiad 'brenhinol' yn 2002 yn gorliwio'r sefyllfa o bosibl, gan fod y rhaglenni actio a dylunio eisoes yn gryf ac yn cael eu parchu gan y proffesiwn. Ond roedd angen gwneud rhai newidiadau i'r ddarpariaeth gerdd, a dechreuodd y Coleg ganolbwyntio mwy ar ei feysydd cryfder posibl, gan gynnwys gweddwid ei berthynas â chwmnïau cenedlaethol Cymru. Aeth y Coleg ati i benodi athrawon nodedig eraill ym meysydd allweddol o'i ddarpariaeth gerdd. Yn ogystal, roedd yr adeilad newydd a godwyd yn 2011 yn cynnwys cyfleusterau perfformio ac ymarfer rhagorol, gan wneud datganiad clir ynglŷn ag uchelgais y Coleg a safle'r sefydliad.

#### Ceisiadau

Yn dilyn y newidiadau hyn, cafwyd cynnydd sylweddol o tua 59% rhwng 2006 a 2014 yn nifer y ceisiadau gan ddarpar fyfyrwyr cerdd. Cafwyd cynnydd penodol yn y ceisiadau am leoedd ar y rhaglenni ôl-radd [Tabl 9]. Hefyd, cynyddodd y diddordeb rhyngwladol yn y Coleg yn sylweddol, i'r graddau bod 20% o'r holl fyfyrwyr yn dod o weddill Ewrop a gweddill y byd erbyn hyn (2015/16) [Tabl 2]. Mae hwn yn llwyddiant rhagorol yng nghyd-destun addysg uwch yng Nghymru gan mai 8% o fyfyrwyr y sector hwn sy'n dod o wledydd tramor ar gyfartaledd [Tabl 6]. Hefyd, mae'n cymharu'n dda â conservatoires y DU y tu allan i Lundain, e.e. 25% yn RNCM a 29% yn RCS [Tabl 5]. Mae ceisiadau'n parhau i gynyddu, nes cyrraedd 2,508 yn 2016, neu 23 cais am bob lle [Tabl 8].

#### Cyfraddau a chadw myfyrwyr

Y cyrsiau actio yw'r cyrsiau mwyaf poblogaidd. Gwneir 47 cais am le ar y cwrs BA mewn Actio, a 27 cais am le ar y cwrs MA mewn Actio. Mae'r cyrsiau eraill i israddedigion yn boblogaidd hefyd, ac mae tua phum cais am bob lle. Mae'r cyfraddau ceisiadau am le ar y rhaglenni i raddedigion yn amrywio o ddau i wyth cais am bob lle [Tabl 7]. Mae nifer y ceisiadau yn uchel o hyd am le ar y cyrsiau MMus, Dylunio Theatr a Pherfformio Opera. Ategir cyfraddau ceisiadau uchel y Coleg gan berfformiad rhagorol o safbwynt cadw myfyrwyr, ac mae llai na 4% o fyfyrwyr yn gadael a/neu'n methu am resymau academaidd bob blwyddyn. Ar gyfartaledd, y cyfraddau cadw myfyrwyr yn y Coleg ar gyfer y blynyddoedd 2011/12 i 2015/16 oedd 96.4%, sy'n nodweddiadol o sefydliadau arbenigol yn gyffredinol.

#### Bodddhad

Er bod amheuan mawr ynglŷn â defnyddio canlyniadau'r arolwg cenedlaethol o fyfyrwyr at ddibenion cymharu sefydliadau, fe'u defnyddir yn aml at y diben hwn. Sgôr ddiweddaraf genedlaethol y Coleg ar gyfer bodlonrwydd myfyrwyr yw 86 (2016). Sgôr gyfartalog y naw conservatoire yn y DU yw 86 hefyd, a'r ystod yw 72 - 90. Sgôr y Coleg ar gyfer ei raglenni unigol yw 78 ar gyfer cerddoriaeth a 95 ar gyfer drama. Yn ôl y Coleg, mae'r sgôr ar gyfer cerddoriaeth yn parhau i adlewyrchu problem yn ymwneud â newidiadau i'r amserlen gerddoriaeth yn 2014/15.

#### Cyrchfannau cyntaf

Mesur pwysicach yw canran y graddedigion sy'n dod o hyd i swyddi i raddedigion neu'n ymgymryd ag astudiaethau pellach o fewn chwe mis i raddio, sy'n seiliedig ar arolwg o gyrchfannau cyntaf myfyrwyr sydd wedi gadael (DLHE). Ar hyn o bryd, mae sgôr y Coleg (95% mewn cerddoriaeth ac 84% mewn drama yn 2016) ymysg yr uchaf yn y DU. Hefyd, yn ôl Arweiniad i Brifysgolion papur newydd *The Guardian*, mae'r Coleg wedi cael y sgôr uchaf yn y DU ar gyfer hyfforddiant drama ddwywaith yn y tair blynedd diwethaf. Mae'r Coleg yn priodoli hyn i'r ffaith ei fod yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar gyflogadwydd ei fyfyrwyr o adeg eu hyfforddiant cychwynol hyd at y cyfnod ar ôl iddynt raddio.



## Canlyniadau mwy hirdymor

Mesurau pwysicaf llwyddiant y Coleg yw'r canlyniadau cyflogaeth mwy hirdymor, ac yn benodol, i ba raddau y mae'n meithrin gradddedigion sy'n aros yn y proffesiwn y maent wedi'u hyfforddi ar ei gyfer. Ar sail cohortau gradddedigion 2013 [Tabl 10], gwelir bod 90% o'r myfyrwyr drama yn parhau i weithio mewn swyddi sy'n berthnasol i'w hyfforddiant, naill ai ym maes actio neu berfformio. Mae 5% arall wedi symud i swyddi ym meysydd proffesiynol cysylltiedig, fel rheoli'r celfyddydau, ac mae llai na 5% naill ai "ddim yn gwybod" neu wedi gadael y byd perfformio. Mae tua 85% o'r cerddorion yn gweithio ym maes cerddoriaeth, naill ai fel perfformwyr (65%) neu athrawon offerynnau a llais (20%). Mae tua 8% arall yn gwneud swyddi cysylltiedig, fel recordio, rheoli'r celfyddydau, darlledu, neu waith therapi. Mae llai na 10% naill ai wedi gadael y maes cerddoriaeth a'r celfyddydau perfformio, neu wedi colli cysylltiad.<sup>9</sup> Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau hyn yn debyg iawn i berfformiad y conservatoires sy'n cystadlu â'r Coleg.

## Enw da

Dywedodd Cyfarwyddwr Artistig Opera Cenedlaethol Cymru fod y Coleg "o ddifrif am ei waith ac yn gwneud popeth yn dda." Mae'r Coleg yn credu bod ei leoliad a'i gyfleusterau rhagorol, ynghyd â'i gysylltiadau agos â chwmnïau cenedlaethol Cymru, yn gryfderau penodol sy'n ei wneud yn wahanol i'w gystadleuwyr. Mae disgyblaethau penodol yn denu myfyrwyr o bedwar ban byd, gan gynnwys canu ac opera, offerynnau pres, arwain corau, dylunio, actio, gwneud modelau a phypedwaith. Cadarnhaodd cyflogwyr o'r sector diwylliannol a chreadigol fod y Coleg yn llwyddo i feithrin talent Cymru yn dda iawn. Mae ymgysylltiad y Coleg â'r diwydiannau creadigol, yn enwedig wrth ddiwallu anghenion y clwstr cynhyrchu ffilmiau a dramâu teledu yng Nghymru, yn cael ei ystyried yn rhagorol, ac mae'n bwysig iawn i gyflogwyr.

## ii. RÔL GENEDLAETHOL<sup>10</sup>

### Myfyrwyr talentog o Gymru

Un o rolau cenedlaethol y Coleg yw darparu uwch hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr mwyaf talentog Cymru ochr yn ochr â'r myfyrwyr gorau o'r DU a thramor. Mae hyn yn eu paratoi ar gyfer swyddi yn y system ddiwylliannol yng Nghymru a thu hwnt. Roedd tua 24% o'r myfyrwyr a ymrestrwyd yn y Coleg yn 2015/16 yn hanu o Gymru, roedd 20% yn hanu o weddill Ewrop a'r byd, a 56% yn dod o weddill y DU [Tabl 2].

### Cysylltiadau â'r sector yng Nghymru

Mae'r cwmnïau perfformio a chynhyrchu yng Nghymru yn dibynnu ar y Coleg am eu cyflenwad o staff ac ymarferwyr hyfforddedig. Mae gan y Coleg gysylltiad agos â'r cwmnïau cenedlaethol yn y cyswllt hwn, ac mewn materion eraill. Mae'r broses o ddefnyddio perfformwyr yn gweithredu ar lefel y DU, ac ar lefel ryngwladol weithiau. Mae enghreifftiau diweddar o lwyddiant y Coleg yng Nghymru yn cynnwys swydd y prif drympedwr yng Ngherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, sy'n cael ei llenwi gan gyn fyfyrwr; y ffaith fod un ar ddeg o'r tri ar ddeg o actorion yn y cynhyrchiad llwyddiannus o *Under Milk Wood* gan Theatr Clwyd yn gyn fyfyrwr y Coleg, a'r 25 o gyn fyfyrwr y Coleg a gyflogwyd yn nhim dylunio Byd-eang Starz/BBC a gynhyrchodd dri thymor o *Da Vinci's Demons*.

### Cymorth ar gyfer sector economaidd â blaenoriaeth

Mae'r Coleg yn paratoi llawer o ymarferwyr medrus ar gyfer y diwydiannau creadigol a diwylliannol yng Nghymru. Mae twf y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn llwyddiant anhygoel, yn enwedig y coridor cynhyrchu ffilmiau a dramâu teledu ar hyd yr M4. Cynyddodd cyflogaeth yn y sector hwn 54% rhwng 2006 a 2015.<sup>11</sup> Yn ôl Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, bu'r Coleg yn ganolog i strategaeth y Llywodraeth ar gyfer cefnogi'r sector economaidd hwn â blaenoriaeth. Mae ymrwymiad y Coleg i wasanaethu buddiannau hyfforddi a recriwtio lefel uchel y sector cynhyrchu ffilmiau a dramâu teledu yn parhau i fod yn ffactor hyder allweddol wrth sicrhau twf cynyddol mewn buddsoddiad rhyngwladol yn y sector hwn. Yn ystod yr Adolygiad, roedd mwy nag un cyflogwr yn y sector creadigol, gan gynnwys Tinopolis, Three Cliffs Productions a Theatr Genedlaethol Cymru, yn dadlau bod angen i'r Coleg gynyddu ei gohortau gradddedigion ym maes theatr dechnegol, gan fod prinder o hyd yng Nghymru yn y maes hwn.

<sup>9</sup> Roedd dylunwyr o gohort 2013 a hyfforddwyd yn y Coleg yn gweithio yn RSC, yr Ysgol Bale Frenhinol a Glyndebourne, ac roedd actorion o gohort 2013 yn ymddangos yn *Cheek by Jowl*, y Theatr Genedlaethol, y *New Vic* a'r *Old Vic* ym Mryste, ac roedd cantorion yn perfformio yn Opera North, Opera Cenedlaethol Cymru, Covent Garden, a Glyndebourne. Roedd offerynwyr pres y Coleg, sy'n un o arbenigeddau offerynnol hynod llwyddiannus y Coleg, yn gweithio yn yr LSO, yr RSN, yr RPO, yr RLPO, BBC NOW, ac Opera Cenedlaethol Cymru.

<sup>10</sup> Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar dystiolaeth a dadansoddiad sy'n berthnasol yn bennaf i 2015/16 neu cyn hynny.

<sup>11</sup> Ystadegau sectorau â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru (gan gynnwys y diwydiannau creadigol).

## Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru

Yn ôl yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), mae tua 370 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn mynychu conservatoires yn y DU (2014/15), ac mae 150 ohonynt (41%) yn astudio yn y Coleg [Tabl 11]. Mae'r rhan fwyaf o'r 59% arall (58%) yn dewis hyfforddi yn Lloegr, ac mae 1% yn dewis hyfforddi yn yr Alban. Yn gyffredinol, mae tua 62% o fyfyrwyr addysg uwch sy'n hanu o Gymru yn mynychu prifysgolion Cymru. Felly, o safbwynt hyfforddiant conservatoire, mae'r gyfran o fyfyrwyr yn y Coleg sy'n hanu o Gymru ac yn dewis astudio yng Nghymru yn debyg i'r cyfartaledd yn y sector addysg uwch yn gyffredinol.

## Cerddoriaeth, drama a dawns y tu allan i Gymru

Mae sawl rheswm posibl pam y bydd myfyrwyr o Gymru yn dewis astudio y tu allan i Gymru. Yn gyntaf, nid yw hyfforddiant ar lefel conservatoire ar gael ar gyfer dawns yng Nghymru, felly ar hyn o bryd mae'n rhaid i fyfyrwyr dawns adael y wlad i wireddu eu huchelgais. Yn ail, mae llwyddiant y rhaglenni iau yn y Coleg yn atgyfnerthu dymuniad llawer o fyfyrwyr, a myfyrwyr cerdd yn benodol, i astudio oddi cartref. Y rheswm am hyn yw'r posibilrwydd eu bod eisoes wedi astudio yn y coleg am hyd at ddeng mlynedd erbyn iddynt droi'n 18 oed. Mae ffactorau tebyg ar waith wrth i actorion ifanc wneud eu dewisiadau ar gyfer astudiaeth uwch. Yn 2015/16, fe aeth 18 o actorion o'r Stiwdio Actorion Ifanc ymlaen i astudio ar lefel uwch. Dewisodd chwech ohonynt aros yn y Coleg, ac aeth y gweddill i conservatoires gwahanol ac ysgolion DaDA uwch yn Lloegr. Yn olaf, nid yw Caerdydd yn ddewis cyntaf o reidrwydd ar gyfer myfyrwyr o ogledd Cymru. Mae 13% o'r myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn y Coleg yn dod o'r Gogledd, o'i gymharu â phoblogaeth gogledd Cymru (26%). Hefyd, gallai hyn egluro pam y mae tua un o bob pump o fyfyrwyr o Gymru sy'n mynychu conservatoires y tu allan i Gymru yn mynychu'r RNCM ym Manceinion.

## Rôl ehangach

Fel pob sefydliad tebyg yn y DU, mae'r Coleg yn ymgymryd â nifer sylweddol o weithgareddau y tu hwnt i'w rôl graidd o ddarparu addysg a hyfforddiant lefel uwch yng Nghaerdydd. Diolch i'r gweithgareddau hyn, mae arbenigedd, gwybodaeth a phrofiad y Coleg, naill ai ym meysydd addysgu, perfformio neu wasanaethau proffesiynol eraill, ar gael ar lefelau gwahanol, mewn ffyrdd eraill, ac mewn rhannau eraill o Gymru. Ond oherwydd ei rôl genedlaethol, mae'r Coleg yn darparu mwy o'r cyfryw weithgareddau na rhai o conservatoires eraill y DU. Fel conservatoire cenedlaethol Cymru, mae'r Coleg yn ceisio gweithredu fel adnodd ar gyfer Cymru gyfan a'r genedl Gymreig. Mae'r gweithgareddau ychwanegol hyn yn perthyn i'r meysydd canlynol yn bennaf: hyfforddiant dwys i'r rhai o dan 18 oed; mynd i'r afael ag allgymorth a mynediad yn y celfyddydau; perfformiadau a digwyddiadau cyhoeddus; a bod yn bartner i'r llywodraeth ym meysydd polisi allweddol.

## Hyfforddiant dwys ac allgymorth cyn 18 oed

Mae'r Coleg yn darparu llawer o hyfforddiant cyn 18 oed ar gyfer perfformwyr talentog, yn ogystal â gweithgareddau allgymorth mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol. Mae'r Conservatoire Cerdd Iau yng Nghaerdydd yn denu tua 180 o ddisgyblion o'r Canolbarth a'r De ar gyfer hyfforddiant wythnosol dwys. Hefyd, mae'r cwrs Cerddoriaeth i blant rhwng 4 ac 8 oed yng Nghaerdydd yn denu 46 o blant eraill. Nod y cwrs hwn yw ysgogi diddordeb mewn cerddoriaeth o bob math, yn ogystal â datblygu sgiliau perfformio myfyrwyr ifanc iawn. Mae Stiwdio Actorion Ifanc y Coleg yng Nghaerdydd a'r cyfleuster ategol yn Hwlfordd yn hyfforddi 164 o fyfyrwyr. Yn ogystal â'r cyrsiau dwys, mae rhaglenni allgymorth y Coleg yn cyrraedd hyd at 10,000 o bobl ledled Cymru, plant ysgol a rhai dinasyddion hŷn yn bennaf. Hefyd, mae'r Coleg yn cynnig cymorth gyda'r cwricwlwm i ysgolion yng Nghymru. Mae llwyddiant a gwelededd y Coleg yn codi dyheadau pobl ifanc ledled Cymru, gan ysgogi diddordeb mewn ymarfer y celfyddydau perfformio yn benodol. Mae'r llwybrau cam wrth gam sy'n cael eu darparu gan y Coleg ar gyfer pobl ifanc dalentog yng Nghymru ym meysydd cerdd a drama yn eu paratoi ar gyfer hyfforddiant uwch, os ydynt yn dewis hynny.

## Perfformiadau a digwyddiadau

Mae gan y Coleg raglen ragorol o berfformiadau cyhoeddus sy'n cynnwys 500 o berfformiadau bob blwyddyn. Hon yw'r rhaglen fwyaf uchelgeisiol o blith conservatoires y DU. Mae cynulleidfaoedd wedi cynyddu deuddeg gwaith o 5,000 yn 2012 i 65,000 yn 2015. Mae rhaglen y Coleg yn cyfuno ei gynrychiadau a'i berfformiadau cerdd a theatr ei hun â chyngherddau a sioeau gan berfformwyr gwadd, gan gynnwys artistiaid rhyngwladol. Ym maes theatr, mae'r Coleg yn gyfrifol am lwyfannu mwy o gynrychiadau newydd ac am gomisiynu mwy o waith newydd nag unrhyw sefydliad arall yng Nghymru. Mae perfformio gwaith newydd yn ychwanegu'n sylweddol at her a phwysigrwydd rhaglen y Coleg, ac fel yr eglurwyd eisoes, mae'n bwysig bod rhywfaint o'r gwaith hwn yn cael ei wneud trwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, mae'r Coleg yn defnyddio ei gyfleusterau penigamp i gynnal digwyddiadau mawr, gan gynnwys cystadleuaeth Canwr/Cantores y Byd Caerdydd y BBC, Cerddor y Flwyddyn y BBC, ac o dro i dro, arddangosfeydd pwysig, fel World Stage Design 2013, a ddenodd dros 12,000 o ymweliadau.

## Partner y sector diwylliannol

Mae'r Coleg yn un o bartneriaid proffesiynol gweithredol y sector diwylliannol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â chwmnïau cynhyrchu a pherfformio yng Nghymru, fel y prosiect "Cyfeiriadau Eraill", sy'n cysylltu dawnswyr Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru â dylunwyr y Coleg ym maes coreograffi newydd; darparu cantorion ychwanegol ar gyfer corws Opera Cenedlaethol Cymru; a rhannu ei arbenigedd technegol, ei griwiau a'i gyfarpar â'r sector ar gyfer sioeau a digwyddiadau proffesiynol. O safbwynt darparu gwasanaethau, mae'r Coleg yn rhaglennu teithiau jazz cenedlaethol ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru ac yn cynnal Consortiwm Cerddorfaol De Cymru, sy'n gweithredu'r rhestr wrthdaro ac yn casglu gwybodaeth am y farchnad ar gyfer y prif ensembles a hyrwyddwyr. Yn fwy cyffredinol, mae staff y Coleg yn rhannu eu harbenigedd a'u brwdfrydedd â seilwaith diwylliannol Cymru fel ymarferwyr ac arweinwyr medrus yn y sectorau gwirfoddol ac ieuencid, yn ogystal â fel cyfarwyddwyr, rheolwyr, cynllunwyr a pherfformwyr yn eu disgyblaethau gwahanol. Mae'r Coleg yn cyflawni rôl ymgynghori ar gyfer sefydliadau hyfforddi eraill yng Nghymru, a thramor hefyd, fel y disgrifir isod.

## Cymorth polisi cyhoeddus

Yn ogystal â chymorth y Coleg ar gyfer y diwydiannau creadigol fel sector economaidd â blaenoriaeth, fel y nodwyd uchod, mae cyfraniad unigryw'r Coleg at bolisi cenedlaethol yn cael ei gydnabod mewn sawl maes arall. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys ysgolion a phobl ifanc, ac mae arweinyddiaeth a chymorth y Coleg ar gyfer addysgu offerynnau o oed cynnar ac ar gyfer cwmnïau ac ensembles ieuencid yn cael eu gwerthfawrogi gan y gwasanaethau cerdd a Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru. Yn ogystal, mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ystyried mai'r Coleg yw ei "bartner naturiol ar gyfer llawer o'i nodau". Mae hyn yn cynnwys ei waith yn datblygu diwylliant Cymraeg, trwy hyfforddi cohortau o actorion Cymraeg, comisiynu dramâu Cymraeg newydd, a llwyfannu cynrychiadau Cymraeg newydd. Yn ogystal, mae pwysigrwydd rhaglen ragorol y Coleg o berfformiadau cyhoeddus a'r ffaith ei fod yn cynnal digwyddiadau mawr yn ychwanegiad arwyddocaol at gynig diwylliannol a thwristiaeth y De. Bydd y Coleg yn cynnal Cyngres Telynau'r Byd yn 2020.

## Enw da rhyngwladol

Mae gan y Coleg enw da ymysg ei gymheiriaid yn y DU a thramor. O ganlyniad, mae modd cyflwyno Cymru mewn ffordd gadarnhaol a denu staff a myfyrwyr rhyngwladol i'r Coleg. Mae myfyrwyr yn dod o 30 o wledydd, ac maent mewn sefyllfa dda i gyfleu delwedd gadarnhaol o Gymru yn ôl adref. Fe glywais fod enw da rhyngwladol y Coleg wedi ennill contractau cynghori iddo yn Siberia, Singapore, a Beijing. Gartref, mae'r Coleg wedi llwyddo i ddenu sawl athro nodedig i Gymru, gan gryfhau gallu creadigol y wlad yn gyffredinol. Erbyn hyn, mae'r Coleg yn gallu gofyn i berfformwyr nodedig a chyn fyfyrwyr byd-enwog gyfrannu at ei waith, gan gynnwys Michael Sheen, Shirley Bassey, a Carlo Rizzi. Yn yr un modd, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio staff a myfyrwyr y Coleg i gynrychioli diwylliant Cymru mewn sawl cenhadaeth dramor i lefydd fel Tsiena, India ac UDA, ac mewn digwyddiadau swyddogol yn nes at adref.

## Mynediad i'r celfyddydau

Roedd tua 12.6% o fyfyrwyr addysg uwch sy'n huanu o Gymru a ymrestrwyd yn y Coleg yn 2015/16 yn dod o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Coleg wedi ymrwmo i ehangu mynediad cymdeithasol i'r celfyddydau, ac mae'n cydnabod bod y ganran uchod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer SAU yng Nghymru. Ond nid yw'r ganran yn isel o'i gymharu â chyrhaeddiad mewn conservatoires eraill,<sup>12</sup> a gan fod addasrwydd ar gyfer hyfforddiant conservatoire, yn enwedig mewn cerddoriaeth offerynnol, yn cael ei bennu gan gyrhaeddiad cyn mynediad yn bennaf, sy'n dibynnu ar hyfforddiant dwys o oedran cynnar, mae prif waith y Coleg o safbwynt ehangu mynediad yn canolbwyntio ar ei raglenni iau a'i waith allgymorth. Mae dangosyddion cymdeithasol y gwaith hwn yn drawiadol. Mae tua 65% o gerddorion ifanc sy'n mynychu'r Conservatoire lau yn gymwys ar gyfer bwsariaeth ar sail prawf modd, ac mae'r un peth yn wir am 92% o'r rhai sy'n mynychu'r Stiwdio Actorion Ifanc. Mae 28% o'r rhai sy'n mynychu'r Conservatoire lau (7 i 18 oed) yn dod o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, ac mae canran y grwpiau hyn yn uchel iawn (46%) ymysg myfyrwyr Cerdd ifanc iawn (4 i 8 oed).

## Rôl genedlaethol ehangach

Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Adolygiad yn cefnogi pwysigrwydd rôl genedlaethol ehangach y Coleg yn gryf. Mae hyn yn adlewyrchu sefyllfa'r Coleg fel sefydliad cenedlaethol, ei rôl fel angwr yn y system ddiwylliannol, a nifer y canlyniadau budd cyhoeddus sy'n cael eu sicrhau i Gymru gan y Coleg. Gellir crynhoi'r olaf fel hyn:

<sup>12</sup> Mae'n anodd dod o hyd i gymariaethau manwl. Yn ôl Trinity Laban (2009/10), roedd recriwtio o gymdogaethau cod post isel 34% yn is na feincnod HESA mewn grŵp cymharydd yng Nghymru a Lloegr.

- gwarchod diwylliant Cymraeg a hyrwyddo arferion creadigol trwy gyfrwng y Gymraeg;
- creu dyhead ac ennyn diddordeb pobl ifanc Cymru mewn perfformio ym maes y celfyddydau;
- arwain y gwaith o droi llwybrau proffesiynol yn gyflogaeth greadigol;
- ehangu ymgysylltiad cymdeithasol â phrofiadau celfyddydol, a datblygu diddordeb cymunedol;
- cefnogi a chyflwyno mentrau polisi cyhoeddus ym meysydd addysg a datblygiad cymdeithasol, ac yn yr economi;
- galluogi twf rhyngwladol mewn buddsoddiad a chyflogaeth mewn sector economaidd â blaenoriaeth;
- ehangu'r diddordeb rhyngwladol yng Nghymru fel lle rhagorol ar gyfer cerddoriaeth a'r diwydiannau creadigol a diwylliannol.

### iii. LLINELLAU DATBLYGIAD

#### Llinellau datblygiad

Mae'r Adolygiad yn nodi'r dadleuon o blaid y Coleg yn gwneud hyd yn oed mwy o'r math hwn o waith, a'r angen i sicrhau bod effaith y gwaith yn fwy amlwg yn y Canolbarth a'r Gogledd yn benodol. Awgrymwyd nifer o linellau datblygu gwaith y Coleg ym meysydd hyfforddiant, teithio a chymorth. Mae angen archwilio'r posibilïadau canlynol ymhellach:

- ymestyn hyfforddiant dwys cyn 18 oed i ganolfannau cysylltiedig yn y Canolbarth a'r Gogledd er mwyn sicrhau bod darpariaeth ar gael ledled Cymru gyfan;
- ymrwymo i bartneriaeth ddatblygu hirdymor â Chelfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru (CCIC), sy'n rheoli'r rhan fwyaf o ensembles ieuencid Cymru; byddai hyn yn atgyfnerthu cysylltiadau a thrafodaethau presennol ac yn fuddiol i fil neu fwy o artistiaid ifanc oed ysgol;
- datblygu gwaith hyfforddiant mewn swydd y Coleg ar hyn o bryd gyda'r gwasanaethau cerdd, a gallu'r Coleg i ddarparu cyfleoedd i greu cerddoriaeth o ansawdd uchel ar gyfer pobl ifanc o bob gallu, a darparu cymorth cenedlaethol i fynd i'r afael â'r problemau cymhleth a difrifol sy'n wynebu'r ddarpariaeth bwysig hon;
- ymestyn gweithgareddau teithio'r Coleg yng Nghymru, gan gynnwys gwireddu'r uchelgais i greu cwmni artistiaid ifanc ar y cyd ag Opera Cenedlaethol Cymru; ac archwilio'r posibilrwydd o greu cwmni cyfatebol i raddedigion ym maes theatr gyda rôl deithio.

#### Cynllun ehangu cyn 18 oed

Mae gan y Coleg gynllun i weithio gyda phartneriaid dynodedig er mwyn ehangu'r hyfforddiant cyn 18 oed a nodwyd uchod. Mae sefydliad preifat wedi cytuno i dalu'r costau sefydlu ar gyfer tair blynedd gyntaf y cynllun uchelgeisiol hwn. Mae cymorth gan y Llywodraeth ar gyfer gwaith o'r fath eisoes ar gael yn Lloegr a'r Alban. Mae'r RCS yn derbyn grant a glustnodir gan SHEFC ar gyfer cyflawni ei rôl ar gyfer myfyrwyr cyn 18 oed ledled yr Alban. Yn Lloegr, mae'r Adran Addysg yn cyllido'r Cynllun Cerddoriaeth a Dawns sy'n darparu bwrsariaethau ar sail prawf modd mewn canolfannau penodedig. Mae'r rhain yn cynnwys wyth ysgol breswyl ar gyfer cerddoriaeth a dawns, a 21 canolfan ar gyfer hyfforddiant lefel uwch, sef 12 ym maes cerddoriaeth a naw ym maes dawns, gan gynnwys darpariaeth syrcais, yn ogystal â chynllun ysgoloriaeth ysgol gôr lwyddiannus.

#### Esiampl yr Alban

Dylai'r dystiolaeth o effaith gadarnhaol y cynlluniau ar gyflawniad ym meysydd cerddoriaeth, dawns a syrcais yn Lloegr a'r Alban annog Llywodraeth Cymru i gefnogi darpariaeth debyg yng Nghymru. Gall fod yn ddoethach i Gymru ddilyn esiampl yr Alban a throsglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Coleg fel y conservatoire cenedlaethol, yn hytrach na sefydlu rhaglen sy'n cael ei gweinyddu gan y llywodraeth.

#### Yr angen am sicrwydd

Fel y nododd y Coleg yn briodol, nid yw ariannu'r gweithgareddau hyn yn un o gyfrifoldebau craidd CCAUC fel y'i diffinnir ar hyn o bryd. Mae'r arian ar gyfer y gwaith hwn yn cael ei godi gan y Coleg ei hun ar hyn o bryd trwy ffynonellau fel ymddiriedolaethau a sefydliadau, rhoddion gan gorfforaethau ac unigolion, ac incwm o weithgareddau'r Coleg. Yn llai aml, mae'n derbyn rhai grantiau penodol gan y llywodraeth ac asiantaethau cyhoeddus. Mae'r Coleg yn gallu codi arian o'r fath yn effeithiol, ond er mwyn datblygu rôl genedlaethol y Coleg yn llawn, yn unol â'r cynnig sy'n cael ei wneud yma, bydd angen sylfaen ariannol gadarn ar gyfer ei rôl graidd, sef darparu addysg a hyfforddiant conservatoire ar lefel uwch. Mae'r sylfaen gadarn hon yn hanfodol ar gyfer cynnal a datblygu'r rôl ehangach.

### 3. CYLLIDO

#### i. CYD-DESTUN

##### Newid polisi

Ers 2012/13, mae'r system cyllido addysg uwch yng Nghymru wedi newid yn sylweddol. Yn dilyn adroddiad 2010 gan yr Arglwydd Browne o Madingley,<sup>13</sup> cyflwynodd Llywodraeth y DU ffioedd dysgu uwch ar gyfer sefydliadau addysg uwch yn Lloegr gyda chymorth benthyciadau ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n huanu o Loegr. Mewn ymateb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar y pryd y byddai SAU yng Nghymru yn gallu codi ffioedd dysgu uwch yn yr un modd o 2012/13 ymlaen. Fodd bynnag, yn unol â'i hymrwymiad i amddiffyn myfyrwyr o Gymru yn erbyn lefelau dyled uwch, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddarparu grant ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr o Gymru er mwyn ceisio sicrhau na fyddai angen iddynt fenthgy mwy o arian, mewn termau real, i dalu am eu ffioedd dysgu nag o dan yr hen system ariannu. Roedd yr arian i dalu am y grant ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr o Gymru yn dod o gyllideb CCAUC. O ganlyniad, er bod yr incwm i SAU yng Nghymru yn gyffredinol wedi cynyddu o ganlyniad i'r ffioedd uwch, mae lefel y cyllid sydd ar gael i CCAUC i'w ddyrannu i brifysgolion yng Nghymru wedi lleihau dros amser.

##### Adolygiad Diamond

Yn sgil y cynllun i gyflwyno argymhellion mwy diweddar Adolygiad Diamond yng Nghymru o 2018/19 ymlaen, disgwylir y bydd lefelau cyllid uwch ar gael i CCAUC yn y dyfodol agos. Mae argymhellion yr adolygiad hwn yn cyd-fynd â'r cyd-destun hwnnw ac yn ystyried ymrwymiad a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno argymhellion Diamond.

#### ii. TREFNIADAU ARBENNIG

##### Problem

Mae llywodraethau yn y DU a ledled Ewrop wedi cydnabod natur cost uchel hyfforddiant conservatoire ers tro, ynghyd â'r cyfrifoldeb i adlewyrchu hyn mewn trefniadau cyllido arbennig. Mae natur unigryw hyfforddiant conservatoire yn gyfrifol am y costau hyn, sy'n gorfod bod yn uwch na ffioedd presennol israddedigion. Mae'r Adolygiad yn pryderu'n fawr nad yw trefniadau ariannol y Cyngor Cyllido Addysg Uwch ar gyfer cefnogi darpariaeth hyfforddiant conservatoire'r Coleg yn llwyddo i ddarparu'r adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r math o hyfforddiant conservatoire sydd ar gael yn y Coleg, sy'n codi amheuan am ddyfodol y ddarpariaeth yng Nghymru.

##### Cost uchel

Mae cost uchel hyfforddiant conservatoire yn deillio o dair prif nodwedd y ddarpariaeth:

- hyfforddiant dwys gan artistiaid gweithredol: ym maes drama mae hyn yn ymwneud â datblygu sgiliau mewn dosbarthiadau, ac mewn cwmnïau mae'n ymwneud ag ymarfer a pherfformio mewn theatrau am wythnosau; ym maes cerddoriaeth, mae angen gwersi offerynnol rheolaidd ac unigol, dosbarthiadau mewn hanes, cyd-destun a disgyblaethau arbenigol, hyfforddiant clywedol, a hyfforddiant ensemble sylweddol;
- perfformiad cyhoeddus helaeth ar blatfformau proffesiynol: elfennau eraill yr hyfforddiant yw ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol, cyfarwyddwyr ac aseswyr gwadd, a hyfforddiant llawn yn y sgiliau sydd eu hangen i gynnal bywyd gwaith artist; hefyd, mae angen staff cymorth arbenigol a gweithdai cynhyrchu, yn ogystal â chyllidebau cynhyrchu/perfformio sylweddol;
- defnyddio safleoedd sy'n cyrraedd safonau'r diwydiant: mae angen theatrau, neuaddau cyngerdd, a'r cyfarpar diweddaraf, sy'n gofyn am lefelau uchel o waith cynnal a chadw ac adnewyddu technegol; mae'r maes cerdd yn gwneud defnydd helaeth o ystafelloedd ymarfer preifat a phianos o ansawdd uchel; mae angen ystafelloedd ymarfer, stiwdios, gweithdai a storffeydd ym maes drama.

Er bod y costau sy'n gysylltiedig â disgyblaethau conservatoire fel cerddoriaeth, drama a dawns yn wahanol, mae'r patrymau gwariant yn tueddu i fod yn gymharol debyg waeth beth yw cyd-destun neu leoliad y ddarpariaeth.

##### Rhwystrau

---

<sup>13</sup> *Securing a sustainable future for higher education: an independent review of higher education funding and student finance*, Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2010).



Hefyd, mae'n bwysig deall bod llawer o elfennau'r hyfforddiant ar ffurf "dalpiog". Mae hyn yn gosod cyfyngiadau mawr ar yr addasiadau y gellir eu gwneud i hyfforddiant conservatoire. Er enghraifft, mae gwersi un i un yn angenrheidiol, ac mae uned y cwmni ym maes actio, sy'n cynnwys niferoedd manwl iawn, a'r timau cysylltiedig ym maes theatr dechnegol, yn cael eu gwanhau'n sylweddol gan fyfyrwyr ychwanegol neu unrhyw leoedd gwag. Yn ogystal, mae llawer o'r hyfforddiant wedi'i gydgyssylltu. Er enghraifft, ni all hyfforddiant ensemble mewn cerddorfeidd symffoni lwyddo heb hyfforddiant y sefydliad mewn disgyblaethau offerynnol symffonig unigol, e.e. baswnau a fiolas.

"Premiwm pwnc drud"

Yn 2001/02, sefydlodd CCAUC system gyllido wedi'i threfnu'n glir i geisio cefnogi'r Coleg.<sup>14</sup> Roedd y system yn defnyddio "premiwm pwnc drud", a ddyrannwyd ar sail y pen i nifer wedi'i reoli o fyfyrwyr Cartref/UE. Er mwyn bod yn sefydliad ag enw da rhyngwladol, sylweddolodd CCAUC fod angen i gyllid premiwm pwnc drud y Coleg ei alluogi i gystadlu â conservatoires eraill yn y DU. Fe aeth CCAUC ati i gomisiynu astudiaeth feincnodi gan SQW yn ymwneud â'r sefyllfa yng ngweddill y DU.<sup>15</sup> O ganlyniad, pennwyd lefel y cyllid premiwm yn uwch na'r lefel yng ngweddill y DU (gweler Pennod 7 am ragor o fanylion), gan lwyddo yn ymarferol i gynorthwyo datblygiad cryf y Coleg maes o law.

### iii NEWID TREFNIADAU CYLLIDO

#### Trawsnewid trefniadau cyllido

Mae sefyllfa ariannol bresennol y Coleg yn deillio o'r newid i'r polisi ffioedd uchel ym maes cyllido addysgu addysg uwch ar gyfer israddedigion, a ddechreuodd yn 2012/13. Fel yn Lloegr, bwriad y newid oedd sicrhau cynnydd net yn yr adnodd ar gyfer addysgu israddedigion trwy sicrhau bod yr enillion o'r ffioedd uchel newydd yn fwy na'r arbedion mewn gwariant cyhoeddus yn sgil lleihau grantiau addysgu. Yn wreiddiol, cynyddodd y broses drawsnewid hon incwm addysgu'r Coleg, gyda chynnydd sylweddol mewn ffioedd yn rhagflaenu'r toriadau mewn grantiau. Ond erbyn diwedd y cyfnod trawsnewid yn 2016/17, roedd adnodd addysgu'r Coleg ar gyfer myfyrwyr Cartref/UE, fel y'i pennwyd gan CCAUC, yn is o lawer nag yn 2011/12.

#### "Adnodd addysgu"

Er mwyn deall natur a graddfa'r newidiadau a wnaed i gyllid y Coleg ar gyfer addysgu AU, edrychodd yr Adolygiad ar esblygiad "adnodd addysgu" y Coleg rhwng 2011/12 a 2016/17. Mae'r "adnodd addysgu" yn cynnwys yr incwm o ffioedd cyrsiau a grantiau addysgu gan greu un ffigwr ar sail canlyniadau'r newidiadau ym mhob un o'r ddwy elfen. Roedd y dadansoddiad yn canolbwyntio ar yr adnodd addysgu ar gyfer myfyrwyr Cartref/UE ac yn diystyru ffioedd o fyfyrwyr tramor. Nid yw ffioedd o fyfyrwyr tramor yn berthnasol i'r agwedd hon ar yr Adolygiad, gan fod grantiau Cartref/UE wedi'u bwriadu i helpu myfyrwyr Cartref/UE, ac ni ddylent gael eu defnyddio i roi cymhorthdal i fyfyrwyr tramor. O ganlyniad, pennir y ffioedd ar gyfer myfyrwyr tramor gan y Coleg ar gyfradd sydd o leiaf yn hafal i gost gyfartalog lawn yr addysgu. Yn yr un modd, byddai'n mynd yn groes i egwyddor sydd wedi'i hen sefydlu pe dadleuid yn y cyd-destun hwn y dylid defnyddio llwyddiant y Coleg yn cynyddu incwm o fyfyrwyr tramor fel esgus i dorri elfen grant yr adnodd addysgu Cartref/UE craidd.

#### Grantiau

Prif elfen y grant yw'r premiwm pwnc drud. Dyrennir y grant hwn ar sail y pen i gwota penodedig o fyfyrwyr Coleg. Defnyddiwyd cwota'r premiwm ar gyfer tua 495 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn yn ystod y cyfnod trawsnewid, ond roedd y ffigwr hwn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn [Tabl 13]. Roedd yn cynnwys myfyrwyr israddedig a myfyrwyr ôl-radd yn wreiddiol, ond yn 2016/17 cyfyngwyd y cwota i fyfyrwyr israddedig yn unig. O ganlyniad, cafodd y cwota ar gyfer y flwyddyn honno ei leihau i tua 477 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn.

#### Ffioedd

<sup>14</sup> Roedd y system hon wedi disodli trefniadau blaenorol i ddarparu adnodd ychwanegol i'r Coleg. Mae dadansoddiad o gymarebau staff-myfyrwyr yng Nghymru yn ystod y 1980au yn dangos mai cymhareb y Coleg o un aelod staff i 7.4 myfyrwr oedd y mwyaf poblogaidd ymysg y prif sefydliadau addysg uwch, tra bod cyfartaledd y sector ddwywaith yn fwy (14.2) (diolch i H Morris am y cyfeiriad hwn).

<sup>15</sup> Yn sgil astudiaeth SQW, roedd CCAUC yn gallu manteisio ar y ffaith fod Lloegr yn benodol eisoes wedi meddwl yn ofalus am sefyllfa sefydliadau arbenigol yn y system addysg uwch, a'r angen i ganfod modd o ariannu darpariaeth cost uchel yn y meysydd creadigol. Wrth reswm, roedd hyn yn deillio o draddodiad hir (gan ddechrau yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg) o'r llywodraeth ganolog yn cyllido sefydliadau o'r fath. Roedd hyn yn cynnwys yr Academi Frenhinol, ac yna'r Coleg Celf Brenhinol, y Coleg Cerdd Brenhinol, a Choleg y Drindod. Hefyd, tua dechrau'r ganrif hon, fe aeth HEFCE a Llywodraeth Lloegr ati i gynnwys yr Royal Academy of Dramatic Art a'r London Contemporary Dance School a'r colegau cysylltiedig a sefydlodd y the Conservatoire for Dance and Drama (CDD) yn y system addysg uwch. Cyn hynny, roeddent yn ysgolion annibynnol yn y sector preifat. Datblygodd y CDD yn wyth sefydliad cysylltiedig maes o law, saith yn y sector preifat ac un yn SAU sefydledig.

Cyflwynwyd y ffi uchel newydd o £9,000 ar gyfer israddedigion yn raddol dros bedair blynedd o 2012/13 ymlaen. Cafwyd gostyngiad ym Mhremiwm Pwnc Drud y Coleg fesul myfyriwr i wrthbwyso hyn, sef o £10,130 i £9,000 yn 2012/13, ac yna ostyngiad pellach i £6,000 yn 2014/15 a £3,600 yn 2015/16 [Tabl 12]. Hefyd, cafodd grantiau addysgu cyffredinol eraill CCAUC a rhywfaint o arian a dalwyd i'r Coleg gan Brifysgol De Cymru eu dileu'n raddol erbyn 2015/16, ac eithrio taliad y pen gweddilliol o £3,000 a oedd yn cael ei wneud o hyd yn 2016/17 [Tabl 16].

### Pwysau ar y gyllideb

Fel y nodwyd uchod, fel rhan o'r trawsnewid, penderfynodd Llywodraeth Cymru (yn wahanol i Loegr) gyflwyno grant ffioedd dysgu newydd er mwyn amddiffyn myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn erbyn effaith y cynnydd sylweddol yn y ffioedd. Talwyd am y grant ffioedd dysgu trwy frigdorri cyllidebau CCAUC yn effeithiol. O ganlyniad, roedd llai o gyllid ar gael ar gyfer blaenoriaethau eraill, gan gynnwys ariannu pynciau cost uchel, a bu'n rhaid i CCAUC wynebu problem nad oedd yn gyfrifol am ei chreu (gweler Pennod 7).

### Esblygiad adnodd

Swm "adnodd addysgu" AU y Coleg ar gyfer myfyrwyr cartref/UE oedd £8,029,000 yn 2011/12, ac roedd gwerth y ffioedd yn £2,368,000 a gwerth y grantiau'n £5,661,000 [Tabl 17]. Ar ôl cyflwyno'r ffi yn raddol i israddedigion o dan y system newydd<sup>16</sup>, cynyddodd incwm y ffi i £5,754,000 erbyn 2016/17, cynnydd o £3,386,000. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod, torrwyd y grantiau tua £4,016,000 i £1,645,000. O ganlyniad, roedd cyfanswm yr adnodd addysgu ar gyfer myfyrwyr Cartref/UE wedi gostwng i £7,399,000 yn 2016/17, sy'n £630,000 yn llai na'r ffigwr yn 2011/12 ac yn doriad o 7.8%.

### Myfyrwyr ffioedd yn unig

Gan fod cwota Premiwm Pwnc Drud y Coleg yn llai na'r màs critigol o fyfyrwyr sydd ei angen i gyflwyno ei raglen hyfforddiant yn llawn, yn enwedig gofynion hyfforddiant ensemble graddfa symffonig ym maes cerddoriaeth, mae'n arfer cyffredin recriwtio myfyrwyr ffioedd yn unig ychwanegol i sicrhau'r màs critigol o fyfyrwyr sydd ei angen [Tabl 14]. Mae CCAUC yn cydnabod yr arfer hwn sy'n ychwanegu tua 70-80 o fyfyrwyr israddedig ac ôl-radd ychwanegol i gwota premiwm tua 495 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn. O ganlyniad, mae cyfanswm grant y Premiwm Pwnc Drud yn cefnogi'r ddarpariaeth conservatoire ar gyfer yr holl fyfyrwyr cartref/UE. Yn unol â hynny, wrth gyfrifo'r 'uned adnodd', y ffigwr priodol i'w ddefnyddio yw cyfanswm y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn cartref/UE, yn hytrach na'r cwota premiwm.

### "Uned adnodd"

Cyfrifir yr "uned adnodd" trwy rannu'r "adnodd addysgu" â nifer y myfyrwyr yn y grŵp perthnasol o dan ystyriaeth. Dyma'r metrig gorau ar gyfer gwneud cymariaethau mewn sefyllfaoedd lle mae nifer y myfyrwyr yn amrywio, naill ai ar adeg benodol neu ymysg sefydliadau. "Uned adnodd" y Coleg fesul myfyriwr Cartref/UE yn 2011/12 oedd £13,963. Erbyn 2016/17, ar ddiwedd y trawsnewid, roedd wedi gostwng 16.1% i £11,721 [Tabl 17]. Gwelir bod y gostyngiad hwn yn yr "uned adnodd" ar gyfer myfyrwyr Cartref/UE yn fwy na'r gostyngiad o 10.2% yn y "cyfanswm adnoddau" [Tabl 18]. Un rheswm am hyn yw'r ffaith fod y Coleg wedi ymateb i sefyllfa ariannol a oedd yn gwaethygu trwy recriwtio nifer ychwanegol o fyfyrwyr Cartref/UE ffioedd yn unig ar raglenni cost is yn 2016/17, gan wanhau'r "uned adnodd" ymhellach.

### Hwb cychwynnol

Yn ei dystiolaeth i'r Adolygiad, roedd CCAUC yn gywir i honni ei fod wedi llwyddo i gynnal yr "uned adnodd" ar gyfer y Coleg hyd at 2014/15. Yn wir, trwy ohirio'r ail doriad i'r Premiwm Pwnc Drud am flwyddyn o 2013/14 i 2014/15, llwyddodd CCAUC i greu blwyddyn twf eithriadol yn yr adnodd addysgu Cartref/UE ar gyfer y Coleg yn 2013/14 [Tabl 17], ac am un flwyddyn cododd yr "uned adnodd addysgu" yn uwch o lawer na lefel 2011/12 i £16,133.

### 2014/15 i 2016/17

Ers hynny, mae'r "uned adnodd" wedi lleihau bob blwyddyn. Yn 2014/15, adeg yr ail doriad i'r Premiwm Pwnc Drud, fe syrthiodd i £14,255, yn debyg i'r lefel yn 2011/12. Yn 2015/16, adeg y trydydd toriad i'r Premiwm Pwnc Drud, darparodd CCAUC "gyllid lliniaru". O ganlyniad, roedd y gostyngiad yn fwy cymedrol ac arhosodd yr "uned adnodd" fesul myfyriwr Cartref/UE yn £13,575. Roedd y mesur "cyllid lliniaru" ar gyfer blwyddyn yn unig. Nid oedd y cyllid hwn ar gael yn 2016/17, ac o ganlyniad fe wynebodd y Coleg doriad mawr yn ei "uned adnodd" Cartref/UE i £11,721. Roedd y gostyngiad yn 13.7% ar gyfer blwyddyn 2011/12 ac yn 16.1% yn gyffredinol.

<sup>16</sup> A rhywfaint o gynnydd mewn niferoedd Cartref/UE.

## Diffyg cynaliadwyedd

Roedd gostyngiad ar y raddfa hon yn gwbl anghymesur â'r gostyngiad yng ngweddill y sector addysg uwch yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth feddygol a deintyddiaeth, sy'n rhan o'r system Premiwm Pwnc Drud hefyd, a wynebodd ostyngiad o 24% rhwng 2013/14 a 2015/16, o'i gymharu â gostyngiad y Coleg o 60%. Yn sgil y toriad i Bremiwm Pwnc Drud y Coleg, codwyd amheuron ynglŷn â chynaliadwyedd darpariaeth conservatoire yng Nghymru.

## iv. DATBLYGIADAU YN LLOEGR

### Cynnydd mewn adnoddau yn Lloegr

Yn ogystal â'r gostyngiad yn "uned adnodd" y Coleg, mae'r cyd-destun cystadleuol ehangach sy'n sylfaen i'w weithgarwch wedi newid hefyd, mewn ffordd gymharol anfantaisiol. Yn benodol, mae adnodd sefydliadau yn Lloegr sy'n cystadlu â'r Coleg wedi cryfhau. Mae dau ffactor yn gyfrifol am hyn. Yn gyntaf, llwyddodd y newid i'r polisi ffioedd uchel yn Lloegr gynyddu incwm addysgu'r sefydliadau arbenigol gan fod yr hyn a enillwyd o'r ffi uwch yn fwy na'r golled yn sgil torri'r grant. Yn ail, yn dilyn adolygiad HEFCE o'r system cyllido sefydliadau arbenigol, derbyniodd conservatoires yn Lloegr fwy o gyllid yn 2016/17.

### Adolygiad

Roedd y cynnydd mewn grantiau yn Lloegr yn dilyn asesiad manwl o gymhwysedd sefydliadau arbenigol i dderbyn cyllid. Roedd y meini prawf ar gyfer cyllid yn cynnwys "enw da am ddarpariaeth addysgu gyda'r gorau yn y byd". Collodd nifer o sefydliadau eu cyllid, ond ni ddigwyddodd hynny i unrhyw un o'r conservatoires annibynnol.<sup>17</sup> Hefyd, cyflwynwyd methodoleg newydd ar gyfer cyllid premiwm yn sgil yr Adolygiad. Mae hyn yn seiliedig ar ddyrannu grant premiwm (£8,000) ar sail fformiwla sy'n cael ei dalu i gwota o ddim mwy na 500 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn ym mhob sefydliad cymwys. Mae'r grant premiwm ar gael yn gyfartal i fyfyrwyr israddedig ac ôl-radd. Mae'n disodli'r dyraniad "sefydliad benodol" blaenorol, a oedd yn ymwneud â lefelau hanesyddol o niferoedd wedi'u rheoli o ran maint, ond nad oedd yn cynnwys elfen cwota myfyrwyr bellach. Yn ogystal, mae'r dyraniadau pynciau cost uchel sy'n cael eu talu i'r holl fyfyrwyr israddedig (£250) ac ôl-radd (£1,100) yng ngrŵp pris pwnc C1, sy'n cynnwys "celfyddydau a dylunio creadigol", yn parhau fel o'r blaen [Tabl 20]. Mae'r cwota yn golygu mai'r grant premiwm mwyaf y gellir ei ddyfarnu i sefydliad unigol yw £4 miliwn.<sup>18</sup>

### Myfyrwyr ffioedd yn unig

Fel sy'n wir am y Coleg, erbyn hyn mae conservatoires yn Lloegr yn recriwtio myfyrwyr cartref/UE ychwanegol un uwch na chyfanswm cwota'r premiwm ar sail ffioedd yn unig. Mae 694 o fyfyrwyr Cartref/UE ar gyfartaledd mewn conservatoires yn Lloegr, o'i gymharu ag uchafswm cwota'r premiwm o 500 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn. Mewn rhai agweddau, nodir nad yw'r fethodoleg ariannu newydd yn Lloegr yn annhebyg i fethodoleg CCAUC, er bod cyfraddau'r premiwm yn wahanol iawn (£8,000 yn Lloegr a £3,442 yng Nghymru).

### Uned adnodd Lloegr

Mewn tystiolaeth ategol i'r Adolygiad, cyflwynodd CCAUC amcangyfrif o adnoddau addysgu conservatoires yn Lloegr yn 2016/17. Mae hyn yn seiliedig ar ddata a gyflwynwyd gan HEFCE. Fel y trafodwyd uchod, nid yw'r cyfrifiad yn cynnwys myfyrwyr tramor a'u ffioedd, ac mae'n canolbwyntio ar fyfyrwyr Cartref/UE y darperir y grantiau addysgu ar eu cyfer. Yr uned adnodd yw £15,467 fesul myfyriwr. Mae hyn yn cyfuno'r grant premiwm, y dyraniadau cost uchel, a'r incwm ffioedd. Dylid nodi bod cyfrifo'r "uned adnodd" yn cynnwys amcangyfrif o £9,000 ar gyfer ffioedd ôl-raddedigion, sy'n debyg i'r ffi ar gyfer israddedigion. Mae'r rhagdybiaeth hon yn dderbyniol, ond mae'n debyg ei bod yn tanbriso'r incwm o ffioedd ôl-raddedigion i ryw raddau, ac felly hefyd yr "uned adnodd" gyffredinol mewn conservatoires yn Lloegr.

## Diffyg

<sup>17</sup> Hefyd, derbyniwyd sawl newydd-ddyfodiad i'r rhestr o sefydliadau arbenigol a ariennir, gan gynnwys y National Film and Television School a'r Guildhall School of Music and Drama. Roedd cyllid premiwm y Guildhall wedi'i ddarparu gan Ddinas Llundain cyn hynny. Yn dilyn yr Adolygiad, aethpwyd ati i sicrhau bod dyraniad cyllid sefydliad benodol y Royal Central School of Speech and Drama yr un fath â dyraniad yr ysgolion eraill yn y system.

<sup>18</sup> Mae modd addasu'r ffigwr hwn mewn rhai achosion a'i leihau ar sail cyfradd sy'n gysylltiedig â chyfanswm incwm cyfartalog y sefydliad.

Gyda'i gilydd, llwyddodd y ddau ddatblygiad yn Lloegr i gynyddu'r "uned adnodd" ar gyfer myfyrwyr Cartref/UE tua 8% i £15,467rhwyng 2011/12 a 2016/17. Mae hyn yn wahanol iawn i'r gostyngiad o 16.1% i £11,721 yn yr "uned adnodd" ar gyfer myfyrwyr Cartref/UE dros yr un cyfnod. O ganlyniad, cynyddodd diffyg "uned adnodd" y Coleg i £3,736 fesul myfyriwr Cartref/UE, sef gwahaniaeth o 24% o'i gymharu â sefyllfa conservatoires yn Lloegr.

Adnodd addysgu fesul myfyriwr Cartref/UE yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a chymaryddion conservatoire yn Lloegr<sup>a</sup>

	11/12	16/17	% newid 11/12-16/17
	£mil fesul myfyriwr cartref/UE cyfwerth ag amser llawn		
Conservatoires Lloegr	14,198 <sup>d</sup>	15,467	+8.2
RWCMD	13,963	11,721	-16.1
Gwahaniaeth	-235	-3,746	
% y gwahaniaeth	-1.7	-24.2	

Ffynhonnell: Ffigurau conservatoires Lloegr ar gyfer 2016/17 gan CCAUC ar sail data HEFCE, a'r ffigurau ar gyfer 2011/12 wedi'u hamcangyfrif ar sail cyfrifon rheoli; ffigurau RWCMD o gyfrifon rheoli.

<sup>a</sup> RAM, RCM, TL, RNCM, RCSSD, CDD, a GSMD.

<sup>b</sup> Ddim yn cynnwys RCSSD a GSMD.

iv. CYLLID Y COLEG

Diffyg cyntaf

Mae'n bwysig deall effaith yr adnodd addysgu llai ar gyllid y Coleg [gweler y tabl isod]. Mor ddiweddar â 2013/14 (oherwydd y cynnydd mewn incwm y flwyddyn honno) llwyddodd y Coleg i fuddsoddi mewn tâl addysgu a mathau eraill o dâl, gan sicrhau bod arian sylweddol dros ben. Cafwyd canlyniad cryf tebyg y flwyddyn ganlynol. Ond yn 2015/16 roedd y bygythiad i hyfywedd y Coleg fel darparwr hyfforddiant conservatoire eisoes i'w weld yn y diffyg sylfaenol o £645,000 a ragwelwyd ar gyfer y flwyddyn honno. Gwnaed yn iawn am hyn yn rhannol gan y "cyllid lliniaru" o £466,000 a oedd ar gael yn 2015/16, gan adael diffyg gweithredol o tua £179,000. Yn y pen draw, roedd modd llenwi'r bwch yn y diffyg gweithredol ar yr achlysur hwn trwy ddefnyddio cyllid preifat brys o gymynrodd.

Incwm a gwariant RWCMD

	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17 <sup>a</sup>
	£000					
<b>Incwm:</b>						
Grant a ffioedd SAU:						
Cartref/UE	8,029	7,752	9,083	8,154	7,955 <sup>b</sup>	7,396
Arall	663	907	1,037	1,172	1,431	1,716
Cyfanswm	8,692	8,659	10,120	9,326	9,386	9,112
Gweithgarwch arall	1,857	1,962	1,539	1,598	1,774	1,766
Incwm preifat	-	150	145	623	928 <sup>b</sup>	1,002
Rhyddhau grant	551	476	392	384	209	169
Cyfanswm	11,100	11,246	12,196	11,921	12,297 <sup>b</sup>	12,049
<b>Gwariant:</b>						
Staff addysgu	3,632	3,571	3,914	3,939	4,194	4,366
Staff eraill	2,585	2,685	2,877	3,084	3,236	3,401
Materion eraill heblaw staff	3,093	3,254	3,379	3,200	3,398	3,835
Llog a dibrisio	1,550	1,509	1,542	1,501	1,147	1,307
Cyfanswm	10,861	11,019	11,712	11,722	11,975	12,909
Gwarged/diffyg	+240	+228	+484	+199	+322 <sup>c</sup>	-860
<b>Myfyrwyr AU cyfwerth ag amser llawn</b>						
	622	614	627	641	665	717

Ffynhonnell: cyfrifon rheoli 12 mis RWCMD.

- <sup>a</sup> Rhagolwg o alldro ar 30 Tachwedd 2016.
- <sup>b</sup> Yn cynnwys cyllid lliniaru £466,000.
- <sup>c</sup> Yn cynnwys cyllid preifat brys £500,000.

## 2016/17

Mae'r gostyngiad sylweddol mewn incwm addysgu ar gyfer 2016/17 yn her i'r Coleg. Wrth ddisgwyl am ganlyniad yr Adolygiad hwn, mae wedi dewis parhau i ddarparu hyfforddiant conservatoire yn llawn, er gwaetha'r ffaith nad yw lefel y grant sydd ar gael yn ddigon i gynnal y gwaith. O ganlyniad, ym mis Tachwedd 2016 roedd y Coleg yn rhagweld y byddai'n wynebu diffyg o £860,000 ar gyfer y flwyddyn, fel y dangosir yn y tabl uchod.<sup>19</sup>

Er bod hon yn sefyllfa ddifrifol, nodir bod gwaith y Coleg yn y tymor byr wedi'i gynorthwyo gan arian wrth gefn gwerth £5.2 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Fodd bynnag, byddai'n wrthgynhyrchol i'r Coleg weithredu yn yr un modd ag yn 2015/16 a defnyddio cyllid preifat o'i adnoddau ei hun i wneud iawn am y diffyg yn 2016/17 yn sgil diffyg ariannu. Yn ogystal, byddai diffyg tebyg yn 2017/18 yn golygu bod y Coleg yn gweithredu'n groes i delerau ei fenthyciad masnachol ac yn lleihau'r arian wrth gefn i lefel sy'n is na'r hyn sydd ei angen i ad-dalu'r benthyciad di-log gan y Llywodraeth/CCAUC (gweler Adran v isod).

## Cyfngiadau

Mae'n amlwg na fyddai'r Coleg yn gallu dod o hyd i ateb perthnasol i ddiffyg ar y raddfa hon trwy ddefnyddio'r adnoddau cyfyngedig hyn. Adolygwyd y posibilïadau amrywiol. Nid oes modd defnyddio llwyddiant y Coleg wrth godi cyllid preifat ar gyfer cymorth refeniw craidd. Mae angen y cyllid ym meysydd eraill, ar gyfer ysgoloriaethau myfyrwyr a buddsoddi mewn rhaglenni cyn 18 oed yn bennaf, yn ogystal ag ar gyfer agweddau ategol eraill ar addysgu. Fodd bynnag, byddai recriwtio myfyrwyr ychwanegol ond yn lleihau dwysedd a gwanhau ansawdd yr hyfforddiant. Yn yr un modd, ni ellir gwneud rhagor o arbedion cefn swyddfa heb niweidio'r hyfforddiant hefyd. Mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod y Coleg eisoes yn cael ei redeg mewn ffordd ddarvoudus iawn a'i fod yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd ar gyfer rhannu gwasanaethau a phrynu ar y cyd trwy ei berthynas â Phrifysgol De Cymru.

## Ail-lunio

Ar sawl achlysur, mae'r Coleg wedi archwilio proses ail-lunio fanwl o'i waith trwy ailgloriannu ei raglenni neu leihau'r elfennau cost uchel. Ymddengys nad oes modd amau casgliadau'r ymarferion blaenorol hyn, sef y byddai proses ail-lunio yn arwain at leihau niweidiol neu ddileu darpariaeth. Byddai newid o'r fath yn cael ei wrthwynebu'n gryf gan gyflogwyr yn y diwydiannau creadigol a'r sector diwylliannol.

## Astudiaeth o gostau

Comisiynodd Prifysgol De Cymru adroddiad yn 2014 ar gostau hyfforddiant conservatoire yn y DU. Roedd yr astudiaeth fanwl hon yn meincnodi'r Coleg yn erbyn tair ysgol at ddibenion cymharu gan ddefnyddio data 2012/13. Dangosodd yr adroddiad fod gwariant y Coleg ar addysg uwch fesul myfyrwr 22% yn is na chymedr y cymaryddion. Priodolwyd hyn i gyfuniad o gyllido uned llai a dargyfeirio adnoddau addysgu i fynd i'r afael â baich dyled eithriadol y Coleg. Er gwaetha'r "diffyg" hwn mewn adnoddau, roedd y Coleg wedi llwyddo i wneud cynnydd trwy wneud arbedion sylweddol yn ei waith gweinyddol a thrwy ganolbwyntio ei wariant addysgu yn effeithiol ar flaenoriaethau allweddol.

## Cynaliadwyedd

Roedd yr astudiaeth feincnodi<sup>20</sup> eisoes wedi rhybuddio yn 2014 bod y Coleg mewn perygl oherwydd ei wariant is na'r cyfartaledd ar fyfyrwyr addysg uwch, ac y byddai toriadau pellach i'r adnodd yn peryglu ei enw da fel conservatoire rhyngwladol. Roedd tystiolaeth Prifysgol De Cymru i'r Adolygiad hwn yn ailadrodd y pwynt hwn yn glir. Er mwyn dileu diffyg ar y raddfa a ragwelwyd ar gyfer 2016/17, byddai angen lleihau oriau addysgu. Archwiliwyd senario o'r fath yn yr astudiaeth feincnodi. Ar sail y gwaith hwnnw, ymddengys y byddai angen toriadau addysgu o tua 21% i 32% ym

<sup>19</sup> Roedd y Coleg mewn perygl ychwanegol oherwydd ansicrwydd ynglŷn â lefel derfynol y grant Premiwm Pwnc Drud ar ôl neilltuo £1,645,000 ar ei gyfer yng nghyllideb 2016/17. Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llythyr cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer 2016/17 sy'n cadarnhau bod swm o £21.7 miliwn yn cael ei dynnu o gyllideb CCAUC i dalu am orwario ar y grant ffioedd dysgu. Hefyd, cyhoeddodd ddyraniad ychwanegol o £20 miliwn i fynd i'r afael â phedair blaenoriaeth yn y system addysg uwch. Y flaenoriaeth sydd â'r cysylltiad agosaf â'r problemau sy'n wynebu'r Coleg yw'r gronfa datblygu strategol i hyrwyddo capasiti a gallu'r sector i ymateb i heriau strategol a newid.

<sup>20</sup> Aeth yr astudiaeth ati i gymharu'n fanwl costau uned y Coleg â chostau tri sefydliad arbenigol cyfatebol yn y DU, sef Conservatoire Brenhinol yr Alban, Ysgol Gerdd a Drama'r Guildhall, A'r Academi Gerdd Frenhinol. Wrth sefydlu'r astudiaeth hon, cytunwyd am resymau cyfrinachedd masnachol na ddylid datgelu'r data a fewnbynwyd ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau unigol a gyfrannodd at y gwaith.

maes drama a 35% i 55% ym maes cerddoriaeth er mwyn dileu'r diffyg. Byddai toriadau ar y raddfa hon mor niweidiol fel na fyddai modd cynnal hyfforddiant conservatoire.

#### v. ADNODD GOFYNNOL

##### Dull gweithredu

Mae'n rhaid sicrhau mai cymhariaeth â gweddill y DU yw'r man cychwyn ar gyfer pennu lefel briodol yr adnodd ar gyfer y Coleg fel bod modd iddo gystadlu â'i gymheiriaid y tu allan i Gymru a ffynnu ym maes hynod gystadleuol a newidio conservatoires. Mae'r ystyriaeth hon cyn bwysiced heddiw ag yr oedd pan sefydlodd CCAUC ei system ariannu premiwm yn 2001/02. Yn dilyn y cynsail hwn, y ffordd symlaf o sicrhau'r adnodd gofynnol ar gyfer y Coleg fyddai efelychu'r adnodd sydd ar gael i'r conservatoires yn Lloegr yn 2016/17. Nodir sut i wneud hynny isod.

##### Ffigwr cynllunio niferoedd myfyrwyr

Er mwyn cyfrifo'r cynnydd gofynnol i'r premiwm pwnc drud, mae angen targed nifer myfyrwyr addysg uwch priodol ar gyfer y Coleg. Cynigir ffigwr cynllunio o 620 o fyfyrwyr Cartref/UE cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2019/20. Mae'r ffigwr hwn yn is na'r nifer presennol o 631 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn ac ychydig yn uwch na'r 588 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn yn 2015/16. Byddai ffigwr cynllunio o 620 o fyfyrwyr Cartref/UE cyfwerth ag amser llawn yn rhoi cydbwysedd newydd i'r Coleg, gan atgyfnerthu'r sefyllfa graidd ym meysydd cerdd a drama a, gyda rhai addasiadau eraill, yn hwyluso lansiad arfaethedig dawns gyfoes. Y cydbwysedd dangosol ar gyfer myfyrwyr israddedig ac ôl-radd yw 540 ac 80. Rhagdybir y bydd o leiaf 85 o fyfyrwyr tramor cyfwerth ag amser llawn yn cael eu recriwtio, gan atgyfnerthu'r twf cadarn yn y maes hwn yn ddiweddar.

##### Dewisiadau ar gyfer ymgodi'r premiwm

Cyflwynir tri dewis ar gyfer efelychu'r adnodd sydd ar gael i'r conservatoires annibynnol yn Lloegr. Cyfrifir ymgodiad mewn cyllid premiwm ym mhob achos. Mae'r cyfrifiadau'n cyfuno'r premiwm presennol a'r cynnydd arfaethedig ar sail rhagdybiaeth y bydd y ffioedd yn £9,000 ar gyfer rhaglenni israddedig a rhaglenni ôl-radd. Fe'u nodir ar sail prisiau 2016/17. Fel y nodwyd uchod, y ffigwr ar gyfer yr "uned adnodd" ofynnol fesul myfyriwr Cartref/UE yw £15,467.

Dewis 1: yr un "uned adnodd" â Lloegr:

- premiwm: ymgodiad o £2,368,000; ffigwr presennol - £1,642,000; cyfanswm newydd - £4,010,000; targed nifer myfyrwyr: 620 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn
- mae'r dewis hwn yn efelychu'r "uned adnodd" £15,467 fesul myfyriwr a dargedir, gyda 620 o fyfyrwyr Cartref/DU ar gyfer y Coleg; bydd hyn yn sicrhau bod y Coleg yn gallu cystadlu â Lloegr yn gyffredinol a'i fod yn gallu cyflwyno'r buddsoddiad a argymhellir mewn datblygu'r cwricwlwm a rhaglenni;

Dewis 2: gohirio lansiad dawns gyfoes:

- premiwm: ymgodiad o £2,109,000; ffigwr presennol - £1,642,000; cyfanswm newydd - £3,751,000; targed nifer myfyrwyr: 580 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn;
- mae'r dewis hwn yn gohirio lansiad dawns gyfoes ac yn modelu ffigwr o 580 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn gyda'r "uned adnodd" a dargedir; mae'n diogelu'r sefyllfa ym meysydd cerdd a drama ond yn hepgor cyfle buddsoddiad diwylliannol a datblygiadol pwysig;

Dewis 3: darparu "uned adnodd" uwch ar gyfer y Coleg nag yn Lloegr:

- premiwm: ymgodiad o £2,847,000; ffigwr presennol - £1,642,000; cyfanswm newydd - £4,489;
- targed nifer myfyrwyr: 620 o fyfyrwyr cyfwerth ag amser llawn;
- mae'r dewis hwn yn rhoi adnoddau i'r Coleg sy'n fwy na chyfartaledd y DU, fel y digwyddodd yn 2001/12; byddai'n sicrhau bod y Coleg yn fwy cystadleuol na Lloegr.

Er y byddai Dewis 3 yn sicrhau mantais sylweddol i'r Coleg, gall buddsoddiad o'r fath fod yn llai angenrheidiol heddiw nag yr oedd yn 2001/02. Mae'r Adolygiad hwn yn ffafrio Dewis 1, sef y cynnig darbodus i gynyddu'r premiwm pwnc drud o £1.64k i £4.01k. Byddai hyn yn sicrhau bod y Coleg yn gallu cyflwyno darpariaeth gytbwys a chystadleuol a diogelu ei enw da rhyngwladol. Byddai Dewis 2 yn gam gwag mewn gwirionedd, gan y byddai'n culhau uchelgais perthnasol y Coleg ac yn gohirio cyfle buddsoddi pwysig; ni argymhellir y dewis hwn.

##### Ymgodi'r premiwm fesul tipyn

Mae'n rhaid sicrhau fel mater brys bod cyllid ar gael yn 2016/17 fel bod modd i'r Coleg fantoli incwm a gwariant. Bydd angen defnyddio rhywfaint o'r cynnydd arfaethedig o £0.9 miliwn i wneud hyn. Ar ôl hynny, cynigir y dylid cyflwyno'r

cynnydd premiwm £1.4 miliwn sy'n weddill yn raddol rhwng 2017/18 a 2019/20. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai'r Coleg yn llwyddo i fod yn gynaliadwy ac yn gystadleuol o safbwynt ei sefyllfa weithredol. Bydd y cynnydd arfaethedig i'r premiwm yn diwallu anghenion sy'n gysylltiedig ag ail-fuddsoddi mewn rhaglenni drama a cherddoriaeth yn benodol (nodwyd yr angen hwn o'r blaen yn yr astudiaeth feincnodi cost), datblygu'r cwricwlwm (ym maes dawns gyfoes yn y lle cyntaf), cryfhau gwaith gweinyddol, a dychwelyd i wargedau wedi'u cynllunio er mwyn atgyfnerthu cynaliadwyedd.

### Methodoleg

Heb drafod manylion methodoleg CCAUC ar gyfer cyllido'r premiwm pwnc drud, nodir y gellid sicrhau'r cynnydd arfaethedig o dan y dewis sy'n cael ei ffafrio trwy ddilyn dull gweithredu CCAUC a phennu cwota o 500 o fyfyrwr, gyda phob un yn derbyn premiwm o £8,000. Byddai hyn yn debyg i ymarfer presennol CCAUC. Fodd bynnag, dylid nodi bod cwota CCAUC yn cynnwys myfyrwr israddedig ac ôl-radd, ac at ddibenion cymharu ffioedd myfyrwr ôl-radd yn benodol, gall CCAUC ddymuno ystyried mabwysiadu'r un dull gweithredu. Mewn gwirionedd, dyna oedd dull gweithredu blaenorol CCAUC mewn perthynas â'r Coleg. Disgwylir parhau â'r drefn bresennol, sef bod y Coleg yn recriwtio mwy na chwota'r premiwm hyd at ei darged ar gyfer nifer y myfyrwr.<sup>21</sup>

### Adroddiad Diamond

Cyhoeddwyd Adolygiad Diamond o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwr ym mis Medi 2016, ac ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol i'r cynigion. Cyn cwblhau'r adroddiad, cyflwynodd Syr Ian Diamond wybodaeth i banel yr Adolygiad am ei resymu a'i argymhellion. Mae'r Adolygiad hwn yn croesawu gwaith Syr Ian a'r prif gynnig a fydd yn rhyddhau adnoddau ar gyfer blaenoriaethau newydd ym maes addysg uwch. Mae'n ategu'r cynigion cynhaliaeth newydd sydd, fel yr eglura Syr Ian, yn cyd-fynd â'r dull gweithredu blaengar sy'n nodweddiadol o Gymru. Hefyd, rydym yn nodi ei gefnogaeth ar gyfer cysyniad y premiwm pwnc drud ac yn croesawu'r cynnig i'w ailgyflwyno ar gyfer pynciau STEM. Hefyd, mae Adolygiad Diamond yn cynnig ehangu'r premiwm pwnc drud i gynnwys rhaglenni israddedig a addysgir blwyddyn gyntaf mewn pynciau cost uchel. Er bod ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad wedi ymwrthod â'r cynnig hwn, rydym yn credu ei fod yn berthnasol o hyd i sefyllfa benodol y Coleg, yn enwedig o safbwynt pwysigrwydd sicrhau cyfartaledd â Lloegr.

### Pecyn cychwynnol

Byddai darparu lefel briodol o gyllid ychwanegol ar gyfer y Coleg yn flaenoriaeth naturiol ar gyfer 'difidend Diamond', ond deallir na fydd hyn yn debygol o fod ar gael cyn 2019/20 fan gynharaf. Felly, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r diffyg a ragwelir ar gyfer y Coleg yn 2016/17<sup>22</sup> a chymau cyntaf cyflwyno'r cynnydd mewn cyllid premiwm. Byddai'n afresymol disgwyl i'r Coleg ddefnyddio ei adnoddau ei hun i dalu am ddiffyg mor fawr â hwn nad yw'n gyfrifol amdano. Yn y cyswllt hwn, fel rhan o becyn cyllido cychwynnol, gallai fod yn fanteisiol ystyried sefydlu "grant conservatoire" gan Lywodraeth Cymru, gyda chyfraniadau gan fwy nag un adran. Byddai hyn yn adlewyrchu gwerth effaith gyffredinol y Coleg ar faterion economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, yn ogystal â'i rôl graidd ym meysydd addysg a hyfforddiant.

### Arbedion y Coleg

Ar ddechrau blwyddyn ariannol 2016/17, balans arian parod y Coleg oedd £5.2 miliwn. Clustnodwyd tua £3.75 miliwn o'r arian hwn i ad-dalu'r benthyciad adeilad di-log gan CCAUC, sydd i fod i gychwyn yn 2018/19. Hefyd, mae gan y Coleg fenthyciad masnachol o £7 miliwn ar gyfer y prosiect adeiladu, a bu'n rhaid gwario £355,000 ar hynny yn 2016/17.

### Dileu dyled

Yng nghyd-destun conservatoires eraill yn y DU, mae'n sefyllfa unigryw bod sefydliad o'r maint hwn yn gorfod wynebu dyled sy'n deillio o gynllun adeiladu. Byddai'n briodol mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn fel rhan o'r Adolygiad, gan y gallai datrysiaid posibl gyfrannu at sicrhau'r adnodd sydd ei angen gan y Coleg. Rydym yn awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru ystyried a oes modd dileu'r benthyciad di-log i'r Coleg trwy CCAUC, neu o leiaf ei ymestyn am gyfnod sylweddol. Byddai hyn yn golygu bod y Coleg yn gallu defnyddio'r swm sylweddol y mae wedi'i

<sup>21</sup> Fel arall, gall CCAUC ystyried a fyddai'n fanteisiol mynegi'r premiwm mewn perthynas â chyfanswm cynllunio llawn ar gyfer myfyrwr Cartref/UE sydd wedi ymrestru ar gyfer hyfforddiant conservatoire yn y Coleg. Un o fanteision hyn fyddai dileu'r anghysondeb ffioedd yn unig lle mae cyllid premiwm wedi'i gyfyngu i is-set o fyfyrwr. Mewn sefyllfa o'r fath, byddai'r broses o recriwtio myfyrwr ffioedd yn unig i raglenni perthnasol yn cael ei chyfyngu i fandiau goddefiant ar sail cyfanswm rheoli wedi'i gytuno.

<sup>22</sup> Mae'n dda gan yr Adolygiad nodi bod CCAUC, mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, yn gallu cynorthwyo yn y cyswllt hwn yn 2016/17.

glustnodi ar gyfer ad-dalu'r benthyciad at ddibenion eraill, gan gynnwys datblygu gwaddol y Coleg, neu helpu i greu pecyn ail-lunio dyled mewn perthynas â'i fenthyciad masnachol ar gyfer adeiladu.

### "Brexit"

Nid ydym wedi ystyried effaith "Brexit" neu ddatblygiadau rhyngwladol cysylltiedig ar broses y Coleg o recriwtio myfyrwyr o weddill yr UE. Er bod ansicrwydd mawr yn y cyswllt hwn, mae'r Coleg mewn sefyllfa dda i ymdopi â hynny gan ei fod yn sefydliad cryf mewn marchnad arbenigol, bod ganddo brofiad o addasu ei ddarpariaeth, a'i fod yn hyblyg ym meysydd allweddol ei gostau. Mae'n bosibl y bydd rhai atebion yn gofyn am fynediad i gronfeydd ysgoloriaeth mwy o ran maint. Dyna reswm arall pam y mae'n bwysig bod ymdrechion y Coleg yn canolbwyntio ar ddyfodol cynaliadwy fel Conservatoire cenedlaethol ymreolaethol Cymru, yn unol ag argymhelliad yr Adolygiad hwn (gweler Pennod 4).

## vi. CASGLIADAU

### Ystyriaethau

Mae trefniadau cyllido presennol y Coleg yn peryglu dyfodol darpariaeth Conservatoire yng Nghymru a llwyddiant anhygoel y Coleg dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n codi'r cwestiwn a oes angen conservatoire cenedlaethol yng Nghymru. Yn y cyswllt hwn, rydym yn rhoi pwyslais mawr ar y dystiolaeth a dderbyniwyd gan gyflogwyr allweddol yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol, gan gynnwys Cadeirydd Panel y Sector Diwydiannau Creadigol, a nododd y byddai colli capasiti a gallu'r Coleg yn ergyd sylweddol i'r gwaith o greu ffilmiau a dramâu teledu o ansawdd uchel yng Nghymru, ac i gyfraniad y Coleg at economi Cymru, sy'n tyfu'n gyflym.

### Gwerth cyhoeddus

Mae'r Coleg yn cael ei edmygu'n eang am sawl rheswm, gan gynnwys y gwerth cyhoeddus sylweddol y mae'n ei sicrhau i Gymru, fel sy'n cael ei ddisgrifio ym Mhennod 2 a'i grynhoi isod:

- gweithredu fel ffynhonnell dyhead bwysig ar gyfer perfformwyr ifanc o Gymru;
- nodi a datblygu unigolion talentog o Gymru;
- gweithredu fel prif sbardun diwylliant Cymru a llwyddiant artistiaid o Gymru, gan gynnwys hyfforddi actorion a pherfformwyr eraill sy'n siarad Cymraeg;
- datblygu enw da cryf yn allanol a chyfleu delwedd ryngwladol gadarnhaol o Gymru;
- denu talent ryngwladol i Gymru, o safbwynt myfyrwyr ac athrawon, sy'n rhoi hwb i allu diwylliannol y wlad;
- gwneud cyfraniad economaidd hanfodol at hyfforddiant y sector dramâu teledu a ffilm, ac fel prif ffactor yn y broses o ddenu mewnfuddsoddiad yn y sector.

Mae'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan yr Adolygiad hwn yn dadlau'n gryf o blaid cadw'r Coleg a datblygu ei gyfraniad rhagorol. Rydym yn dod i'r casgliad y byddai colli'r Coleg, sy'n rhan o faes llwyddiannus iawn yng Nghymru, yn niweidiol ac yn gam gwag, a'i bod yn gwbl hanfodol ein bod yn gweithio'n unol â safon fyd-eang i sicrhau ei ddyfodol. Ar adeg o gyfyngu ariannol, y dull gweithredu gorau yw buddsoddi ym meysydd rhagoriaeth a llwyddiant hysbys. Mae hyn yn berthnasol i'r Coleg.

### Argymhellion

Yn unol â hynny, rydym yn argymhell y dylai'r Coleg dderbyn cyllid refeniw ychwanegol gwerth tua £2.36 miliwn y flwyddyn dros gyfnod o dair blynedd yn dechrau yn 2017/18. Bydd y cyllid hwn, y cyllid premiwm presennol, ac incwm ffioedd dysgu o fyfyrwyr Cartref/UE yn sicrhau bod gan y Coleg yr adnodd craidd gofynnol i weithredu yn unol â'i gystadleuwyr mewn awdurdodaethau eraill. Hefyd, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru/CCAUC ystyried dileu dyled y benthyciad di-log i'r Coleg.



## 4. CYSYLLTIADAU

### i. CYD-DESTUN

Mae cymharu'r Coleg â conservatoires cyfatebol yng ngweddill y DU wedi bod yn ganolog i'r cwestiwn o sut i gyllido'r Coleg, sy'n berthnasol i'r Adolygiad hwn. Mae'r un gymhariaeth yn arwain at gwestiwn am y lleoliad sefydliadol o ddewis ar gyfer sicrhau'r deilliannau gorau mewn darpariaeth addysg a hyfforddiant o'r fath. Nod yr Adolygiad yw sicrhau bod Cymru'n gallu manteisio'n llawn ar ei darpariaeth conservatoire, felly mae'r ffactor hwn yn berthnasol o ystyried yr ethos sefydliadol penodol a'r amodau arbenigol sydd eu hangen ar gyfer addysg a hyfforddiant o'r fath. Mae'r bennod yn ystyried goblygiadau hyn ar gyfer perthynas bresennol y Coleg â Phrifysgol De Cymru. Mae'r Coleg yn is-gorff y Brifysgol ac yn cael ei pherchenogi'n llawn ganddi.

#### Fformat safonol

Mae'r cymariaethau'n dangos bod y rhan fwyaf o ddarpariaeth conservatoire ar gael mewn sefydliadau arbenigol sydd wedi'u strwythuro fel endidau ymreolaethol. Fel y nodwyd yn gynharach, dyna'r sefyllfa yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys yng ngwledydd fel Ffrainc, gwledydd Llychlyn, yr Iseldiroedd, yr Almaen ac UDA (mewn cyd-destun cyllido gwahanol). Yn yr Almaen, er enghraifft, mae 24 o hochschulen cerddoriaeth yn cael eu cyllido gan daleithiau'r Almaen fel sefydliadau ymreolaethol, sydd â statws cyfatebol â phrifysgolion ond sydd â 490 o fyfyrwyr ar gyfartaledd. Yn y DU, mae'r wyth conservatoire arall sy'n derbyn cyllid premiwm yn gweithredu fel sefydliadau ymreolaethol, gydag un eithriad, sy'n cael ei ddisgrifio isod. Mae tri wedi'u strwythuro fel cwmnïau atebolrwydd cyfyngedig, dau fel corfforaethau siartredig brenhinol, a dau fel corfforaethau addysg uwch, o dan delerau Deddfau 1988 a 1992. Un o'r cwmnïau atebolrwydd cyfyngedig yw Conservatoire Brenhinol yr Alban, sef y cymharwydd agosaf o safbwynt rôl y Coleg.

#### Ymreolaeth

Ystyr ymreolaeth yn y cyswllt hwn yw bod byrddau conservatoires yn berchen ar eu sefydliad eu hunain, yn ei reoli'n llawn, yn sbarduno datblygiad strategol, yn diogelu ac yn rheoli eu hasedau a'u henw da, yn ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd a'u rhanddeiliaid preifat ar bob mater, gan gynnwys cyllido a chodi arian, ac yn penodi unigolion i swyddi allweddol fel aelodau o'r bwrdd, y cadeirydd a'r pennaeth. Dylid nodi hefyd bod byrddau yn y sefydliadau arbenigol hyn yn cyflawni rôl benodol gan eu bod yn ymgysylltu'n agos â bywyd y sefydliad fel arfer. Mae'r rôl hon yn cynnwys mynychu digwyddiadau'r ysgol a dilyn cynnydd a llwyddiant myfyrwyr unigol yn agos. Hefyd, maent yn gweithio i sicrhau bod eu sefydliad yn rhan o fywyd cyhoeddus a'i fod yn cadw mewn cysylltiad lefel uchel â sector y celfyddydau perfformio a'r diwydiannau creadigol, yn ogystal ag ymgysylltu â gweithgareddau codi arian ac arwain ym maes rhoddion preifat.

#### Eithriad

Y Guildhall School of Music and Drama yw'r eithriad rhannol i'r patrwm a ddisgrifir uchod, gan mai Corfforaeth Dinas Llundain sy'n berchen arni ar ôl ei sefydlu ym 1880. Y Gorfforaeth hon oedd unig a phrif ariannwr yr Ysgol tan 2006. Pan ddechreuodd yr Ysgol dderbyn cyllid gan y llywodraeth ganolog yn 2006, ac yn dilyn cytundeb rhwng y Gorfforaeth a HEFCE, newidiwyd trefniadau llywodraethu'r Ysgol er mwyn ei dynodi'n sefydliad addysg uwch (SAU). Mae'n gweithredu fel sefydliad annibynnol sy'n rheoli ei hun, ac mae'r bwrdd yn penodi'r cadeirydd, y pennaeth ac aelodau annibynnol o'r bwrdd. Mae pennaeth yr Ysgol yn adrodd i'r bwrdd, ac fel ei swyddog dynodedig, mae'n atebol i HEFCE yn uniongyrchol am gyllid cyhoeddus yr Ysgol ac am brofiadau a deilliannau'r myfyrwyr. Arwyddocâd yr enghraifft hon yw'r pwyslais a roddir i'r egwyddor ymreolaeth mewn strwythur sydd braidd yn aneglur. Mae'r sefyllfa ychydig yn haws gan nad yw'r Ddinas ei hun yn SAU ac nad oes ganddi unrhyw fuddiannau cystadleuol ym maes addysg uwch.<sup>23</sup>

#### Dewis gorau

Mae Pennod 1 o'r adroddiad yn disgrifio sut mae hyfforddiant conservatoire yn canolbwyntio ar un dasg, sef paratoi artistiaid ifanc i weithio yn y proffesiynau perfformio. Mae'r fformat sefydliadol annibynnol, ymreolaethol yn ddewis cyffredinol ar gyfer conservatoires oherwydd natur benodol yr hyfforddiant, sy'n wahanol iawn i weddill y maes

---

<sup>23</sup> Mae Atodiad 4 o'r adroddiad yn cynnwys rhagor o wybodaeth am drefn lywodraethu'r Guildhall School. Enghraifft arall o drefniant anarferol sy'n ceisio gwarchod yr egwyddor ymreolaeth yw'r Conservatoire for Dance and Drama. Mae'n dwyn ynghyd wyth ysgol gwbl annibynnol ac yn cyflawni swyddogaethau ar y cyd ar eu rhan, gan gynnwys rheoli'r berthynas gyllido â HEFCE. Fel rhan o'r model hwn, mae'r ysgolion "cyswllt" yn aros yn endidau annibynnol, ymreolaethol sy'n cymryd rhan yn y trefniant yn ôl eu disgrisiwn eu hunain. Ceir llinellau atebolrwydd rhwng y penaethiaid fel swyddogion dynodedig pob sefydliad cyswllt a swyddog dynodedig y CDD.

addysg uwch oherwydd yr ymarfer manwl sydd ei angen. Mae'r gwahaniaeth sylweddol yn ymwneud ag ethos sefydliadol unigryw'r conservatoire, sy'n seiliedig ar y drefn benodol o ymarfer a pherfformio, ac ar ddisgwyliadau a dyheadau penodol y myfyrwyr.

Cytunir yn gyffredinol bod yr amodau hyn yn fwy tebygol o fod ar gael mewn sefydliadau arbenigol ac ymreolaethol sy'n gallu teilwra cyfleoedd cwricwlwm, addysgu a pherfformio a rheoli'r defnydd o holl adnoddau sefydliad er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i fyfyrwyr. Mae'r rheolaeth hon yn sicrhau'r hyblygrwydd i ymateb yn gyflym i newidiadau yn y sector a chyfleoedd newydd. Hefyd, mae cyrff o'r fath mewn sefyllfa dda i gadw mewn cysylltiad agos â'r proffesiynau cerdd a dawns. Amcan y myfyrwyr yw gweithio yn y proffesiynau hyn, ac maent yn brif ffynhonnell staff hefyd. Nododd yr Adolygiad safbwyntiau cyflogwyr o'r sefydliadau perfformio a'r diwydiannau creadigol a diwylliannol, a oedd yn dadlau bod ymreolaeth sefydliadol yn ofyniad hanfodol i'r Coleg wrth gyflawni ei rôl.

## ii. Y SEFYLLFA BRESENNOL

### Is-gorff

Ar hyn o bryd, mae cyfansoddiad y Coleg yn nodi ei fod yn gwmni atebolrwydd cyfyngedig ac yn elusen gofrestredig, a'r Brifysgol yw unig aelod a chyfranddaliwr y cwmni. O ganlyniad, mae'r Coleg yn is-gorff Prifysgol De Cymru sy'n cael ei berchen yn gyfan gwbl ganddi, felly nid yw'n cydymffurfio â'r fformat llywodraethu safonol ar gyfer conservatoire premiwm. Mae gan y Coleg rywfaint o ryddid gweithredol ar gyfer ei faterion ariannol, penodi staff, derbyn myfyrwyr, a rheoli adeiladau, felly nid yw'r trefniant yn gyfystyr ag uno. Ond nid yw'r trefniant hwn yn sicrhau ymreolaeth lawn y Coleg o bell ffordd. O ganlyniad, nid oes gan y Coleg berthynas uniongyrchol â'r Cyngor Cyllido gan fod ei arian cyhoeddus yn dod trwy'r Brifysgol. Hefyd, at rai dibenion adrodd cyhoeddus, mae'r Coleg wedi'i uno â'r Brifysgol ac nid yw'n ymddangos mewn cofnodion. Canlyniad arall yw'r ffaith ei bod yn ofynnol i'r Coleg ddefnyddio rhai o systemau'r Brifysgol nad ydynt yn adlewyrchu anghenion gweithredol hyfforddiant conservatoire.

### Canlyniadau

Mae goblygiadau statws is-gorff y Coleg yn amlwg iawn ar lefel uchaf y sefydliad. Mae'r Brifysgol yn penodi cyfarwyddwyr Bwrdd y Coleg, ac fel yr unig aelod, mae ganddi'r bŵer de facto i roi feto ar unrhyw benderfyniadau'r bwrdd. O ganlyniad, ni ellir honni bod Bwrdd y Coleg yn cyflawni swyddogaethau arferol bwrdd conservatoire. Yn yr un modd, mae pennaeth y Coleg yn adrodd i Is-Ganghellor y Brifysgol yn hytrach na Bwrdd y Coleg, sy'n cynyddu rheolaeth y Brifysgol dros faterion y Coleg. Wrth ymateb i'r Adolygiad, pwysleisiodd y Brifysgol fod angen ystyried Bwrdd y Coleg yn is-gorff y Brifysgol a'i bwrdd, a bod disgwyl iddo ganolbwyntio ar faterion ymddiriedol sylfaenol fel ei brif gyfrifoldeb.

### Annibyniaeth flaenorol

Mae'n bwysig cofio bod y Coleg yn gorfforaeth addysg uwch annibynnol am 14 blynedd rhwng 1993 a 2006, a'i fod yn cael ei gyllido'n uniongyrchol gan CCAUC. Fe ddaeth yn aelod llawn o Brifysgol Cymru yn 2004, a oedd eisoes wedi dilysu ei raddau. Ar ôl cael ei sefydlu ym 1947 fel coleg addysg bellach, roedd yn bodoli mewn sawl fformat gwahanol yn y blynyddoedd cynnar, gan gael ei reoli a'i ariannu gan awdurdodau lleol. Yn ôl y rhai a oedd yn rheoli'r Coleg yn ystod ei gyfnod fel corfforaeth addysg uwch, roedd yn cael ei reoli'n dda ac yn gallu datblygu ei weledigaeth sylweddol i fod yn un o conservatoires gorau'r byd. Yn y cyswllt hwn, fe'i rhwystrwyd gan adeiladau annigonol a'i anallu i gronni cronfeydd ariannol.

### "Cynghrair strategol"

Newidiodd y Coleg i'r strwythur sefydliad presennol yn 2007 ar ôl ymrwmo i "gynghrair strategol" â Phrifysgol Morgannwg, un o'r sefydliadau blaenorol a unodd i greu USW. Prif fwriad y Coleg wrth gymryd y cam hwn, a oedd yn cynnwys colli ei statws fel SAU annibynnol (a'i gyllid uniongyrchol), oedd cyflawni'r amcan o sicrhau adeilad newydd. Derbyniodd gyngor CCAUC fod angen iddo ddod o hyd i bartner AU a oedd â sylfaen ariannol gryfach er mwyn derbyn cyllid ar gyfer y prosiect adeiladu uchelgeisiol. Roedd hyn yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru ar y pryd o leihau'r nifer fach o SAU a'u disodli ag endidau mwy o ran maint trwy uno sefydliadau.

### Dealltwriaeth

Cyfeiriwyd at sawl mater ar wahân i'r prosiect adeiladu wrth gynllunio'r "gynghrair strategol". Wrth edrych yn ôl, ymddengys nad oedd rhai o'r materion hyn yn cael eu hystyried yn ganolog i'r "gynghrair", gan gynnwys rhagor o gydweithio academaidd ar gyrsiau. Mewn gwirionedd, ymddengys bod y gwrthwyneb wedi digwydd yn yr achos hwn, ac, er enghraifft, fel mesur o arbenigedd rhwng y sefydliadau, trosglwyddwyd maes roc a pop y Coleg a oedd wedi'i

hen sefydlu i'r Brifysgol i'w ddatblygu ymhellach. Yn dilyn uniad 2007, a oedd yn seiliedig ar ysbryd o ewyllys da, ymddengys bod sawl camddealltwriaeth wedi codi a heb ei ddatrys, gyda'r Coleg yn credu mai'r bwriad oedd diogelu ei ymreolaeth yn llawn oddi mewn i'r "gynghrair". Nid oes syndod bod y Coleg a'r Brifysgol yn cydnabod bod rhai tensiynau wedi codi wedyn yn y berthynas rhwng y ddau.

### Cyfraniad y Brifysgol

Oddi mewn i'r "gynghrair strategol", roedd y Brifysgol yn gallu gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygiad y Coleg. Yn benodol, cwblhawyd adeilad newydd y Coleg yn 2011. Yn unol â'r cynllun, darparwyd y cyllid cyhoeddus ar gyfer y prosiect trwy'r Brifysgol, a warantodd apel lwyddiannus y Coleg am gyllid. Hefyd, neilltuodd y Brifysgol gyllid cyfatebol a enillwyd gan CCAUC i'r prosiect. Roedd cyfraniadau ariannol eraill y Brifysgol yn cynnwys rhywfaint o gyllid ar y cyd yn y dechrau ar gyfer lleoedd premiwm ychwanegol yn y Coleg, a rhywfaint o ysgogiad graddol ar gyfer cost weithredol ychwanegol yr adeilad newydd.

Heddiw, mae'r Brifysgol wedi disodli Prifysgol Cymru fel y corff sy'n dilysu graddau'r Coleg, ac mae'n cyflawni swyddogaeth Clerc ac Ysgrifennydd y Cwmni hefyd, hynny'n ddi-dâl. Hefyd, mae'n rhoi cyngor i'r Coleg mewn nifer o feysydd eraill, gan gynnwys Rhwystro, yr Asiantaeth Ffiniau, a Hawliau Dynol a Chydraddoldeb. Er bod y Coleg yn paratoi ac yn cyflwyno ei ffurflenni ei hun i rai rheoleiddwyr allanol, mewn achosion eraill mae ffurflenni'r Coleg yn cael eu hymgorffori mewn ffurflenni'r Brifysgol, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu hanfon i CCAUC a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Oddi mewn i grŵp y Brifysgol, mae'r Coleg yn derbyn gwasanaethau amrywiol ar sail contract gan y Brifysgol, gan gynnwys adnoddau dynol, iechyd galwedigaethol (o Goleg Merthyr Tudful), ac asesiadau anabledd. Hefyd, mae'n caffael rhai gwasanaethau ar y cyd â'r Brifysgol, gan gynnwys ei gyflenwad ynni. Yn gyffredinol, mae'r Adolygiad yn dod i'r casgliad bod y Brifysgol wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol ac arwyddocaol at ddatblygu'r sefydliad yn ystod ei chyfnod yn stiwardio'r Coleg.

### iii. AILGYFLWYNO YMREOLAETH

#### Ar ôl degawd

Ddeng mlynedd ar ôl creu'r "gynghrair strategol", mae'n amser priodol ystyried a ddylid ailgyflwyno ymreolaeth y Coleg. Nododd yr Adolygiad farn gref y rhai a fu'n arsylwi ar y Coleg ers amser maith, a sefydliadau ac unigolion yn y sector diwylliannol, mai hwn fyddai'r cam cywir ar hyn o bryd. Wrth reswm, mae'r cyd-destun heddiw yn gwbl wahanol i'r cyd-destun ddeng mlynedd yn ôl. Mae'r Coleg wedi newid, ac mae Cymru wedi newid hefyd yn sgil twf y diwydiannau creadigol a nifer o sefydliadau diwylliannol cenedlaethol newydd. Nid yw'r Coleg wedi'i leoli mewn adeiladau sydd mewn cyflwr gwael bellach, ac erbyn hyn mae ganddo adeiladau rhagorol sy'n denu myfyrwyr a staff fel ei gilydd. Mae enw da a gallu sefydliadol y Coleg wedi'u gweddnewid hefyd. Un o'r prif resymau am hyn yw'r "gynghrair strategol" gref gyda'r Brifysgol, a heb hynny mae'n amheus a fyddai'r Coleg wedi gallu sicrhau'r llwyddiant presennol.

Mae'r Coleg wedi ennill parch ei gymheiriaid yng ngweddill y DU ac wedi sefydlu cysylltiadau a marchnadoedd rhyngwladol pwysig. Mae rôl genedlaethol y Coleg wedi'i chryfhau yn sgil ei gysylltiadau trawsnewidiol â'r cwmnïau perfformio cenedlaethol, fel Opera Cenedlaethol Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, a gyda'r diwydiannau creadigol a diwylliannol yng Nghymru. Mae'n parhau i fod yn adnodd ar gyfer Cymru gyfan trwy ddarparu rhaglenni pwysig fel rhan o hyfforddiant dwys cyn 18 oed, allgymorth a mynediad i'r celfyddydau, hyrwyddo'r rhaglen perfformiad cyhoeddus fwyaf uchelgeisiol o blith holl gonservatoires y DU, ac oherwydd ei bartneriaeth â'r llywodraeth yn meysydd polisi allweddol.

#### Sefydliad cenedlaethol

Ymddengys nad oes unrhyw reswm pam na ddylai conservatoire cenedlaethol Cymru gael ei lywodraethu'n unol â safon y sector fel endid annibynnol, yn debyg i sefyllfa Conservatoire Brenhinol yr Alban a sefydliadau cyfatebol eraill yn y sector. Yn wir, mae'n anarferol bod sefydliad cenedlaethol cydnabyddedig yn berchen ar sefydliad arall. Byddai ailgyflwyno ymreolaeth y Coleg yn unioni'r anghysondeb hwn ac yn dileu sawl camddealltwriaeth sydd wedi codi yn sgil y trefniant ymysg cyrff cyhoeddus, darpar fyfyrwyr, cefnogwyr, a rhoddwyr preifat.

#### Sicrwydd hirdymor y Coleg

Byddai ailgyflwyno ymreolaeth y Coleg yn cryfhau ei ragolygon ar gyfer y dyfodol yn enfawr trwy:

- sicrhau bod y Coleg mewn sefyllfa gydradd â'i gymheiriaid a'i gystadleuwyr;

- galluogi'r Coleg i benodi pobl o'r radd flaenaf i uwch swyddi ar y bwrdd ac ar lefel reoli, o'r nifer fwyaf posibl o ymgeiswyr;
- sefydlu bwrdd a allai fodloni disgwyliadau arferol sefydliad o'r math hwn o safbwynt ei rôl a'i sgiliau;
- grymuso'r Coleg i gynllunio ei ddyfodol ei hun a derbyn cyfrifoldeb llawn am gyfeiriad ei ddatblygiad;
- egluro diben a defnydd holl asedau'r Coleg, a dileu unrhyw rwystrau i lwyddiant ei weithgareddau codi arian preifat.

Mae'n rhaid i'r Coleg a Llywodraeth Cymru fod yn sicr ynglŷn â'r materion allweddol, llywodraethu annibynnol ac ariannu uniongyrchol, yn bennaf er mwyn diogelu a meithrin y cyfraniad gwerth cyhoeddus sylweddol y mae'r Coleg yn ei wneud eisoes. Yn bennaf oll, mae'r Adolygiad yn dod i'r casgliad mai adsefydlu'r Coleg fel sefydliad AU annibynnol yw'r ffordd orau o roi sicrwydd hirdymor iddo a'i ymrwymiad i gyflawni rôl conservatoire premiwm.

#### IV. MATERION YMARFEROL

##### Cyflenwi a chost

Mae'r Adolygiad wedi rhoi ystyriaeth fanwl i hyfywedd y Coleg fel corff sy'n ei lywodraethu ei hun, ac i sut y gellid dychwelyd i drefn ymreolaeth. Mae'n ystyried yr addasiadau gofynnol i strwythur y cwmni presennol, y newidiadau i gyfrifoldebau'r Coleg, cyfnewid gofynion gweithredu, a goblygiadau cost yr holl elfennau hyn. Mae'r ystyriaeth hon yn seiliedig ar systemau llywodraethu, gweithredu a modelau ariannol conservatoires eraill y DU, ac archwiliwyd datblygiadau yn y fframwaith adrodd a rheoleiddio ym maes addysg uwch. Mae'r Adolygiad yn dod i'r casgliad bod y newidiadau sydd eu hangen yn rhai pwysig, ond nad ydynt yn wahanol iawn i'r hyn y mae'r Coleg yn ei wneud drosto ei hun heddiw. Felly, gellid cyflwyno'r newidiadau, gyda chymorth priodol, yn ddiogel ac yn gymharol gyflym.

##### Model busnes

Fel conservatoire sy'n llywodraethu ei hun, byddai gweithdrefn ariannol y Coleg yn dilyn y model busnes arferol ar gyfer sefydliad arbenigol, bach. Mae hyn yn wahanol iawn, o safbwynt patrymau incwm a gwariant a nodweddion gweithredu, i'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg uwch, sy'n sefydliadau llawer mwy o ran maint [Tabl 23]. Mae conservatoires yn sefydliadau cryno sy'n manteisio ar weithredu mewn marchnad hynod arbenigol. Mae'r ffaith hon yn eu hamddiffyn yn erbyn cyfnewidiadau mewn niferoedd myfyrwyr sy'n effeithio ar rai meysydd addysg uwch. Trwy ganolbwyntio ar agweddau hanfodol mewn maes arbenigol maent yn arbed arian ar waith gweinyddol, gwasanaethau cymorth, a chaffael. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y model busnes sy'n cael ei ddefnyddio gan conservatoires premiwm y DU yn gynaliadwy ac yn ddiogel.

##### Newidiadau

Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn derbyn rhai gwasanaethau mewn nwyddau gan y Brifysgol, ac mae'n cymryd rhan mewn nifer o drefniadau gyda'r Brifysgol ar gyfer gwasanaethau y codir tâl amdanynt a chaffael ar y cyd. O dan system ymreolaeth, byddai angen trafod, addasu a disodli rhai o'r trefniadau hyn gyda'r Brifysgol. Bydd angen i'r Coleg ddisodli gwasanaethau mewn nwyddau â'i ddarpariaeth am dâl ei hun. Mae'n bosibl y bydd y Brifysgol a'r Coleg am sicrhau bod rhai o'r trefniadau masnachol yn parhau, ond efallai y bydd prosesau ail-dendro a chwilio am fargeinion cyfwerth neu well â phartneriaid eraill, allanol, yn rhan o'r trefniant. Mae gan y Coleg drefniadau caffael allanol eisoes, sy'n annibynnol ar ei gysylltiadau â'r Brifysgol. Mae asesiad ar-lein o gost ychwanegol net ymreolaeth i'r Coleg, gan gynnwys staff ychwanegol, yn awgrymu bod y ffigur yn fforddiadwy. Yn y cyd-destun hwn, ac ar sail ystyriaethau eraill, byddai'r Coleg yn disgwyl cynyddu ei dargedau ar gyfer cyllid preifat.

##### Ariannu

Bydd hyfywedd ariannol conservatoire cenedlaethol Cymru fel sefydliad sy'n ei llywodraethu ei hun yn dibynnu'n bennaf ar ddatrys yr argyfwng ariannu, yn unol â chynnig yr Adolygiad hwn, trwy ddarparu cyllid refeniw ychwanegol ar lefel sy'n sicrhau bod darpariaeth y Coleg yn gallu cystadlu yn erbyn darpariaeth ei gymheiriad yng ngweddill y DU. Mae'r cam hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod darpariaeth conservatoire premiwm yng Nghymru yn gynaliadwy unwaith eto. Yn y cyswllt hwn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried dileu dyled ei benthyciad di-log i'r Coleg a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect adeiladu. Hefyd, byddai hyn yn galluogi'r Coleg i ddefnyddio'r swm sylweddol y mae wedi'i glustnodi ar gyfer ad-dalu'r benthyciad i wneud gwelliannau ariannol, er enghraifft, i sefyllfa ei fantolen.

## v. CASGLIADAU

### Ystyriaethau

Nid oes unrhyw reswm mewn egwyddor pam na ddylai'r Coleg weithredu'n llwyddiannus fel sefydliad annibynnol. Ym mam yr Adolygiad hwn, y model annibynnol yw'r fformat gorau ar gyfer sefydliad fel hwn. Heb unrhyw amheuaeth, mae'r uno a'r "gynghair strategol" â'r Brifysgol wedi bod o fudd i'r Coleg. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y Coleg mewn sefyllfa i lwyddo'n well yn y dyfodol, nid yw'n ymddangos yn briodol neu'n angenrheidiol bellach bod y Coleg yn parhau i fod ym meddiant sefydliad arall.

### Argymhellion

O ganlyniad, rwy'n argymhell y dylid adfer ymreolaeth y Coleg, ac y dylai Prifysgol De Cymru a'r Coleg, gyda chymorth Llywodraeth Cymru a CCAUC, gydweithio i gyflawni'r nod. Hefyd, rwy'n argymhell y dylid ystyried newid enw'r Coleg i 'Conservatoire Brenhinol Cymru', ac y dylid datblygu ei rôl genedlaethol ymhellach, fel yr amlinellwyd ym Mhennod 2.

## 5. DATBLYGIADAU CWRICWLWM

### i. THEATR GERDDOROL

#### Dau syniad

Gofynnwyd i'r Adolygiad ystyried posibiliadau ar gyfer datblygu cwricwlwm darpariaeth conservatoire yng Nghymru yn y dyfodol. Yn benodol, cyfeiriwyd at theatr gerddorol ar gyfer israddedigion a hyfforddiant dawns galwedigaethol ym meysydd perfformio a choreograffi. Derbyniodd yr Adolygiad dystiolaeth gadarnhaol yn ymwneud â'r ddau syniad, ac mae angen rhoi ystyriaeth ddifrifol iddynt fel modd posibl o ehangu rhaglenni presennol y Coleg.

#### Gradd MA bresennol mewn theatr gerddorol

Mae'r Coleg eisoes yn cynnig cwrs MA mewn theatr gerddorol, a gyflwynwyd yn 2012/13. Mae'r cwrs hwn yn denu llawer o fyfyrwyr o Gymru, y DU a thramor. Mae'n arwain at ganlyniad da o safbwynt cyflogaeth, gyda llwyddiannau amrywiol ym maes theatr gerddorol. Hefyd, mae'r Coleg yn darparu hyfforddiant actio a llais ym maes theatr gerddorol ar gyfer cantorion israddedig ym Mlwyddyn 4.

#### Cymaryddion

Mae tri chonservatoire arall yn y DU yn cynnig cyrsiau MA mewn theatr gerddorol, sef yr Academi Gerdd Frenhinol (sy'n cynnig Diploma i Raddedigion mewn cyfarwyddo theatr gerddorol hefyd), y Royal Central School of Speech and Drama, a'r Royal Conservatoire Scotland. Mae'r Royal Conservatoire Scotland a Trinity Laban yn cynnig cwrs BA mewn theatr gerddorol hefyd. Mae'r tair ysgol ddrama sy'n ysgolion cyswllt CDD yn diwallu'r angen hwn trwy gynnig dewisiadau yn eu cyrsiau actio i israddedigion, naill ai ym maes theatr gerddorol (BOVTS) neu trwy gyfrwng cyfuniadau gwahanol o ganu a symud (LAMDA a RADA). Mae'r rhan fwyaf o'r galw arbenigol am hyfforddiant theatr gerddorol yn cael ei ddiwallu gan yr ysgolion a gefnogir gan DaDA, yn enwedig Bird College, Mountview College, Arts Ed London, Performers College, a Laine Theatre Arts. Mae'r dulliau gweithredu yn amrywio, ac mae Laine Theatre Arts, er enghraifft, yn rhoi pwyslais ar hyfforddiant dawns.

#### Theatr gerddorol yng Nghymru

Eglurodd Cyngor Celfyddydau Cymru i'r Adolygiad sut mae elfennau gwahanol o'r seilwaith cynhyrchu theatr gerddorol yn datblygu yng Nghymru. Mae Canolfan Mileniwm Cymru wedi sefydlu cyfleuster cynhyrchu mewnol newydd, ac mae Opera Cenedlaethol Cymru wedi dechrau cyd-gynhyrchu sioeau cerdd yn ddiweddar, gan gynnwys *Sweeney Todd* a *Kiss Me Kate*. Hefyd, mae galw pellach am sgiliau theatr gerddorol gan S4C a'r BBC yng Nghymru. Mae gan y theatrau cynhyrchu yng Nghymru ddiddordeb cynyddol mewn theatr gerddorol, a dywedir bod angen gwella'r safonau canu yn y maes hwn. Mae traddodiad cryf Cymru ym maes drama amatur yn cynnwys llawer o ddiddordeb mewn theatr gerddorol, ac mae'n darparu cyfleoedd amrywiol i weithwyr proffesiynol ifanc.

#### Rhagor o brawf

Er bod y Coleg wedi dadlau y gallai'r seilwaith presennol fod yn ddigonol i gynnal gradd i israddedigion, daeth yr Adolygiad i'r casgliad bod angen tystiolaeth ategol gryfach yn ymwneud â'r potensial ar gyfer cyflogaeth yng Nghymru dros gyfnod hirach cyn bwrw iddi i wneud cynlluniau. Yn y cyfamser, byddai'n synhwyrol i'r Coleg barhau i ddiwallu anghenion theatr gerddorol trwy gyfuniad o'i gwrs MA presennol a'r dewisiadau sy'n rhan o'i gyrsiau canu, ac o bosibl, actio, yn ogystal â pharhau i adolygu sefyllfa'r farchnad.

### ii. DAWNS GYFOES

#### Dawns gyfoes

Codwyd y syniad o gyflwyno hyfforddiant conservatoire mewn dawns gyfoes yn y Coleg tua deng mlynedd yn ôl, ond credwyd ar y pryd nad oedd y seilwaith dawns yn ddigon cryf yng Nghymru i sicrhau y byddai'r hyfforddiant yn llwyddiannus. Mae yna enghreifftiau llwyddiannus blaenorol o ddatblygiadau tebyg. Yn gymharol ddiweddar, fe aeth y Royal Conservatoire Scotland ati i sefydlu rhaglen bale modern mewn partneriaeth â chwmni *Scottish Ballet*, ac mae'r rhaglen yn un gynaliadwy. Ffurfiwyd Conservatoire Trinity Laban ar ôl i Laban Dance Centre, a oedd yn arbenigo mewn dawns gyfoes ac addysg dawns, uno â'r Trinity College of Music. Mae gan y Conservatoire for Dance and Drama bedair ysgol ddawns gyswllt, sef y London Contemporary Dance School, y Rambert School of

Ballet and Contemporary Dance yn Llundain, y Northern School of Contemporary Dance yn Leeds, a'r Central School of Ballet hefyd yn Llundain, sy'n addysgu bale a bale modern.

### Bale clasurol

Dylid nodi bod y rhan fwyaf o hyfforddiant uwch mewn bale clasurol yn y DU yn cael ei ddarparu mewn grŵp o ysgolion arbenigol sy'n paratoi dawnsywyr ifanc ar gyfer gyrfaeoddedd sy'n cychwyn yn ifanc, sef 18 neu 19 oed. Un o'r ysgolion hyn yw'r Central School for Ballet, sy'n rhan o CDD. Y prif enghreifftiau eraill yw'r Royal Ballet School, Elmhurst yn Birmingham, Arts Ed yn Tring, a Hammond yng Nghaer (mae pob un yn aelodau o'r Cynllun Cerdd a Dawns, a'r English National Ballet, sy'n un o ysgolion DaDA.

### Cyd-destun mwy ffafriol

Mae'n ymddangos bod y cyd-destun dawns yng Nghymru yn gryfach heddiw na degawd yn ôl. Dyma rai pwyntiau perthnasol:

- mae darpariaeth i ddechreuwr a llwybrau datblygiad cynnar wedi'u cryfhau, gan sicrhau darpariaeth ddaearyddol well yng Nghymru, ac mae rhagor o asiantaethau datblygu dawns a strwythurau dawns ieuenticid a chymunedol;
- er bod prinder cymorth dawns mewn ysgolion yn gyffredinol yn parhau i fod yn broblem, mae sawl coleg chweched dosbarth ac AB yn parhau i wneud gwaith da ym maes dawns, gan nodi a meithrin talent ifanc, a pharatoi ymgeiswyr da ar gyfer hyfforddiant conservatoire;
- mae Rubicon Dance yn cynnig cwrs sylfaen paratoi dwy flynedd amser llawn sy'n llwyddo i baratoi ymgeiswyr cryf ar gyfer hyfforddiant conservatoire;
- mae hyfforddiant wythnosol ar gyfer myfyrwr canolradd a lefel uwch yn cael ei ddarparu yng Nghaerdydd gan Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru; mae'r ddarpariaeth hon yn cyd-fynd â'r ysgol haf ddwys a drefnir bob blwyddyn gan Ddawns Genedlaethol Ieuenticid Cymru;
- mae'r gymuned o artistiaid dawns yng Nghymru yn tyfu diolch i ddau gwmni dawns cenedlaethol, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd, a Bale Cymru yng Nghasnewydd, sy'n cyflogi tua 17 o ddawnsywyr rhyngddynt, ynghyd â sawl artist dawns llawrydd ac ambell i gwmni sy'n canolbwyntio ar brosiectau;
- mae rhagor o raglenni dawns yn cael eu darparu gan glwstwr o gyflwynwyr, hyrwyddwyr a chomisynwyr dawns, gan gynnwys Chapter, Coreo Cymru, y Tŷ Dawns (sy'n gartref i Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yng Nghanolfan Mileniwm Cymru), a Phrif Lwyfan Canolfan Mileniwm Cymru ei hun;
- Mae Gwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn creu gwaith sy'n teithio ar lefel genedlaethol a rhyngwladol ac mae wedi ymrwymo i fuddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o ddawnsywyr.

### Diben

Rhaglen i israddedigion mewn dawns gyfoes yw'r genre priodol ar gyfer y Coleg. Mae dawns gyfoes yn parhau i ehangu ei chwmpas artistig, ac mae'n apelio i ragor o gynulleidfaoedd yn y DU a gweddill y byd. Diben y rhaglen fyddai hyfforddi artistiaid dawns ar gyfer gyrfaeoddedd cynaliadwy fel performwyr, coreograffwyr ac athrawon sy'n meddu ar y sgiliau modern hanfodol ym meysydd entrepreneuriaeth a hunanreoli. Rhan o'r genhadaeth sylfaenol fyddai cefnogi a datblygu'r capasiti dawns yng Nghymru. Yn ei gyflwyniad i'r Adolygiad, mae Prif Weithredwr Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn mynegi ei obaith y gallai hyn arwain at ragor o dalent o Gymru yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r cwmni. Maes o law, gellid ychwanegu menter i raddedigion hefyd. Gallai hyn fod ar ffurf cwmni bach a fyddai'n ehangu'r diddordeb mewn dawns ac ymestyn yr ystod o ddarpariaeth ar gyfer teithiau byr yng Nghymru.

### Canolfan

Mae Cyngor Celfyddydau Lloegr yn buddsoddi yn Leeds, gyda chysylltiadau yn Newcastle, gan ddatblygu endidau allweddol megis Northern Ballet, Phoenix Dance, Northern School of Contemporary Dance, Yorkshire Young Dancers, ac yn Newcastle, Dance City, er mwyn sefydlu "Canolfan Ddawns Gogledd Lloegr" fel prif ganolfan gogledd Lloegr ar gyfer datblygu dawns y tu allan i Lundain. Yn yr un modd, byddai ychwanegu hyfforddiant conservatoire at ddarpariaeth y Coleg, gyda chymorth Cyngor Celfyddydau Cymru, yn helpu i ddatblygu seilwaith dawns Cymru yn brif ganolfan y DU ar gyfer datblygu dawns. Hefyd, bydd hyn yn ychwanegu safbwyntiau newydd ac egni newydd, gan helpu i sicrhau bod dawnsywyr ifanc talentog o Gymru yn gallu datblygu eu celfyddyd a'u gwaith coreograffi unigryw.

### Cefnogaeth

Yn eu tystiolaeth i'r Adolygiad, roedd Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Rubicon Dance, Cyngor Celfyddydau Cymru, a Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru yn dangos cefnogaeth gadarn i'r Coleg yn cymryd arweiniad newydd ym maes hyfforddiant dawns. Mae'r Coleg yn gallu defnyddio ei seilwaith hyfforddiant presennol i reoli'r datblygiad hwn. Bydd angen iddo nodi a chefnogi'r arweinyddiaeth orau ar gyfer y datblygiad hwn. Bydd partneriaeth dda â Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a chydweithio â'r unigolion allweddol eraill ym maes dawns yn hanfodol i lwyddiant y fenter hon. Mae gan y Coleg gysylltiadau proffesiynol da eisoes â Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru trwy, er enghraifft, y fenter gydweithredol rhwng dawnsywyr a dylunwyr, "llwybrau amgen".

#### Adnoddau

Bydd angen i'r adnoddau ar gyfer y rhaglen ddarparu ar gyfer cysylltiadau addysgu â gweddill y DU a thramor. Gellid ystyried cydweithio proffesiynol ag un o'r ysgolion dawns sefydledig yn y cyfnod cychwynnol. Hefyd, mae'n bwysig bod amrywiaeth ehangach o raglenni dawns o lefydd eraill ar gael yng Nghymru, a bod artistiaid ifanc sydd wrthi'n hyfforddi yn gallu manteisio ar hynny. Nododd yr Adolygiad fod y Coleg yn hyderus y byddai'n gallu defnyddio cyllid preifat i ddarparu stiwdios dawns newydd mewn estyniad newydd ar y safle.

#### Llwybrau a darpariaeth arall

Mae angen parhau â'r ymdrechion i gryfhau'n ariannol y llwybrau dilyniant ym maes dawns yng Nghymru, yn ogystal â gwaith pwysig Rubicon Dance. Byddai cyflwyno cynllun MDS, fel yr awgrymwyd ar gyfer cerddoriaeth ym Mhennod 3, yn cryfhau llwybrau a mynediad, gan helpu Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru i ymestyn rhaglenni dwys cyn 18 oed i rannau eraill o Gymru. Eglurodd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ei bod yn cyflwyno newid strategol er mwyn hyfforddi addysgwyr dawns mewn rhaglen BAdd yn hytrach na hyfforddi "ymarferwyr" cymunedol yn ei gradd BA (Anrh) mewn Dawns yn yr Ysgol Chwaraeon. Mae'r radd newydd mewn dawns ym Mhrifysgol De Cymru newydd ei sefydlu.

#### Niferoedd

Dylai myfyrwyr sy'n mynychu darpariaeth conservatoire arfaethedig y Coleg huanu o'r DU a thramor yn ogystal ag o Gymru, a dylent ddod o gefndiroedd amrywiol a bod â phrofiadau gwahanol. Mae'n debyg y bydd hyd at 15 o fyfyrwyr yn cael eu recriwtio bob blwyddyn. Bydd rhaid rhoi digon o amser i'r cwrs newydd sefydlu ei lais a'i enw da ei hun, gan ddangos yr hyn y gellir ei ddarparu yng Nghymru ac ar gyfer Cymru.

### iii. CASGLIADAU

#### Ystyriaethau

Mae'r syniadau hyn ar gyfer datblygu'r cwricwlwm yn mynd i'r afael â meysydd cyfle ar gyfer Cymru. Mae enghreifftiau da eisoes yn bodoli mewn rhannau eraill o system conservatoire'r DU, a bydd modd i'r Coleg roi'r syniadau hyn ar waith trwy ddefnyddio ei seilwaith hyfforddiant presennol a'i gysylltiadau â system ddiwylliannol Cymru. Mae'r Coleg yn hyderus ei fod yn gallu ariannu stiwdios newydd â chyllid preifat.

#### Argymhelliad

Gan fod y ddadl gelfyddydol o blaid cyflwyno hyfforddiant dawns gyfoes ar lefel israddedig yng Nghymru yn gryf, a bod y cyd-destun wedi'i wella'n ddigonol i gynyddu'r posibilrwydd o lwyddiant, rydym yn argymhell y dylai'r Coleg gynllunio i wneud hyn yn ystod y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn rhagdybio bod cyllid y Coleg yn cael ei ddatrys yn llawn, yn unol â'r argymhelliad ym Mhennod 3. Dylai barhau i ddiwallu anghenion hyfforddiant theatr gerddorol yng Nghymru trwy ei raglen a addysgir i israddedigion, a pharhau i adolygu unrhyw anghenion brys i ehangu darpariaeth theatr gerddorol.



## 6. DARPARIAETH AU GYSYLLTIEDIG

### i. DARPARIAETH GYSYLLTIEDIG

#### Niferoedd myfyrwyr

Yn ogystal ag archwilio'r trefniadau ar gyfer cefnogi "darpariaeth conservatoire" yng Nghymru, gofynnwyd i'r Adolygiad ystyried darpariaeth AU gysylltiedig yn ymwneud â'r celfyddydau perfformio yng Nghymru. Yn 2014/15, yn ogystal â'r 715 o fyfyrwyr yn mynychu'r Coleg, roedd 2,190 o fyfyrwyr eraill yn mynychu cyrsiau eraill, heb fod yn gonservatoire, a chysiau'r celfyddydau perfformio mewn SAU yng Nghymru [Tabl 25]. Roedd tua 1,145 ohonynt yn astudio drama, 1,020 yn astudio cerddoriaeth, a 45 yn astudio dawns. Mae saith o'r wyth prifysgol yng Nghymru yn cynnig cyrsiau o'r fath, a'r darparwr mwyaf yw Prifysgol De Cymru sydd â 1,030 o fyfyrwyr, neu 47% o "ddarpariaeth y celfyddydau perfformio gysylltiedig". Mae cyfanswm o 1,030 o fyfyrwyr yn mynychu Ysgol Gerdd a Pherfformio'r Brifysgol, gyda 480 yn astudio cerddoriaeth a 550 yn astudio drama yng Nghyfadrannau y Diwydiannau Creadigol. Mae nifer y myfyrwyr sy'n mynychu'r chwe darparwr arall yn isel, sef 200 ar gyfartaledd. Prifysgol Abertawe yw'r unig brifysgol yng Nghymru nad yw'n cynnig darpariaeth ym maes y celfyddydau perfformio.

#### Ystod a lefel

Yn gyffredinol, mae natur, ystod a lefel y ddarpariaeth a addysgir yn y celfyddydau perfformio yng Nghymru yn debyg i'r ddarpariaeth yng ngweddill y DU. Yn wir, eglurodd PDC i'r Adolygiad fod ei phrif gystadleuwyr ym meysydd dawns a pherfformiad yn dod o'r tu allan i Gymru, sef Manchester Met, Birmingham City, a Bath Spa yn benodol. Mae crynodiad darpariaeth y celfyddydau perfformio yng Nghymru yn debyg i gyfartaledd y DU.

#### Cerddoriaeth

Mae darpariaeth a addysgir yn y celfyddydau perfformio yn cael ei gwahaniaethu a'i dosbarthu'n dda ledled Cymru. Mae'r ddwy adran gerddoriaeth "academaidd" yng Nghaerdydd a Bangor wedi'u lleoli mewn rhannau gwahanol o Gymru, ac mae darpariaeth gerddoriaeth PDC yng Nghaerdydd yn canolbwyntio ar gerddoriaeth boblogaidd a masnachol ac ar dechnoleg gerddoriaeth, sy'n wahanol i'r ddau ddarparwr cerddoriaeth arall yng Nghaerdydd. PDC yw'r darparwr mwyaf o dechnoleg gerddoriaeth yng Nghymru, sydd hefyd ar gael ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn y Gorllewin ac ym Mhrifysgol Glyndŵr yn y Gogledd.

#### Drama

Mae PDC yn ategu darpariaeth conservatoire y Coleg ym maes drama yng Nghaerdydd hefyd. Mae pob un o'r darparwyr drama eraill yn cysylltu astudiaeth ehangach ag ymarfer, gan wneud hynny mewn ffyrdd gwahanol. Mae PDC yn rhoi pwyslais mawr ar sgiliau ymarferol fel sylfaen i archwilio cyd-destunau ac elfennau perfformio gwahanol. Mae Aberystwyth yn defnyddio ymarfer i lywio ymgysylltiad â meddwl beirniadol a theori ar draws ffiniau disgyblaeth traddodiadol. Mae cyrsiau'r Drindod Dewi Sant yn archwilio defnyddiau cyfoes eang a chyd-destunau creadigol penodol. Mae Prifysgol Glyndŵr yn cynnig gradd mewn perfformio, ac mae ffocws gradd Met Caerdydd mewn dawns yn newid o ymarfer cymunedol i ddawns mewn addysg.

### ii. YMARFER

#### Dewisiadau ymarferol

Er bod y cyrsiau prifysgol hyn yn darparu addysg academaidd mewn agweddau ar y celfyddydau perfformio, maent i gyd yn cynnig rhywfaint o brofiad o sgiliau perfformio ymarferol neu brosesau creadigol eraill yn y rhaglenni. Mewn rhai achosion, mae'r elfennau ymarferol yn ddewisol ac nid yn orfodol o reidrwydd, yn enwedig os yw rhaglenni academaidd mewn cerddoriaeth, er enghraifft, yn canolbwyntio ar hanes, dadansoddi a chyfansoddi. Mewn achosion eraill, mae'r modiwlau ymarferol yn ganolog i'r cwrs, ac mae rhwng traean a hanner yr amser cyswllt yn cael ei neilltuo ar gyfer gwaith ymarferol fel arfer. Mae profiad ymarferol yn y meysydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel sylfaen ar gyfer dulliau astudio ym meysydd perfformiad, ei hanes, theori, a rôl technoleg.

#### Achrediad gan y diwydiant

Mae'r pwyslais ymarferol yn cael ei ffafrio gan "brifysgolion 1992" sy'n datblygu traddodiadau hir o hyfforddiant galwedigaethol mewn celf a dylunio. Er enghraifft, mae PDC yn cynnig cyrsiau a achredir gan y diwydiant sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddatblygu sgil ymarferol benodol. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau BA mewn ffilm a

dylunio setiau teledu, effeithiau gweledol a graffeg symudiadau, a chreu gwisgoedd. Mae'r enghreifftiau hyn yn diwallu anghenion penodol yn y celfyddydau perfformio a'r diwydiannau diwylliannol, ac maent yn cael eu hachredu ymhellach gan y Set Sgiliau Greadigol. Yn yr un modd, mae gradd BSc PDC mewn peirianeg sain yn cael ei hachredu gan JAMES.

### iii. ADRANNAU ACADEMAIDD A CONSERVATOIRES

#### Llwybr conservatoire

Mae'r conservatoires yn darparu hyfforddiant dwys seiliedig ar ymarfer ar gyfer myfyrwyr sy'n cael eu dethol yn ofalus ac sydd â'u bryd ar weithio mewn swyddi penodol yn y proffesiwn. Ar gyfer hyfforddiant o'r fath, mae angen lleoliad sefydliadol sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar berfformiad. Hwn yw'r llwybr arferol i swyddi da ar gyfer perfformwyr ym meysydd cerddoriaeth glasurol, actio, dawn, a'r syrca, ac mewn gyrfaedd eraill sy'n gysylltiedig â'r maes perfformio, fel cynhyrchu, cyfarwyddo, coreograffi, dylunio, goleuo, sain, gwisgoedd a gwaith proffesiynol arall. Mewn cyferbyniad, mae'r prifysgolion yn defnyddio dull gweithredu ehangach i ddarparu addysg academaidd. Er enghraifft, mae'r adrannau academaidd ym maes cerddoriaeth yn cynnig theori cerddoriaeth, dadansoddi, cyfansoddi, estheteg, a deall cerddoriaeth mewn llawer o ddiwylliannau a chyd-destunau. O safbwynt dewisiadau perfformio, mae medrusrwydd allweddellau yn gymorth traddodiadol ar gyfer astudio academaidd, ac mae rhai adrannau'n cynnig addysgu ehangach ym maes perfformio.

#### Gorgyffwrdd a dewisiadau amgen

Er bod rôl benodol conservatoires yn eglur,<sup>24</sup> mae modd nodi gorgyffwrdd, yn enwedig ym maes cerddoriaeth, rhwng y ddarpariaeth mewn adrannau prifysgolion academaidd a'r ddarpariaeth mewn conservatoires. Mae hyn yn digwydd ar y ddwy ochr, gyda conservatoires yn darparu rhai modiwlau academaidd a phrifysgolion yn darparu elfen o addysgu perfformiad. Mae rhai artistiaid ifanc talentog sy'n mynd ymlaen i gael gyrfaedd llwyddiannus fel perfformwyr yn dewis astudio mewn prifysgol ac nid mewn conservatoire ar lefel israddedig er mwyn cael profiad academaidd ehangach, ac nid o reidrwydd trwy fynychu adran gerdd neu ddrama. Gall cyrsiau prifysgol mewn drama, cerddoriaeth boblogaidd a dawn ddarparu amgylchedd lle mae perfformwyr talentog yn cael eu nodi ac yn mynd ymlaen i weithio yn y proffesiynau. Yn yr achosion hyn, mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn symud ymlaen i hyfforddiant uwch mewn conservatoire ar ôl cwblhau eu cwrs prifysgol.<sup>25</sup>

#### Cyfuno astudiaeth academaidd a conservatoire

Eglurodd Adran Gerddoriaeth Prifysgol Caerdydd i'r Adolygiad ei bod yn rhoi mwy o bwyslais ar berfformio na'r rhan fwyaf o brifysgolion. Mae'n caniatáu i hyd at 60% o amser addysgu gael ei neilltuo i hyn ac i weithgareddau cysylltiedig sy'n rhan o'r dewis perfformio yn y radd BMus. Mae Prifysgol Manceinion, mewn partneriaeth â Choleg Cerdd Brenhinol Gogledd Lloegr, yn cynnig cynllun uchel ei barch ar gyfer cyfuno astudio mewn conservatoire ac astudiaeth academaidd. Mae myfyrwyr Prifysgol Manceinion sy'n dilyn y "cwrs ar y cyd" yn derbyn eu holl hyfforddiant perfformio yn RNCM, gan gynnwys pedwaredd flwyddyn ychwanegol. Mae'r dewis hwn ar gael i'r myfyrwyr mwyaf talentog a galluog yn academaidd yn unig.

### iv. Y DIWYDIANNAU CREADIGOL

#### Darpariaeth y diwydiannau creadigol

Mae'n berthnasol ystyried yn gryno cwrpas a statws darpariaeth addysg uwch a addysgir Cymru ar gyfer gyrfaedd yn y diwydiannau creadigol a diwylliannol yn eu cyfanrwydd, sy'n gydsyniad ehangach sy'n cwrpasu'r celfyddydau perfformio. Mae'r diwydiannau creadigol yn cyfateb yn fras i gategori "celfyddydau a dylunio creadigol" yr Asiantaeth

<sup>24</sup> Mae canlyniadau cyflogaeth conservatoires a phrifysgolion yn wahanol. Mae'r rhan fwyaf o raddedigion sy'n gadael conservatoires yn cael swyddi sy'n gysylltiedig â'u hyfforddiant.

<sup>25</sup> Hefyd, mae'r lleoliad ymchwil yn wahanol mewn conservatoire ac mewn adran academaidd sy'n ymgymryd â gwaith ymchwil, lle mae'r pwyslais ar strwythurau a phrosesau ymchwil ffurfiol yn nodwedd unigryw. Fodd bynnag, mae pob conservatoire yn cyflogi staff ymchwil sy'n gwneud cyfraniad gweithredol at yr hyfforddiant. Cafwyd cyflwyniadau i'r REF diweddaraf yn 2014 gan saith o'r naw conservatoire sy'n derbyn cyllid premiwm, er bod hyn yn cynnwys 10% yn unig o'u staff academaidd ar gyfartaledd. Roedd mewnbyn gan RWCMD wedi'i gynnwys yn ymarferiad asesu ymchwil 2008 PDC, ac aeth y Coleg ati i baratol cyflwyniad ar gyfer REF 2014. Mae dull gweithredu conservatoires ym maes "ymchwil" hefyd yn cynnwys cynhyrchu, comisiynu, a pharatoi perfformiadau, lle maent yn labordai perfformiad ac ymarfer addysgu. Mae ffrwyth y gweithgareddau hyn, yn ogystal â'u gwybodaeth arbenigol, yn cael eu rhannu'n eang yn y sector, hyd yn oed gan sefydliadau sy'n rhoi llai o bwyslais nag eraill ar gynnal strwythurau ymchwil ffurfiol.

Ystadegau Addysg Uwch ".<sup>26</sup> Roedd cyfanswm o 8,480 o fyfyrwyr Cymru yn 2014/15 yn y categori hwn [Tabl 24]. Roedd tua 1,530 yn astudio ffilm a ffotograffiaeth, 3,445 yn astudio dylunio a chelfyddyd gain, 600 yn astudio ysgrifennu creadigol, a 2,905 yn astudio'r celfyddydau perfformio. Mae tua 6.4% o'r holl fyfyrwyr yn y DU sy'n astudio "celfyddydau a dylunio creadigol" yn astudio yng Nghymru, sy'n 34% yn uwch na dosbarthiad pro rata'r DU ar sail poblogaeth. O ganlyniad, gellir nodi bod gan Gymru grynnodiad arwyddocaol o ddarpariaeth a addysgir yn y maes hwn.

### Prif ddarparwyr

Mae PDC wedi gwneud yr ymrwymiad mwyaf i addysg y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae 3,185 o fyfyrwyr wedi'u hymrestru yng Nghyfadrannau Diwydiannau Creadigol y Brifysgol, sef 38% o holl fyfyrwyr Cymru yn y maes hwn [Tabl 24]. Mae PDC yn atgyfnerthu hyn trwy sicrhau bod ei chyrsgiau, ei chyfleusterau a'i chyfarpar yn "canolbwyntio ar y gweithle". Hefyd, mae gan y Brifysgol gysylltiadau amrywiol â sector y diwydiannau creadigol yng Nghymru ac mewn llefydd eraill. Yr ail ddarparwr mwyaf yng Nghymru yw Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (1,520 o fyfyrwyr), sef tua hanner maint cyfleuster PDC, a'r trydydd darparwr mwyaf yw Met Caerdydd (1,090 o fyfyrwyr). Mae Aberystwyth, Glyndŵr a Bangor yn cynnig darpariaeth ar raddfa lai.

### Cystadleuwyr

Mae cyrsiau PDC yn cwmpasu llawer o elfennau sylfaenol y diwydiannau creadigol, gan gynnwys crynnodiad mwyaf Cymru o addysgu ym meysydd y cyfryngau, ffilm a ffotograffiaeth. Enillodd yr ysgol ffilm ei henw da yng Nghasnewydd sawl degawd yn ôl, ac eglurodd PDC fod ei chyrsgiau ffasiwn, cynllunio cartref a darlunio yn denu llawer o fyfyrwyr. Mae'r bylchau yn narpariaeth PDC ym meysydd dylunio cynnyrch, cyfathrebu, crefft a phensaernïaeth yn cael eu llenwi gan ddarparwyr mewn rhannau eraill o Gymru. Unwaith eto, lleolir y prif gystadleuwyr y tu allan i Gymru, sef Prifysgol Gorllewin Lloegr, Bath Spa, Falmouth, a Bournemouth ym maes y cyfryngau, ac UWE, Bath Spa, a Birmingham City ym maes ffasiwn. Mae llawer o waith addysgu PDC yn cael ei wneud yn adeilad ATRIUM yng Nghaerdydd, lle mae estyniad newydd gwerth £15 miliwn wedi cryfhau capasiti addysgu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru yn sylweddol.

### Fframwaith ehangach

Mae'r prifysgolion yn un elfen o fframwaith addysgol a hyfforddi ehangach ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru. Mae natur a chyflenwad y ddarpariaeth, a rôl colegau, graddau, prentisiaethau a lleoliadau yn parhau i esblygu. Mae llawer o'r gwaith yn canolbwyntio ar sefydlu llwybrau prentisiaethau effeithiol ar y cyd â ddarparwyr presennol er mwyn diwallu anghenion y sector a gweithredu er budd hirdymor hyfforddeion.

### Cynghorau sgiliau sector

Mae'r ddau gyngor sgiliau sector, y Set Sgiliau Greadigol, a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, yn gwneud cyfraniad pwysig at fynegi anghenion y diwydiant, datblygu cysylltiadau â ddarparwyr, achredu darpariaeth, a hyrwyddo llwybrau mwy amrywiol a phriodol i yrfaedd technegol. Mae PDC wedi mynd ati i sicrhau achrediaid ar gyfer cyrsiau gan y ddau gorff. Cafodd Coleg Morgannwg a'r Fro, un o nifer o golegau sydd â chysylltiad â PDC, ei ddewis fel yr unig "goleg arweinyddiaeth" yng Nghymru ar gyfer y Cyngor Sgiliau Cenedlaethol. Mae Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Set Sgiliau Greadigol yn cynnwys cynrychiolwyr o BBC Cymru, ITV, S4C, Pinewood, a chyflogwyr eraill, ynghyd â PDC a thîm diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru.

### Pryderon

Nododd yr Adolygiad fod rhai cyflogwyr allweddol yn y diwydiannau creadigol yn parhau i'w chael yn anodd recriwtio unigolion â'r addysg a'r hyfforddiant priodol, a'u bod yn cwestiynu gwerth a pherthnasedd yr hyfforddiant presennol a'r cymwysterau sy'n cael eu dyfarnu. I rai sylwedyddion, mae pwyslais darpariaeth hyfforddiant wedi symud gormod tuag at addysg uwch, ac o safbwynt cyflogwyr, gall y cydbwysedd rhwng anghenion y diwydiant a gofynion academaidd achosi problemau. Codwyd pryderon tebyg chwe blynedd yn ôl gan Adroddiad Hargreaves i Lywodraeth Cymru, *Calon Cymru Ddigidol*. O ganlyniad, mae'r angen i ddiwygio'r system sgiliau a chryfhau statws cymwysterau galwedigaethol, yn enwedig ar lefel drydyddol, wedi'i gydnabod fwyfwy. Ategir hyn gan y dystiolaeth yn ymwneud ag amrywioldeb enfawr y premiwm i raddedigion, a'r sgoriau isel yn y celfyddydau creadigol yn benodol.<sup>27</sup> Hefyd,

<sup>26</sup> Mae'n cynnwys y celfyddydau perfformio, dylunio, celfyddyd gain, ffilmiau a ffotograffiaeth, crefftau ac ysgrifennu llawn dychymyg; disgyblaethau'r "diwydiannau creadigol" ym meysydd pwnc HESA eraill yw pensaernïaeth, datblygu meddalwedd, agweddau ar dechnoleg ddigidol, a meysydd cysylltiedig yn y Dyniaethau.

<sup>27</sup> Gweler [gov.uk/government/publications/review-of-vocational-education-the-woolf-report](http://gov.uk/government/publications/review-of-vocational-education-the-woolf-report); a J Britton, et al, *How English domiciled graduate earnings vary with gender, institution attended, subject, and socio-economic background*, Y Sefydliad Astudiaethau cyllid 13 Ebrill 2016.

rhybuddiwyd yr Adolygiad am y perygl o brifysgolion yn "gorwerthu" cyrsiau a gorliwio rhagolygon mewn gyrfaoedd penodol.

v. CASGLIADAU

Cyllid

Y rhagdybiaeth bresennol yw bod modd darparu addysg yn y diwydiannau creadigol, gan gynnwys darpariaeth gysylltiedig yn y celfyddydau perfformio, trwy ddefnyddio'r adnodd safonol sy'n seiliedig ar ffi o £9,000 fesul myfyriwr. Eglurodd PDC fod modd gwneud hyn trwy ddefnyddio rhywfaint o groes-gymhorthdal ar lefel gyfadran. Darpariaeth conservatoire'r Coleg yw'r eithriad arwyddocaol i'r rheol hon, ac roedd tystiolaeth PDC yn cadarnhau mai ei blaenoriaeth addysgu yw adfer cyllid premiwm y Coleg i'r lefel ofynnol.

Pynciau cost uchel yn Lloegr

Dylid nodi bod HEFCE yn Lloegr yn credu bod y "celfyddydau a dylunio creadigol" yn faes pwnc cost uchel sy'n gofyn am gyllid grant ychwanegol. Ar hyn o bryd, darperir grantiau o £250 y pen ar gyfer myfyrwyr israddedig a £1,100 y pen ar gyfer ôl-raddedigion sy'n dilyn "rhaglenni dwys a addysg" yng ngrŵp pris C1. Dadleuodd yr adrannau cerdd ym Mhrifysgolion Bangor a Chaerdydd fod angen croes-gymhorthdal i gynnal addysgu ym maes cerddoriaeth a safle addysgu offerynnau yn y cwricwlwm sylfaenol.

Argymhelliad

O ganlyniad i gydnabyddiaeth gynyddol o'r angen ehangach i ddiwygio'r system sgiliau, rwy'n awgrymu y gall CCAUC ystyried yn y dyfodol a fydd angen premiwm pwnc drud ar gyfer unrhyw elfennau pwysig o'r ddarpariaeth addysgu yn y diwydiannau creadigol, yn yr un modd â'r pynciau stem, o ystyried eu pwysigrwydd i economi Cymru, er mwyn talu costau llawn darpariaeth o'r fath y tu hwnt i'r ffioedd dysgu.

## 7. CCAUC

### i. RÔL

#### Sefydlu

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yw'r asiantaeth sy'n cyllido ac yn rheoleiddio addysg uwch yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd ym 1992 o dan delerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Sefydlodd y ddeddf hon gyrrff ar wahân i gyllido addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban, a gyllidwyd cyn hynny gan un Cyngor Cyllido Prifysgolion ledled y DU. Hefyd, fe aeth y Ddeddf ati i ledaenu cwrpas y system brifysgolion trwy ganiatáu i tua 35 o golegau polytechnig newid i fod yn brifysgolion, a newid y drefn fel nad oedd awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli colegau addysg bellach.

#### Rôl

Mae CCAUC yn dosbarthu cyllid sy'n cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer addysgu, gwaith ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig. O ystyried y newidiadau diweddar i gyllido addysgu, mae rolau eraill CCAUC, yn enwedig rheoleiddio, wedi dod yn bwysicach. Mae'r rolau hyn yn cynnwys rheoleiddio'r ffioedd dysgu uchel newydd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, sy'n amodol ar ofynion i ehangu mynediad a chynhwysiant. Mae'r asiantaethau cyllido yn parhau i gysylltu â'r gilydd yn rheolaidd ar lefel y DU, ac, er enghraifft, mae CCAUC yn isgontractio ei gyfrifoldeb sicrhau ansawdd i'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch, sy'n gweithredu o dan gytundeb lefel gwasanaeth gyda CCAUC, er bod y trefniant hwn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

#### Cyllid premiwm

Cafwyd cefnogaeth gref gan CCAUC i weledigaeth y Coleg, a fynegwyd yn y 1990au, i ddatblygu'n gonservatoire ag enw da rhyngwladol. Comisiynodd astudiaeth annibynnol ym 1999 (y flwyddyn y sefydlwyd Llywodraeth Cynulliad Cymru) yn ymwneud â'r adnoddau cyllido gofynnol i ddarparu hyfforddiant conservatoire "o ansawdd uchel" yng Nghymru. Roedd yr astudiaeth hon yn ystyried yn fanwl y dull gweithredu ar gyfer gweithgareddau cyfatebol a fabwysiadwyd gan y cyngorau cyllido newydd yn Lloegr a'r Alban. Ar sail y gwaith ymchwil hwn, cyflwynodd CCAUC system gyllid y premiwm pwnc drud ar gyfer y Coleg yn 2001/02.

#### Dechrau cystadleuol

Roedd y system gyllido newydd yn cydnabod natur gost uchel hyfforddiant conservatoire a'r angen i adlewyrchu hynny mewn dull cyllido unigryw. Hefyd, fe'i pennwyd gan CCAUC ar lefel gystadleuol o'i gymharu â sefydliadau cyfatebol yn Lloegr a'r Alban. Uned yr adnodd (ffi + grant) ar gyfer y Coleg yn 2001/02 oedd £10,250 fesul myfyriwr ar gyfer uchafswm o 465 o fyfyrwyr Cartref/UE, ac roedd cymysgedd amrywiol o niferoedd israddedigion ac ôl-raddedigion. O ganlyniad i'r trefniant hwn, roedd uned adnodd y Coleg fesul myfyriwr tua 5.7% yn uwch na'r grŵp conservatoires 'brenhinol' yn Lloegr, a 12.6% yn uwch na Conservatoire Brenhinol yr Alban (Academi Gerdd a Drama Frenhinol yr Alban ar y pryd). O ganlyniad, roedd modd sicrhau bod y datblygiad arfaethedig i enw da'r Coleg yn gallu mynd rhagddo'n llwyddiannus. Yn fuan ar ôl y cam pwysig hwn, derbyniodd y Coleg ei ddynodiad "Brenhinol" yn 2002.

#### Cynghrair strategol

Hefyd, ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, roedd CCAUC yn ddylanwadol iawn yn y broses o greu'r "gynghrair strategol" rhwng Prifysgol Morgannwg a'r Coleg yn 2007. Ar y pryd, credai CCAUC y byddai ymlyniad â sefydliad mawr yn gwneud y Coleg yn fwy diogel a chryf, a bod hwn yn gam hanfodol o ystyried yr elfen benthyciad mawr yn y broses arfaethedig o gyllido ei brosiect adeiladu arwyddocaol, y cytunwyd arno fel rhan o'r "gynghrair strategol". Eglurodd CCAUC i'r Adolygiad mai'r cefndir i'r "gynghrair strategol" yng Nghymru oedd "hanes sefydliadau bach a fethodd". Felly, ar wahân i'r ystyriaethau eraill ar y pryd, roedd y Coleg yn rhan o syniadau cyffredinol CCAUC ynglŷn â'r agwedd benodol hon ar bolisi. Roedd y polisi yn ystod degawd cyntaf y ganrif hon yn seiliedig ar greu llai o sefydliadau yn fwy o ran maint a oedd mewn sefyllfa well i wrthsefyll newidiadau'r farchnad ym maes addysg uwch.

### ii. POLISI

#### Anawsterau

Yn dilyn gwaith mor dda, mae'n siomedig iawn na allai CCAUC gynnal ei ymrwymiad blaenorol i gyllid premiwm pwnc drud ar gyfer y Coleg wrth ariannu'r newid i'r ffioedd dysgu uchel newydd. Ymddengys bod y grant ffioedd dysgu newydd wedi dod o gyllideb addysg uwch Cymru ac wedi arwain at leihau cyllid CCAUC, gan ei orfodi i ddewis ei flaenoriaethau, gan gynnwys cefnogi pynciau drud. Nid CCAUC oedd yn gyfrifol am y broblem hon, ac wrth i'w gyllideb leihau o £258 miliwn yn 2012/13 i £132 miliwn yn 2016/17, roedd anawsterau'n anorod.

### Strategaeth gyllido CCAUC

Fel yr eglurwyd ym Mhennod 3, er gwaethaf y gostyngiad i gymorth grant CCAUC, ymddengys bod y newidiadau i gyllid addysg uwch, a ddechreuodd yn 2012/13, wedi cael yr effaith a fwriadwyd yng Nghymru o gynyddu incwm addysgu ar gyfer addysg uwch, er y gallai'r cynnydd amrywio ar sail recriwtio (gweler Diamond). Ond roedd y canlyniad i'r Coleg yn wahanol. Llwyddodd y broses drawsnewid i gynyddu incwm addysgu'r Coleg yn y lle cyntaf, gyda'r cynnydd mewn ffioedd yn rhagflaenu'r gostyngiad mewn grantiau, ond erbyn diwedd y broses drawsnewid yn 2016/17, roedd adnodd addysgu'r Coleg ar gyfer myfyrwyr cartref/UE yn is o lawer nag yn 2011/12. Roedd y lefel mor isel nes peryglu dyfodol conservatoire cenedlaethol Cymru.

Fel y disgrifiwyd ym Mhennod 3, dechreuodd CCAUC y newid cyllido yn 2012/13 trwy leihau'r premiwm pwnc drud o £10,130 i £9,000 fesul myfyriwr. Roedd hynny'n cyd-fynd â chyflwyno'r ffi £9,000 ar gyfer myfyrwyr blwyddyn gyntaf y Coleg. Cynnig gwreiddiol CCAUC ar gyfer y Coleg yn ystod y newid cyllido oedd lleihau'r premiwm pwnc drud 50% yn 2014/15, a'i ddileu'n gyfan gwbl yn 2015/16. Ym marn yr Adolygiad hwn, roedd dull gweithredu CCAUC yn methu deall natur arbenigol y Coleg neu asesu effaith ei gynnig ar statws conservatoire'r Coleg. Nid oes syndod bod y cynnig wedi'i wrthwynebu'n gryf gan PDC a'r Coleg, a bod CCAUC wedi lleihau'r gostyngiad cam cyntaf arfaethedig yn 2014/15 o 50% i draean.

Bryd hynny, cafwyd rhybudd gan astudiaeth feincnodi a gomisiynwyd gan PDC y byddai unrhyw ostyngiad pellach yn peryglu rôl y Coleg fel conservatoire rhyngwladol. Hefyd, penderfynodd Llywodraeth Cymru gynnwys yr angen i ddiogelu darpariaeth conservatoire yn ei llythyr cylch gwaith yn 2015/16. Fodd bynnag, penderfynodd CCAUC leihau'r premiwm eto yn 2015/16, nes ei fod yn 40% o'i lefel yn 2012/13. O ganlyniad, cafwyd gostyngiad yn yr uned adnodd (ffi + grant) fesul myfyriwr Cartref/UE, gan olygu na fyddai darpariaeth conservatoire yn gynaliadwy o bosibl ar sail y cyllid a oedd ar gael, fel yr eglurwyd ym Mhennod 3.

### Dirgelwch

Fel cydnabyddiaeth bod yr Adolygiad hwn eisoes ar waith, aeth Llywodraeth Cymru ati, trwy CCAUC, i ddarparu "cyllid lliniaru" untro yn 2015/16 i CCAUC. Dosbarthwyd y cyllid hwn i PDC ac fe'i defnyddiwyd yn rhannol i gefnogi uned adnodd y Coleg. Nid oedd unrhyw gyllid o'r fath ar gael y flwyddyn ganlynol yn 2016/17. Yn ei dystiolaeth i'r Adolygiad hwn, nododd CCAUC ei bod yn hanfodol i ddatblygiad diwylliannol, addysgiadol a chymdeithasol Cymru bod gan y wlad gonservatoire cenedlaethol cadarn a llwyddiannus. Ar sail y sylw hwn, mae agwedd CCAUC at gyllido'r Coleg yn ddirgelwch i raddau helaeth, yn enwedig o ystyried bod y corff wedi ymdrin â'r enghraifft arall o bremiwm pwnc drud yng Nghymru, ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth, yn wahanol iawn. Cafwyd gostyngiad o 23% yn lefel y premiwm pwnc drud ar gyfer meddygaeth a deintyddiaeth yn 2012/13, o'i gymharu â gostyngiad o 60% ar gyfer hyfforddiant conservatoire yn y Coleg.

### iii. CASGLIADAU

#### Sylw

Gofynnwyd i'r Adolygiad hwn archwilio rôl CCAUC yn cefnogi darpariaeth conservatoire. Yn ystod y cyfnod pan gyflwynodd CCAUC y system gyllido premiwm, roedd ganddo hanes llwyddiannus o gyllido darpariaeth conservatoire. Felly, wrth wynebu her y system gyllido newidiol ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn fwy cyffredinol, mae'n destun syndod a siom bod CCAUC yn gyfrifol am ganlyniad a oedd â'r potensial i niweidio'r Coleg.

#### Hazelkorn

Ychydig cyn dechrau'r Adolygiad hwn, cyhoeddwyd adolygiad yr Athro Ellen Hazelkorn, wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru, i "drosolwg o addysg ôl-orfodol yng Nghymru, gyda chyfeiriad arbennig at rôl a swyddogaeth CCAUC". Roedd Adolygiad Hazelkorn yn cynnwys nifer o faterion sy'n berthnasol i'r Adolygiad hwn, gan gynnwys sut i fynd ati i gyfuno nodau addysgol a chymdeithasol. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i Adolygiad Hazelkorn ym mis Mehefin 2017 trwy gyhoeddi Papur Gwyn yn cynnwys cynigion i greu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd i Gymru a fydd yn goruchwyllo pob math o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. Nododd y Papur Gwyn yn glir y bydd swyddogaethau CCAUC yn cael eu trosglwyddo i'r Comisiwn newydd maes o law, yn amodol ar

ddeddfwriaeth. Wrth ddatblygu unrhyw strategaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru yn y dyfodol, gobeithir y bydd y Comisiwn yn rhoi sylw dyledus i ganfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad hwn mewn perthynas â darpariaeth conservatoire a'i phwysigrwydd i fywyd diwylliannol ac economi Cymru.

#### Argymhelliad

Mae'r Adolygiad hwn yn cefnogi'r egwyddor o gorff hyd braich, fel CCAUC. Ar ôl ystyried hanes ymdriniaeth darpariaeth conservatoire, mae'n credu ei bod yn bwysig bod y corff newydd, beth bynnag yw ei gwmpas, yn gallu helpu i gyflwyno blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ym meysydd addysg a hyfforddiant, fel sy'n briodol, ledled y system addysg ôl-orfodol, gan gynnwys addysg uwch.

## ATODIAD 1

### Cylch gorchwyl

Mae darparu cyrsiau perfformio dwys o safon uchel sy'n canolbwyntio ar berfformiad ymarferol a galwedigaethol yn hanfodol i feithrin y sgiliau sydd eu hangen ar y diwydiannau creadigol a bywyd diwylliannol Cymru.

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, sef is-sefydliad ym mherchnogaeth Iwyr Prifysgol De Cymru, yw Conservatoire Cenedlaethol Cymru ac mae'n rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru. Mae'r Coleg Cerdd a Drama'n cystadlu â grŵp rhyngwladol o conservatoires a cholegau celfyddydol arbenigol tebyg. Mae prifysgolion eraill yng Nghymru yn cynnig cymysgedd o gyrsiau sy'n ymwneud â'r celfyddydau, cerddoriaeth a pherfformio.

Bydd yr adolygiad yn archwilio'r trefniadau presennol i hybu conservatoires a chyrsiau perthnasol sy'n ymwneud â'r celfyddydau perfformio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys:

- a) rôl Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru fel sefydliad cenedlaethol, sydd â phroffil rhyngwladol, sy'n gweithredu mewn ffordd sy'n cynnig budd i'r cyhoedd;
- b) y posibilrwydd i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru annog a chynorthwyo dysgwyr o gefndiroedd llai breintiedig, a grwpiau eraill na chânt eu cynrychioli'n ddigonol, i fanteisio ar addysg uwch;
- c) y modd y gall Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru weithio ar ran y gymuned leol a'r gymuned genedlaethol, ac ar y cyd â'r cymunedau hynny, i hybu datblygiadau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol, a chreu cysylltiadau rhwng y Coleg â diwydiannau perthnasol a chael cymorth ganddynt;
- ch) y berthynas rhwng yr hyn y mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yn ei ddarparu fel conservatoire a'r hyn y mae sefydliadau addysg uwch eraill Cymru yn ei ddarparu mewn meysydd cysylltiedig.

Gofynnir i'r adolygiad nodi sut y gellid datblygu'r cwricwlwm yn y dyfodol gan gynnwys sefydlu theatr gerddorol i israddedigion a hyfforddiant dawns galwedigaethol/proffesiynol yng Nghymru.

O gofio mai mater i brifysgolion unigol, fel sefydliadau hunanlywodraethol, yw strwythurau a threfniadau llywodraethu mewnol, bydd yr adolygiad yn gwneud argymhellion ynghylch ariannu conservatoires a chyrsiau cysylltiedig yng Nghymru yn y dyfodol a hynny yn erbyn cefnlen o newidiadau sylweddol ym maes cyllido addysg uwch, llywodraethu cenedlaethol a fframweithiau sicrhau ansawdd. Bydd yr adolygiad yn archwilio sut y mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn rhoi cymorth ariannol i gonservatoires a chyrsiau cysylltiedig, a chaiff ei gynnal ochr yn ochr â'r adolygiad ehangach o drefniadau llywodraethu a rheoleiddio addysg a hyfforddiant ôl 16 sy'n cael ei gynnal gan yr Athro Ellen Hazelkorn.

Bydd hwn yn adolygiad cynhwysol a fydd yn seiliedig ar dystiolaeth. Caiff yr holl randdeiliaid perthnasol eu gwahodd i gyfrannu gan gynnwys y rhai sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ar hyn o bryd, y diwydiannau creadigol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.



## ATODIAD 2

### Rhestr o bartïon yr ymgynghorwyd â hwy, tystiolaeth a gyflwynwyd a llythyrau a dderbyniwyd

Cafwyd cyflwyniadau gan y sefydliadau a'r unigolion canlynol, a chafodd yr Arglwydd Murphy gyfarfodydd gyda'r unigolion a enwir:

Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Hilary Boulding (Pennaeth), Scott Allin (Is-Bennaeth) et al  
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Helene Mansfield (Cadeirydd Dros Dro)  
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Peter Harris (Llywydd Undeb y Myfyrwyr) a Brian Weir (Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr)

Prifysgol De Cymru, Gareth Williams (Cadeirydd) a Julie Lydon (Is-Ganghellor)  
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, David Allen (Cadeirydd) a David Blaney (Prif Weithredwr)

Cyngor Celfyddydau Cymru, Phil George (Cadeirydd), a Nick Capaldi (Prif Weithredwr)  
Ron Jones, Cadeirydd Tinopolis a Phanel Diwydiannol Creadigol Llywodraeth Cymru, ac Ed Thomas, Three Cliffs Productions  
Celfyddydau Cenedlaethol Ieuencid Cymru, Christine Lewis OBE (Cadeirydd) a Gareth Pierce

Yr Adran Gerdd, Prifysgol Caerdydd, Yr Athro Kenneth Hamilton  
Yr Adran Gerdd, Prifysgol Bangor, Dr Chris Collins

David Pountney, Cyfarwyddwr Artistig, Opera Cenedlaethol Cymru  
Geraint Talfan Davies, cyn Reolwr BBC Cymru a Chadeirydd Opera Cenedlaethol Cymru

Cafwyd cyflwyniadau gan sefydliadau ac unigolion pellach:

Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru  
Rubicon Dance  
Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC  
Theatr Genedlaethol Cymru

Canolfan Gerdd William Mathias, Rheolwr Gyfarwyddwr, Opera Cenedlaethol Cymru  
Prifysgol Metropolitan Caerdydd  
Coleg Merthyr Tudful  
Arglwydd Aberdâr

Cyfarfu'r Arglwydd Murphy â'r canlynol hefyd:

Syr Ian Diamond, Is-Ganghellor, Prifysgol Aberdeen  
Chris Nott, Cyfreithiwr, cyn Gadeirydd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (aelodau'r Tîm Adolygu yn unig)  
Menna Richards OBE, cyn Reolwr BBC Cymru a Chadeirydd Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru  
Y Fonesig Janet Ritterman, Canghellor, Prifysgol Middlesex, cyn Bennaeth y Coleg Cerdd, ac Aelod o Fwrdd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Ymwelodd yr Arglwydd Murphy â'r canlynol:

Academi Frenhinol Celf Ddramatig, Edward Kemp (Pennaeth) ac aelodau staff eraill  
Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru, Hilary Boulding (Pennaeth), Sean Crowley (Cyfarwyddwr Drama), John Cranmer (Cyfarwyddwr Cerddoriaeth) ac aelodau eraill o'r staff addysgu,  
Dan Howard (Deon Dros Dro, Diwydiannau Creadigol), Jane McCloskey (Deon Dynodedig), a phenaethiaid tair ysgol ym Mhrif-ysgol De Cymru

Cynhaliwyd ymgynghoriadau anffurfiol â'r canlynol:

Edward Fivet, cyn Bennaeth, Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru  
Yr Athro Veronica Lewis MBE, Pennaeth, Ysgol Ddawns Gyfoes Llundain  
Syr Paul Silk, cyn Aelod o Fwrdd Prifysgol De Cymru a Choleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru

Yr Arglwydd Rowe-Beddoe, Is-Ganghellor, Prifysgol Morgannwg/Prifysgol De Cymru, a chyn Gadeirydd Coleg Cerdd  
a Drama Brenhinol Cymru

### ATODIAD 3

#### Tablau

#### MYFYRWYR

1. Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, nifer y myfyrwyr AU, yn ôl gwlad, pwnc, a lefel, 2015/16

	Cymru	Gweddill y DU	Gweddill yr UE	Gweddill Y byd	I gyd
	Rhif				
Drama:					
Israddedig	41	11 3	6	20	18 0
Ôl-raddedig	12	13	9	11	45
Cerddoriaeth:					
Israddedig	9 1	231	16	20	358
Ôl-raddedig	24	4 4	11	50	129
Rheoli'r celfyddydau:					
Israddedig	-	-	-	-	-
Ôl-raddedig	7	6	2	2	17
Y cyfan:					
Israddedig	132	34 4	22	40	5 38
Ôl-raddedig	43	6 3	22	6 3	191
Cyfanswm	175	40 7	44	103	7 29

Ffynhonnell: RWCMD.

2. Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, myfyrwyr AU, yn ôl gwlad, nifer a chanrannau, 2014/15 a 2015/16

	Nifer		Canrannau	
	14/15	15/16	14/15	15/16
Cymru	150	175	21.0	24.1
Gweddill y DU	435	4 11	60.8	56.3
Gweddill yr UE	40	44	5.6	6.1
Gweddill y byd	90	99	12.6	13.6
Cyfanswm	715	72 9	100.0	100.0
O'r rhain:				
Cyfanswm yr UE a gweddill y byd	130	143	18.2	19.7

Ffynhonnell: RWCMD.

3. Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, myfyrwyr AU<sup>a</sup> fesul pwnc a lefel, 2015/16

	Israddedig	Ôl-raddedig	I gyd
	Nifer		
Drama	18 0	45 <sup>b</sup>	22 5
Cerddoriaeth	35 8	129	48 7
Rheoli'r celfyddydau	-	17	17
Cyfanswm	53 8	191	72 9

Ffynhonnell: RWCMD.

<sup>a</sup> Ddim yn cynnwys astudio dramor.

<sup>b</sup> Yn cynnwys theatr gerdd.

4. Conservatoires y DU, myfyrwyr AU (nifer) , yn ôl y math o gelfyddyd, 2014/15

	Cerddoriaeth	Drama	Dawns	I gyd
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru	480	235	-	715
Royal Conservatoire Scotland	485	375	30	890 <sup>a</sup>
Royal Northern College of Music	805	-	-	805
Guildhall School of Music and Drama	725	180	-	905
Royal Academy of Music	775	-	-	775
Royal College of Music	800	-	-	800
Royal Central School of Speech and Drama	-	995 <sup>b</sup>	-	995
Trinity Laban	590	-	355	960 <sup>c</sup>
Conservatoire ar gyfer Dawns a Drama <sup>d</sup>	-	660	600	1,260
Cyfanswm	4,660	2,445	985	8,105

Ffynhonnell: Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, gan HESA.

<sup>a</sup> Ac eithrio 95 o fyfyrwyr BAdd.

<sup>b</sup> Yn cynnwys 40 ar gyrsiau ysgrifennu creadigol a chyrtsiau cerdd.

<sup>c</sup> Yn cynnwys 15 ar gyrsiau celfyddydau creadigol a dylunio eraill.

<sup>d</sup> Yn cynnwys wyth ysgol gysylltiedig, London Contemporary Dance School, Royal Academy of Dramatic Art, Bristol Old Vic Theatre School, London Academy of Music and Dramatic Arts, Northern School of Contemporary Dance, Central School of Ballet, Rambert School of Ballet and Contemporary Dance, a'r National Centre for Circus Arts.

5. Conservatoires y DU, myfyrwyr AU, yn ôl preswyllo yn y DU a thramor, 2014/15

	Y DU	Gweddill yr UE	Gweddill Y Byd	Cyfanswm	Tramor <sup>a</sup>
	Nifer				%
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru <sup>b</sup>	58 5	40	90	7 15	18
Royal Conservatoire Scotland	635	110	145	890	29
Royal Northern College of Music	600	65	140	805	25
Guildhall School of Music and Drama	610	160	135	905	33
Royal Academy of Music	410	165	200	775	47
Royal College of Music	420	165	215	800	47
Royal Central School of Speech and Drama	755	80	160	995	26
Trinity Laban	720	150	90	960	25
Conservatoire ar gyfer Dawns a Drama <sup>c</sup>	870	175	215	1,260	31
Cyfanswm	5,605	1,110	1,390	8,105	31

Ffynhonnell: Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, gan HESA.

<sup>a</sup> Gweddill yr UE a gweddill y byd.

<sup>b</sup> Data mwyaf diweddar, 2015/16.

<sup>c</sup> Yn cynnwys wyth ysgol gysylltiedig, London Contemporary Dance School, Royal Academy of Dramatic Art, Bristol Old Vic Theatre School, Royal Northern School of Contemporary Dance, Central School of Ballet, National Centre for Circus Arts, Rambert School of Ballet and Contemporary Dance.

6. Myfyrwyr AU mewn celfyddydau creadigol a dylunio yn RWCMD, USW, a holl SAUau Cymru, yn ôl eu cartref, 2014/15

	Cymru	Gweddill y DU	Gweddill yr UE	Gweddill y byd	I gyd	Sy'n hanu o dramor <sup>a</sup>
	Canrannau					
RWCMD	21.0	60.8	5.6	12.6	100	18.2
Prifysgol De Cymru <sup>b</sup>	63.3	29.5	5.3	2.0	100	7.3
Pob SAU yng Nghymru	54.2	37.6	4.5	3.7	100	8.2

Ffynhonnell: Adran Addysg Llywodraeth Cymru gan HESA.

<sup>a</sup> Gweddill yr UE a gweddill y byd.

<sup>b</sup> Ac eithrio RWCMD.

7. Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru, ceisiadau am gyrsiau AU, 2015/16

	Ceisiadau	
	Cyfanswm	Am bob lle
Israddedig:		
BA actio	999	45.4
BA rheoli llwyfan	123	5.1
BA dylunio theatr	127	5.8
BMus	502	5.1
BMus jazz	69	5.3
Ôl-raddedig:		
MA actio	262	26.7
MA dylunio theatr	39	2.3
MA rheoli llwyfan a digwyddiadau	28	4.0
MMus/PG Dip	208	3.7
MA perfformio opera	44	5.5
MA PG Dip jazz	6	2.1
Theatr gerddorol MA	101	8.4

Ffynhonnell: RWCMD.

8. Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, ceisiadau AU, yn ôl Israddedig ac Ôl-raddedig, ac yn ôl cerddoriaeth a drama

	2012	2013	2014	2015	% newid 12-15
	Nifer				
Israddedig	1,432	1,439	1,576	1,570	+9.6
Ôl-raddedig	439	535	643	688	+56.7
I gyd	2,083	2,195	2,456	2,508	+20.4
O'r rhain:					
Cerddoriaeth	728	795	865	879	+13.9
Drama	1,355	1,400	1,591	1,679	+23.9

Ffynhonnell: RWCMD.

9. Ceisiadau AU ar gyfer cerddoriaeth yn RWCMD a conservatoires dethol yn y DU

	2006	2011	2014	% newid 06-14
	Nifer			
RWCMD:				
Israddedig	404	581	551	+36.4
Ôl-raddedig	138	212	319	+231.0
I gyd	542	793	865	+59.0
RNCM	1,099	1,400	1,385	+26.0
RCM	1,415	1,930	1,915	+35.3
Trinity Laban	1,025	1,315	1,165	+13.7
RCS	772	995	1,400	+81.3 <sup>a</sup>

Ffynhonnell: Adroddiadau blynyddol CUKAS ac RWCMD.

<sup>a</sup> Ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o'r Alban, roedd cyrsiau israddedig yn parhau i fod am ddim o 2012 ymlaen.

10. RWCMD, galwedigaethau y cohort a raddiodd yn 2013 yn 2016

	Drama			Cerddoriaeth				
	Actio	Dylunio	Dyn styntiau	Cerdd	Chwyth	Llinynnau	Llais	Allwedd elau
	Canrannau							
Perfformio, cynhyrchu <sup>a</sup>	93	89	91	64	58	64	65	63
Addysgu <sup>b</sup>	-	-	-	22	26	27	14	9
Proffesiynau cysylltiedig <sup>c</sup>	4	7	6	7	8	5	8	19
Sectorau a DK eraill	4	3	3	7	8	5	12	9
	100	100	100	100	100	100	100	100
Cohort sy'n graddio:								
Maint (nifer)	28	29	31	82 <sup>d</sup>	12	22 <sup>e</sup>	16 <sup>f</sup>	11

Ffynhonnell: RWCMD; Cyflwyniad JM.

<sup>a</sup> Yn cynnwys astudiaethau uwch a pherfformwyr proffesiynol sydd hefyd yn addysgu.

<sup>b</sup> Prif alwedigaeth; yn bennaf fel athrawon offerynnau a llais.

<sup>c</sup> Fel rheoli'r celfyddydau, castio, asiantau, darlledu, recordio a therapi.

<sup>d</sup> Cyrchfan gyntaf israddedigion 2012.

<sup>e</sup> 2015.

<sup>f</sup> Cyfartaledd 2011-2014.

11. Myfyrwyr AU sy'n hanu o Gymru sy'n mynychu conservatoires y DU, gan RWCMD ac eraill, 2014/15

	Israddedig	Ôl-raddedig	I gyd
	Nifer		
RWCMD	125	25	150
Conservatoires eraill	170	50	220 <sup>1</sup>
Cyfanswm	295	75	370

Ffynhonnell: Adran Addysg Llywodraeth Cymru gan HESA.

<sup>1</sup> O'r rhain, RNCM 40, TLCMD 40, CDD 30, GSMD 30, RAM 25, RCM 20, RCSSD 20, ac RCS 5.

ARIANNU A CHYLLID

12. Newid trefniadau cyllido RWCMD, ffioedd o dan yr hen drefn a'r un newydd, premiwm pwnc drud ac adnodd israddedig

	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17
	£ y myfyriwr					
Ffi'r hen drefn	3,375	[3,476]	[3,580]	3,685	am	am
Ffi'r drefn newydd	am	9,000	9,000	9,000	9,000	9,000
Premiwm israddedig	10,320	9,000	9,000	6,000	3,600	3,442 <sup>a</sup>
Adnodd israddedig (ffi + premiwm) <sup>b</sup> :						
Hen drefn	13,695	12,476	12,580	12,685	am	am
Trefn newydd	am	18,000	18,000	15,000	12,600	12,442

Ffynhonnell: RWCMD a CCAUC.

<sup>a</sup> Net cyllid Asiantaeth Sector.

<sup>b</sup> Ar gyfer myfyrwyr newydd.

13. Nifer y myfyrwyr AU sy'n cael cyllid premiwm yn RWCMD

	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17
Cyfansymiau rheoli						
Israddedig	427	400	468	460	460	477
Ôl-raddedig llawn amser	26	25	27	27	am	am
Ôl-raddedig rhan-amser	<u>42</u>	<u>43</u>	<u>40</u>	<u>40</u>	<u>40</u>	<u>am</u>
Cyfanswm	495	468	536	506	500	477
Niferoedd ychwanegol <sup>a</sup>	[10]	10	10	10	-	-
Cyfanswm a ariennir	505	478	546	516	500	477

Ffynhonnell: RWCMD a CCAUC.

<sup>a</sup> [ariennir gan Brifysgol De Cymru].

14. Nifer y myfyrwyr AU cyfwerth ag amser llawn sy'n ymrestru yn RWCMD, yn ôl myfyrwyr cartref/ariennir gan yr UE a ffioedd yn unig, ac yn ôl myfyrwyr o dramor

	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17
Cartref/UE:						
Nifer cyfwerth ag amser llawn						
Ariennir	505	478	546	516	500	477
Ffioedd yn unig	<u>69</u>	<u>79</u>	<u>17</u>	<u>56</u>	<u>86</u>	<u>154</u>
Cyfanswm	574	557	563	572	586	631
Tramor	48	57	64	69	79	86
Cyfanswm	622	614	627	641	665	717

Ffynhonnell: RWCMD.

15. Nifer y myfyrwyr AU cyfwerth ag amser llawn sy'n ymrestru yn RWCMD, yn ôl myfyrwyr cartref/ariennir gan yr UE a myfyrwyr o dramor, ac yn ôl pwnc

	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17
	Nifer cyfwerth ag amser llawn					
Israddedigion cartref/UE:						
Cerddoriaeth	327	314	309	333	338	377
Drama	<u>153</u>	<u>154</u>	<u>152</u>	<u>148</u>	<u>160</u>	<u>168</u>
Cyfanswm	480	468	461	481	498	545
Ôl-raddedigion cartref/UE:						
Cerddoriaeth	51	43	52	46	[40]	44
Drama	33	37	35	34	[35]	34
Rheoli	<u>11</u>	<u>9</u>	<u>15</u>	<u>11</u>	<u>[13]</u>	<u>8</u>
Cyfanswm	<u>95</u>	<u>89</u>	<u>102</u>	<u>91</u>	<u>[88]</u>	<u>86</u>
Cyfanswm Cartref/UE	575	557	563	572	[586]	631
Tramor						
Cerddoriaeth	26	34	37	40	46	-
Drama	<u>22</u>	<u>23</u>	<u>27</u>	<u>29</u>	<u>33</u>	-
Cyfanswm tramor	<u>48</u>	<u>57</u>	<u>64</u>	<u>69</u>	<u>79</u>	<u>86</u>
Cyfanswm cyfwerth ag amser llawn	622	614	627	641	665	717

Ffynhonnell: RWCMD.

16. Elfennau grant addysgu RWCMD

	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17
	£ '000					
Cyllid premiwm	5,092	4,255	4,856	3,153	2,010	1,639 <sup>a</sup>
CCAUC arall						
Nifer israddedigion ychwanegol <sup>b</sup>	[90]	90	90	60	-	-
PGT	[150]	[118]	66	44	35	-
Grant y pen	<u>65</u>	<u>46</u>	<u>6</u>	<u>3</u>	<u>3</u>	<u>3</u>
Cyfanswm	569	437	309	200	82	3
Cyllid lliniaru	-	-	-	-	466	-
Cyllid ychwanegol <sup>b</sup>	<u>264</u>	<u>183</u>	<u>147</u>	<u>93</u>	<u>44</u>	<u>-</u>
Cyfanswm grant addysgu	5,661	4,692	5,165	3,354	2,558	1,642

Ffynhonnell: RWCMD, CCAUC, Prifysgol De Cymru.

<sup>a</sup> Net o £80,000 o gyllid asiantaeth sector.

<sup>b</sup> [Ariennir gan Brifysgol De Cymru].



17. Adnodd addysgu (grantiau a ffioedd) AU RWCMD ar gyfer myfyrwyr cartref/UE, cyfanswm ac adnodd fesul myfyriwr cyfwerth ag amser llawn

	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17 <sup>a</sup>
	£ i bob myfyriwr cyfwerth ag amser llawn					
Grantiau addysgu (£'000)	5,661	4,692	5,165	3,354	2,558 <sup>b</sup>	1,642
Ffioedd cartref/UE (£'000)	<u>2,368</u>	<u>3,060</u>	<u>3,918</u>	<u>4,800</u>	<u>5,397</u>	<u>5,754</u>
Cyfanswm adnodd Cartref/UE (£'000)	8,029	7,752	9,083	8,154	7,955	7,396
Myfyriwr cartref / UE FTE (nos) <sup>c</sup>	575	557	563	572	586	631
Adnodd fesul myfyriwr cartref/UE (£)	13,963	13,917	16,133	14,255	13,575	11,721

Ffynhonnell: RWCMD.

<sup>a</sup> Amcanestyniad.

<sup>b</sup> Yn cynnwys £466,000 o 'gyllid lliniaru'.

<sup>c</sup> Yn cynnwys myfyrwyr rheoli'r celfyddydau.

18. Incwm addysgu (grantiau a ffioedd) AU RWCMD ar gyfer pob myfyriwr, cyfanswm yr adnodd a fesul myfyriwr (cyfwerth ag amser llawn)

	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17 <sup>a</sup>
Grantiau addysgu (£'000)	5,661	4,692	5,165	3,354	2,558	1,642
Ffioedd (£'000)	<u>3,031</u>	<u>3,967</u>	<u>4,955</u>	<u>5,972</u>	<u>6,828</u>	<u>7,343</u>
Cyfanswm adnoddau addysgu (£'000)	8,692	8,659	10,120	9,326	9,368	8,985
Myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn (nifer)	623	614	631	646	665	717
Adnodd fesul myfyriwr (£)	13,952	14,103	16,038	14,392	14,087	12,531

Ffynhonnell: RWCMD; cyfrifiad JM.

<sup>a</sup> Cyllideb.

19. Adnodd addysgu (grantiau a ffioedd addysgu) fesul myfyriwr (cyfwerth ag amser llawn), gan RWCMD a conservatoires Lloegr

	11/12	15/16	16/17
	£ fesul myfyriwr Cartref/UE		
RWCMD	13,963	13,575	11,721
Conservatoires Lloegr <sup>a</sup>	14,198	14,810	15,467 <sup>b</sup>
Gwahaniaeth (£)	-235	-1,235	-3,746
% gwahaniaeth	-1.7	-8.5	-24.2
	£ fesul myfyriwr (i gyd)		
RWCMD	13,952	14,089	12,531
Conservatoires Lloegr <sup>c</sup>	14,574	am	16,626 <sup>d</sup>
Gwahaniaeth (£)	-622	am	-4,095
% gwahaniaeth	-4.3	am	-24.6

Ffynhonnell: data RNCM, gweler Tablau 17 a 18; data conservatoires Lloegr 2011/12 o gyfrifon statudol a HESA, 2015/16 a 2016/17 gan CCAUC, gan ddefnyddio data HEFCE.

<sup>a</sup> RAM, RCM, RNCM, TL, a CDD

<sup>b</sup> Gyda RCSSD a GSMD.

<sup>c</sup> RAM, RCM, RNCM, TL, a GSMD.

<sup>d</sup> Dyraniad grant addysgu yn ogystal ag amcanestyniadau ffioedd yn seiliedig ar ddata 2014/15.

20. Grantiau addysgu yn conservatoires y DU, 2014/15 - 2016/17, gyda dadansoddiad o 2016/17

	14/15	15/16	16/17	Dadansoddiad 2016/17:			
				A	B	C	D
£ mil							
Ram	3,085	3,002	4,486	3,830	133	276	247
RCM	3,138	3,114	4,624	4,000	132	225	267
TL	5,858	5,840	5,433	4,438 <sup>c</sup>	201	146	648
RNCM	4,093	4,145	4,508	4,000	157	120	231
RCSSD	2,607	2,910	5,122	4,000	192	199	731
Gama	1,081	864	4,931	4,000	172	197	562
CDD	6,080	6,388	5,774	4,659 <sup>c</sup>	113	248	754
RCS	9,249	...	9,370 <sup>b</sup>	am	am	am	am
RWCMD	3,354	2,558	1,642	1,642 <sup>d</sup>	am	am	am

Ffynhonnell: HEFCE, SHEFCE, RWCMD.

- A Arian sefydliad arbenigol
- B Dyranriad pwnc-cost-uchel fesul myfyriwr
- C Darpariaeth ôl-raddedig ddwys
- D Grantiau addysgu eraill, gan gynnwys "Iwfans Llundain", "gwella cyfraddau cadw myfyrwyr", "darpariaeth ar gyfer anabled", ac "ehangu cyfranogiad i fyfyrwyr o ardaloedd difreintiedig"

<sup>a</sup> Ac eithrio cyfraniad Corfforaeth Dinas Llundain: a ychwanegodd £7,367,000 yn 2014/15.

<sup>b</sup> Yn ymwneud â tharged rheoledig o 609 myfyriwr cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys 92 o fyfyrwyr BEd.

<sup>c</sup> Yn cynnwys taliadau pontio mwy na £4 miliwn.

<sup>d</sup> Premiwm pwnc drud (sy'n gyfwerth â "chyllid sefydliad arbenigol" yn Lloegr).

21. Incwm a gwariant RWCMD

	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17
	£ '000					
Incwm:						
Grant a ffioedd AU	8,692	8,659	10,120	9,326	9,386 <sup>a</sup>	9,112
Gweithgarwch arall	1,857	1,962	1,539	1,588	1,774	1,766
Incwm preifat	-	150	145	623	928 <sup>b</sup>	1,002
Rhyddhau grant	551	476	392	384	209	169
Cyfanswm	11,100	11,246	12,196	11,921	12,297	12,049
Gwariant:						
Staff addysgu	3,632	3,571	3,914	3,939	4,194	4,337
Staff eraill	2,585	2,685	2,877	3,084	3,236	3,360
Heb fod yn staff	3,093	3,254	3,379	3,200	3,398	3,476
Llog ac adneuo	1,550	1,509	1,542	1,501	1,147	1,164
Cyfanswm	10,861	11,019	11,712	11,722	11,975	12,337
Gwarged/diffyg	+240	+228	+484	+199	+321	-1,076
Myfyrwyr AU cyfwerth ag amser llawn	622	614	627	641	665	717

Ffynhonnell: Cyfrifon rheoli RWCMD<sup>c</sup>.

<sup>a</sup> Yn cynnwys cyllid lliniaru £466,000.

<sup>b</sup> Yn cynnwys cyllid preifat argyfwng o £500,000.

<sup>c</sup> Amcanestyniad, 30 Tachwedd 2016.

22. RWCMD, dadansoddiad o incwm "arall" <sup>a</sup>

	11/12	12/13	13/14	14/15	15/16	16/17 <sup>b</sup>
	£ '000					
Cyn coleg	482	481	462	468	488	513
Tocynnau	33	153	156	172	180	188
Llogi/Arlwyo	352	219	224	295	301	307
Arall <sup>c</sup>	414	517	183	17	154	84
Llog	4	7	10	4	4	10
Arlwyo	574	585	504	631	647	664
Cyfanswm	1,857	1,962	1,539	1,588	1,774	1,766

Ffynhonnell: Cyfrifon rheoli RWCMD.

<sup>a</sup> Gros.

<sup>b</sup> Amcanestyniad, 30 Tachwedd 2016.

<sup>c</sup> Yn cynnwys hypo CCAUC, LICC, ychwanegiadau, ffioedd cyn coleg.

23. Patrymau incwm a gwariant yn SAU y DU, conservatoires<sup>a</sup> (saith cymharydd yn y DU) a RWCMD, 2013

	SAUau	Cons	RWC
	Canrannau		
Incwm:			
Grant, ffioedd addysgu	62.8	65.3	78.6
Ymchwil	17.8	1.5	0
Gweithgarwch arall	18.3	27.2	14.6
Preifat/end.	1.1	6.6	2.5
Cyfanswm	100.0	100.0	100.0
Gwariant:			
Staff	55.0	57.0	60.0
Gweithredu	37.5	38.2	27.8
Dibrisiant	7.3	4.5	8.1
Llog	0.3	0.3	3.1
Cyfanswm	100.0	100.0	100.0
Incwm cyfartalog (£m)			
Myfyrwyr	14.5 <sup>b</sup>	839 <sup>c</sup>	711 <sup>c</sup>

Ffynhonnell: Cyfrifon rheoli RWCMD.

<sup>a</sup> RAM, RCM, RNCM, RCS, TL, GSMD, RCSSD.

<sup>b</sup> Nifer mewn miloedd.

<sup>c</sup> Niferoedd mewn rhifau.

24. SAU Cymru, nifer y myfyrwyr AU sy'n ymrestru ar gyrsiau celfyddydau creadigol a dylunio<sup>a</sup>, 2014/15

	RWC	USW <sup>b</sup>	CAER	Met CAER	TAWE	UoW TSD	ABER	BAN	GLD	l gyd
	Nifer									
Celfyddydau perfformio	715	1,030	260	55	-	275	285	185	100	2,905
Dylunio, celf gain, sinema/ffoto	-	1,975	-	1,020	-	1,155	325	120	380	4,975
Ysgrifennu ac eraill	-	180	-	15	35	80	160	130	-	600
Cyfanswm	715	3,185	260	1,090	35	1,520	770	435	480	8,480
O'r rhain:										
Israddedigion	525	2,925	210	990	-	1,410	665	370	425	7,520
Ôl-raddedigion	190	260	50	100	35	100	105	65	55	960

Ffynhonnell: Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, gan HESA.

<sup>a</sup> Yng nghod pwnc W JACS.

<sup>b</sup> Dosbarthiad myfyrwyr: 2,015 yng ngampws Caerdydd, 510 yng nghampws Casnewydd, 200 ym mhrif gampws Pen-y-bont ar Ogwr, a 95 yng Ngholeg Merthyr.

25. SAU Cymru, nifer y myfyrwyr AU sy'n ymrestru ar gyrsiau celfyddydau perfformio, 2014/15

	RWC	USW	CAER	Met CAER	TAWE	UoW TSD	ABER	BAN	GLD	I gyd
Nifer										
Drama:										
Actio	100	-	-	-	-	135	-	-	-	235
Dylunio theatr	65	-	-	-	-	25	15	-	-	105
Rheoli llwyfan	70	-	-	-	-	-	-	-	-	70
Astud/perff drama/th	-	415	-	-	-	85	265	4	40	810
Gwisgoedd/effeithiau	-	65	-	-	-	-	-	-	-	65
Dylunio llwyfan	-	70	-	-	-	-	5	-	-	75
Drama i gyd	235	550	-	-	-	245	285	5	40	1,360
Cerddoriaeth a dawns:										
Cerddoriaeth	480	-	260	10	-	20	-	180	-	950
Pop ac arall	-	135	-	-	-	-	-	-	-	135
Cynhyrchu/ technegol/rheoli	-	345	-	-	-	-	-	-	60	405
Dawns	-	-	-	45	-	10	-	-	-	55
Cerddoriaeth a dawns i gyd	480	480	260	55	-	30	-	180	60	1,545
Celfyddydau perfformio i gyd	715	1,030	260	55	-	275	285	185	100	2,905
O'r rhain:										
Israddedigion	525	1,000	215	55	-	255	265	150	100	2,565
Ôl-raddedigion	190	30	45	-	-	20	20	35	-	340

Ffynhonnell: Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, gan HESA.

26. SAU Cymru, nifer y myfyrwyr AU sy'n ymrestru ar gyrsiau celfyddydau credigol a dylunio, 2014/15

	RWC	USW	CAER	Met CAER	TAWE	UoW TSD	ABER	BAN	GLD	I gyd
Rhif										
Cinematog a ffoto		975	-	160	-	190	140	-	65	1,530
Dylunio a chelf gain	-	1,000	-	860	-	965	185	120	315	3,445
Ysgrifennu ac arall	-	180	-	15	35	[ 30 ]	160	130	-	600
Cyfanswm	-	2,155	-	1,035	35	1,185	485	250	375	5,575

Ffynhonnell: Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, gan HESA.

## ATODIAD 4

### Llywodraethiant corfforaethol o'r Guildhall School of Music and Drama

Mae'r Guildhall School yn eiddo i Gorfforaeth Llundain, a sefydlwyd ym 1880. Hyd at 2006, fe'i gweithredwyd fel adran o Gorfforaeth y Ddinas. Ond addaswyd y trefniadau llywodraethu ar gais HEFCE, pan ddechreuodd yr ysgol dderbyn cyllid gan y llywodraeth ganolog. Ar yr adeg hon, dynodwyd yr ysgol yn Sefydliad Addysg Uwch yn 2006, a daeth yn gorff annibynnol a oedd yn llywodraethu ei hun, gan gadw'r cysylltiad â'i pherchennog, Corfforaeth y Ddinas, hefyd. Roedd hyn yn galluogi'r ysgol i gydymffurfio â'r cyfrifoldebau a'r gofynion adrodd a roddwyd arni fel corff a ariennir yn gyhoeddus, yn ogystal â cydymffurfiaid â gofynion ei pherchennog, Corfforaeth y Ddinas.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn cynnwys 22 aelod, 11 Henadur o Gorfforaeth y Ddinas, ac 11 arall, pump o'r ysgol (dau yn rhinwedd eu swydd a thri wed'u hethol gan staff), a chwe aelod annibynnol. Yn ogystal, mae cynrychiolwyr o dri endid diwylliannol arall yn mynychu'r Bwrdd mewn rôl gynghori. Y rhain yw Canolfan Barbican Llundain, y Pwyllgor Diwylliant, Treftadaeth a Llyfrgelloedd, a'r Ganolfan Cerddorion Ifanc.

Enwebir yr Henaduriaid gan y Cyngor Cyffredin ond dewisir y Llywodraethwyr Annibynnol gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn dewis y cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd o blith Llywodraethwyr y Cyngor Cyffredin. Mae'r penderfyniadau hyn yn amodol ar gymeradwyaeth Llys y Cyngor Cyffredin.

Mae Bwrdd y Llywodraethwyr yn penodi'r Pennaeth sy'n Brif Swyddog yr Ysgol. Mae'r Pennaeth yn atebol i Fwrdd y Llywodraethwyr am drefniadaeth, cyfeiriad a rheolaeth yr Ysgol, ac, fel Prif Swyddog Corfforaeth y Ddinas, mae'n atebol i Glerc y Dref hefyd. Ac yntau'n gweithredu fel y swyddog dynodedig ar gyfer yr ysgol hefyd, mae'r pennaeth yn uniongyrchol atebol i HEFCE am ei harian cyhoeddus a phrofiadau a chanlyniadau ei myfyrwyr, a gallai gael ei alw i ymddangos, fel unigolyn, gyda HEFCE gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

Mae gan y Bwrdd chwe phwyllgor sy'n ei gynghori, sef:

- Archwilio a Rheoli Risg;
- Enwebiadau;
- Tâl;
- Llywodraethu ac Effeithiolrwydd;
- Cyllid ac Adnoddau; a
- Chyfeirio.

Mae'r Pwyllgor Cyfeirio yn cyfarfod o dan amodau penodol i fynd i'r afael ag unrhyw faterion brys, a gall hefyd gyfarfod ag Is-bwyllgor Cyfeirio Bwrdd Canolfan Barbican.

Er bod Bwrdd y Llywodraethwyr yn parhau i fod yn rhan o strwythur pwyllgor cyffredinol Corfforaeth y Ddinas, mae'n gweithredu fel corff llywodraethu Guildhall School ac mae'n cyflawni'r dyletswyddau hyn yn unol â hynny. Mae Corfforaeth y Ddinas wedi sicrhau HEFCE ei bod yn cydnabod yr angen i Fwrdd Llywodraethwyr y Guildhall School allu gweithredu'n annibynnol, ac ni fydd, heb achos da, yn herio unrhyw benderfyniad a wnaed gan Fwrdd y Llywodraethwyr, a hynny'n briodol o fewn ei gylch gorchwyl ac yn unol â'r cynllun busnes a gymeradwywyd gan Gorfforaeth y Ddinas.

Mae Guildhall School Trust ar wahân yn arwain gweithgarwch codi arian yr Ysgol, ac mae ei chronfa ddatblygu yn elusen annibynnol arall. Mae rhywfaint o orgyffwrdd ymhlith aelodau'r Bwrdd, gyda'r nod o integreiddio gweithgareddau a dealltwriaeth yr ymddiriedolaeth a'r llywodraethwyr. Yn ogystal â chodi arian gan ymddiriedolaethau, busnesau ac unigolion, mae'r ymddiriedolaeth yn diogelu'r ased, sy'n werth tua £7 miliwn mewn buddsoddiadau ac arian parod. Chwaraeodd yr ymddiriedolaeth ran bwysig wrth ddarparu cyllid preifat i ddatblygiad Milton Court.

Tan 2016/17, yn ogystal â bod yn berchen ar yr ysgol, Dinas Llundain oedd ei phrif ariannwr hefyd. Cyfrannodd tua £6 miliwn y flwyddyn o gyllid refeniw, llawer mwy bryd hynny na'r swm a dderbyniwyd gan HEFCE.

Mae trefniant gwasanaeth ar y cyd ar waith ar gyfer y swyddogaeth gyllid rhwng ei dau sefydliad perfformio, Theatr a Neuadd Gyngerdd y Barbican a'r Guildhall School. Dylid nodi bod yr ysgol yn cadw rheolaeth o'i hadeiladau a'r gwaith o'u gweithredu, glanhau, a thrwsio a chynnal a chadw bob dydd.

